# GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL YNG NGHYMRU

## ADOLYGIAD CYFLYM

Paratowyd gan Dr Kit Chalmers a Bernard Okeah, ar ran yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol (THET), Mai 2021

THET
PARTNERSHIPS FOR GLOBAL HEALTH

1 CRYNODEB GWEITHREDOL .....5

2 CEFNDIR A CHYFLWYNIAD .....6

3 METHODOLEG A CHWMPAS .....8

3.1 AMCANION .....8

3.2 CWMPAS .....8

3.3 METHODOLEG .....8

4 Y SECTOR CYHOEDDUS .....10

4.1 RÔL LLYWODRAETH CYMRU YM MAES IECHYD RHYNGWLADOL .....10

4.2 CYRFF A PHOLISÏAU LLYWODRAETH Y DU SY'N BERTHNASOL I WEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU .....15

4.3 Y GIG AC YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL .....17

4.4 CYRFF ERAILL SY'N BERTHNASOL I IECHYD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR CYHOEDDUS .....23

4.5 GWYBODAETH GWAELODLIN TRAWS-SECTORAIDD O'R YMATEBION I'R AROLYGON .....24

4.6 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR CYHOEDDUS I IECHYD RHYNGWLADOL .....27

4.7 DADANSODDIAD: SECTOR CYHOEDDUS .....28

5 Y SECTOR ACADEMAIDD .....31

5.1 CYLLID A CHEFNOGAETH ARALL I'R SECTOR ACADEMAIDD .....31

5.2 YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL CYFFREDINOL PRIFYSGOLION .....32

5.3 HYFFORDDIANT GOFAL IECHYD .....34

5.4 YMCHWIL GWYDDORAU IECHYD A BYWYD . .....35

5.5 IECHYD BYD-EANG NEU WEITHGAREDD RHYNGWLADOL .....40

5.6 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR ACADEMAIDD I IECHYD RHYNGWLADOL .....41

5.7 DADANSODDIAD: SECTOR ACADEMAIDD .....42

6 Y SECTOR MASNACHOL .....44

6.1 TREFNIADAETH Y DIWYDIANT GWYDDORAU BYWYD YNG NGHYMRU .....44

6.2 CEFNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU A LLYWODRAETH Y DU I'R DIWYDIANT GWYDDORAU BYWYD .....46

6.3 GWEITHGAREDD MASNACHOL AC ARLOESI GYDA CHYRHAEDDIAD RHYNGWLADOL .....48

6.4 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR MASNACHOL I IECHYD RHYNGWLADOL .....50

6.5 DADANSODDIAD: Y SECTOR MASNACHOL .....52

7 Y SECTOR NID-ER-ELW .....54

7.1 STRWYTHUR A CHEFNOGAETH I SECTOR IECHYD RHYNGWLADOL NID-ER-ELW CYMRU .....54

7.2 GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR NID-ER-ELW .....55

7.3 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR NID-ER-ELW I IECHYD RHYNGWLADOL .....57

7.4 DADANSODDIAD: Y SECTOR NID-ER-ELW .....57

8 CASGLIADAU .....60

8.1 MAE GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU YN AMRYWIOL AC WEDI'I WASGARU'N EANG, GAN GREU RISG Y COLLIR Y MANTEISION .....60

8.2 Mae unigolion yn ased, ac mae angen cysylltiadau a chefnogaeth arnynt....60

8.3 Mae capasiti'n llesteirio twf, ym mhob maes ac ar bob lefel....60

8.4 Mae gan Gymru gryfderau sy'n arwain y byd....61

8.5 Nid yw Cymru'n tynnu digon o sylw at ei llwyddiannau....61

8.6 Mae'r ffaith bod Cymru mor fach yn ased....61

**9 ARGYMHELLION ....62**

9.1 Datblygu strwythurau craidd....62

9.2 Hyrwyddo rhagoriaeth....64

9.3 Cydio mewn cyfleoedd sy'n bodoli....66

**10 SYLWADAU CLOI....67**

Atodiad 1: Diolchiadau....68

Atodiad 2: Rhanddeiliaid a gyfwelwyd....69

Atodiad 3: Casgliadau ac Argymhellion o "Partneriaethau Iechyd Cymru gydag Affrica"....70

## Rhestr Termau

| ACRONYMAU A BYRFODDAU PENODOL I GIG CYMRU | |
|---|---|
| BIPBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| BIPAB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| BIPCAF | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| BIPCTM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Hywel Dda | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Powys | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Bae Abertawe | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| ICC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Felindre | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Canser) |
| YGAC | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| AaGIC | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |

### Rhestr Termau: parhad

| TERM | YSTYR |
|---|---|
| CHB | Cyrff Hyd Braich |
| BAPIO | Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd |
| DPP | Datblygu Proffesiynol Parhaus |
| MCSau | Mudiadau Cymdeithas Sifil |
| DfID | Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol |
| DHSC | Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig |
| DIT | Adran Masnach Ryngwladol |
| EMRTS Cymru | Y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys |
| FCDO | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu |
| GCRF | Y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang |
| GNI | Incwm Gwladol Crynswth |
| HCA | Hub Cymru Africa |
| YIGC | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru |
| HEE | Health Education England |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| HEFCW | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| GIGC | Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru) |
| IANPHI | Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd |
| IHCC | Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd |
| GIICh | Gwledydd Incwm Isel a Chanolig |
| LSHW | Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru |
| DCGA | Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica |
| MCDd | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| MHM | Menter Hyfforddiant Meddygol |
| NIHR | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd |
| ODA | Cymorth Datblygu Swyddogol |
| PHE | Public Health England |
| YaD | Ymchwil a datblygu |
| NDCau | Nodau Datblygu Cynaliadwy (y Cenhedloedd Unedig) |
| SSAP | Panel Cynghori Is-Sahara |
| Y Ddeddf | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |
| THET | Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol |
| RhCICA | Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica |
| WASH | Dŵr, Glanweithdra a Hylendid |
| WHEB | Addysg Uwch Cymru Brwsel |
| WHO | Sefydliad Iechyd y Byd |
| WHOCC | Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd |

## 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd yr adolygiad cyflym hwn o weithgaredd iechyd rhyngwladol yng Nghymru, a gynhaliwyd dros ddau fis, ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru mewn cyfnod o newid aruthrol. Mae pandemig y coronafeirws, ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a newidiadau i wariant llywodraeth y DU ar gymorth rhyngwladol yn cael effaith mewn ffyrdd nad oes modd eu deall yn llawn eto, ac ni fydd gwell amser i ystyried sut mae Cymru'n ymgysylltu'n rhyngwladol yn maes iechyd. Mae cynnal a chryfhau perthnasoedd byd-eang yn cynnig cyfle i ddiogelu a gwella cymdeithas yng Nghymru, cyfrannu at gymdeithasau eraill, a chau'r bylchau eang mewn cydraddoldeb sydd wedi dod mor amlwg, gartref yn ogystal â thramor.

Mae'r adolygiad hwn yn cofnodi'r asedau sylweddol sydd ar gael i Gymru ym maes iechyd rhyngwladol, gan edrych ar draws pob sector. Mae Cymru yn gartref i brifysgolion sy'n arwain yn fyd-eang, system iechyd a gofal unedig, sector masnachol gwyddorau bywyd ffyniannus, gweithgaredd byd-eang nad yw er elw, a'r cyfan yn cael eu cefnogi gan bolisïau cenedlaethol eangfrydig sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae'r adolygiad yn ystyried y ffyrdd y gall Cymru gynyddu gwerth ei ymwneud â iechyd rhyngwladol, er budd y wlad yn fasnachol ac o ran enw da. Lluniwyd ei argymhellion gyda golwg ar y cyfyngiadau cyllidol sy'n wynebu pob sefydliad a llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn, ond gan gydnabod hefyd nad yw Cymru, yn y blynyddoedd diweddar, wedi bod yn elwa'n llawn ar weithgaredd iechyd rhyngwladol, yn economaidd nac yn gymdeithasol.

Wedi rhoi manylion strwythurau a gweithgaredd ym mhob un o'r pedwar sector, mae Adran 8 yn amlinellu canfyddiadau sy'n nodi meysydd allweddol ar gyfer gwella, ac mae Adran 9 yn cynnwys cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r meysydd hynny. Rhennir yr argymhellion rhwng tair thema eang:

1. Datblygu Strwythurau Craidd:
   - Cywain gwybodaeth am weithgaredd iechyd rhyngwladol yn gyson.
   - Datblygu perthnasoedd cryf ar draws a rhwng llywodraethau.
   - Adolygu ymwneud y Llywodraeth â rhwydweithiau rhyngwladol.
   - Datblygu capasiti ar gyfer gweithgaredd iechyd rhyngwladol.
2. Hyrwyddo rhagoriaeth:
   - Creu Sefydliad Iechyd Byd-eang yng Nghymru.
   - Dathlu llwyddiannau.
   - Datblygu busnesau presennol sy'n gysylltiedig ag iechyd ymhellach.
3. Cydio mewn cyfleoedd:
   - Datblygu a hyrwyddo "Brand Cymru".
   - Cyflymu gwaith arloesi a mabwysiadu datrysiadau newydd yn y GIG.
   - Ystyried opsiynau sy'n cysylltu gofal iechyd a masnach.

Yn ganolog i'r rhain y mae'r angen i wella cydweithio a chydlynu ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig er mwyn gwneud datganiad cryfach ynglŷn â'r hyn y gall Cymru ei gyfrannu a'i ennill trwy ymgysylltu byd-eang. Bydd yr ymagwedd newydd yn galluogi Cymru i elwa'n llawnach ar y manteision, sy'n cael eu nodi trwy gydol yr adroddiad ac sy'n cynnwys recriwtio a datblygu staff a myfyrwyr talentog ar draws gwahanol sectorau; arloesi mwy effeithiol yn y GIG; gwell mynediad at ffrydiau cyllido; a chyfleoedd masnachol newydd i sector iechyd Cymru.

Mae potensial enfawr y gall gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru gyfrannu at ddyheadau cenedlaethol o safbwynt dinasyddiaeth fyd-eang, proffil rhyngwladol cryf ac economi ffyniannus. Ein gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn yn helpu i lywio ymdrechion i wneud y gorau o'r gweithgaredd hwn, a hynny ar adeg pan ddylai cenhedloedd sy'n ymgysylltu'n fyd-eang estyn llaw i'w gilydd, gan ddatblygu nerth trwy gynorthwyo'i gilydd.

## 2 CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

Cafodd yr adolygiad hwn ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru mewn cyfnod o newid cyflym a phellgyrhaeddol ym maes iechyd rhyngwladol. Bydd her driphlyg pandemig y coronafeirws, ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a thoriadau llym ar wariant y Deyrnas Unedig ar gymorth rhyngwladol yn cael effaith mewn ffyrdd nad oes modd eu deall yn llawn eto, ond yn sicr ni fydd gwell amser i Gymru ystyried sut mae'n ymgysylltu ym maes iechyd yn fyd-eang, gyda golwg ar wneud y gorau o hynny. Mae'r adolygiad yn arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau rôl Cymru fel cenedl eangfrydig a chyfrifol o safbwynt byd-eang, gan ddatblygu ar waith llunio polisïau a deddfu dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys y cymorth a ddarparwyd i wledydd incwm isel a chanolig (GIICh) ers 2006 trwy raglen Cymru ac Affrica[1]; y disgwyliad y dylai GIG Cymru ymwneud â'r gwaith, a fynegwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru Hydref 2006[2] a'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol[3]; trosi Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (NDCau) yn ddeddfwriaeth – y cyntaf yn y byd i wneud hynny – gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4]; ac yn fwyaf diweddar, cyhoeddi Strategaeth Ryngwladol fanwl.[5]

Mae'r adroddiad yn ceisio cyflwyno darlun clir o ble a sut y mae Cymru'n ymgysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd. Cafodd ei gomisiynu fel "adolygiad cyflym" ac nid oes bwriad iddo fod yn gynhwysfawr; y bwriad yn hytrach, ydy rhoi gorolwg ac argymhellion a fydd o gymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha gyfeiriad i fynd yn y dyfodol. Mae'n bwrw golwg ar holl amrywiaeth gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru, o ofal iechyd i'r gwyddorau bywyd, yn y sectorau cyhoeddus, masnachol, academaidd a nid-er-elw. Mae'n ystyried cryfderau a gwendidau'r systemau sy'n darparu strwythur a chefnogaeth i'r gweithgaredd hwn, a chyfleoedd ar gyfer eu datblygu yn unol â pholisïau a deddfwriaeth allweddol er mwyn iddynt fod mor effeithiol ag y bo modd.

Ceir nifer o adolygiadau a chyhoeddiadau eraill y dylid eu hystyried ochr yn ochr â hwn:

- Yr adolygiad a gwblhawyd yn ddiweddar o Bartneriaethau Iechyd rhyngwladol Cymru gyda GIICh, yn arbennig yn Affrica, gan ganolbwyntio ar wariant Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) y Deyrnas Unedig.[6] Cafodd yr adolygiad hwnnw ei gynnal gan yr un tîm ac ni chaiff y canfyddiadau perthnasol eu hailadrodd yn llawn, felly mae'r adran a neilltuwyd i'r sector nid-er-elw.
- "Adolygiad Reid" o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru,[7] ac ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd i Ymchwil ac Arloesi a ddilynodd yn fuan wedyn.[8] Mae'r rhain yn ystyried y cydweithio hollbwysig rhwng y sectorau academaidd a masnachol ac yn nodi'r angen i sefydliadau addysg uwch (SAUau) Cymru gael gwell mynediad at gronfeydd cystadleuol wrth i gronfeydd strwythurol Ewropeaidd ddod i ben. Nid yw ei argymhellion weddu eu gweithredu'n llawn hyd yn hyn.[9]
- Dau gyhoeddiad gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru sy'n ystyried gwaith ymgysylltu rhyngwladol Cymru, y cyntaf o safbwynt academia[10], yr ail yn fwy cyffredinol ac yng ngoleuni digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol diweddar.[11] Daw'r rhain i'r casgliad bod angen i Gymru, er mwyn cryfhau ei safle yn y byd, ddatblygu hunan-hyder cenedlaethol a chreu cysylltiadau cryfach ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gyda Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rôl "alluogi" er mwyn cyflawni nodau tymor hir.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2020). Cymru ac Affrica.

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). Cylchlythyr Iechyd Cymru.

[3] Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2014). Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

[4] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2021). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[5] Llywodraeth Cymru (2020). Strategaeth Ryngwladol i Gymru.

[6] THET (2021). Partneriaethau Iechyd Cymru Gydag Affrica: Gwneud y gorau o'r potensial er lles y ddwy ochr. [I'w gyhoeddi.]

[7] Llywodraeth Cymru (2018). Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru.

[8] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru (2019). Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru.

[9] Grŵp Trawsbleidiol y Bumed Senedd ar Ymchwil Feddygol (2021). Y Camau Nesaf er mwyn i Gymru Wireddu ei Photensial ym maes Ymchwil Feddygol

[10] Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Times Higher Education (2017). Wales and the World.

[11] Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2021). Cymru a'r Byd. Partneriaethau Byd-eang, Manteision Lleol.

- Adroddiad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Iechyd Byd-eang yn 2015 ar gyfraniad y Deyrnas Unedig i iechyd byd-eang,[12] sy'n mapio ac yn dadansoddi gweithgaredd iechyd rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer systemau sy'n berthnasol ledled y DU.

Mae cwmpas yr adolygiad hwn yn gyfyngedig i weithgaredd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar iechyd dynol mewn synnwyr cyfyng, ond rydym yn cydnabod bod cysylltiad annatod rhwng iechyd a'r amgylchedd, addysg, ffyniant a diwylliant. Dyna yw hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, i ryw raddau, egwyddor "un iechyd" yr WHO.[13] Er nad oes modd astudio'r elfennau ehangach hynny yma, rydym yn cymeradwyo'r egwyddor y dylid eu hystyried ochr yn ochr â'n diffiniad mwy cyfyng o "iechyd", ac yn ceisio tynnu sylw at enghreifftiau o hyn yng Nghymru.

Mae'n gyfnod heriol i fod yn hyrwyddo ymgysylltu rhyngwladol. Mae economi'r Deyrnas Unedig wedi cael ergyd galed ac er bod y pandemig yn cymell rhai i geisio undod byd-eang, mae eraill yn tueddu i wyro tuag at gilio'n amddiffynnol o fewn ffiniau. Canfu arolwg diweddar ar draws y Deyrnas Unedig bod 72% o'r ymatebwyr o blaid lleihau gwariant y DU ar gymorth rhyngwladol a 23% o blaid atal y gwariant yn llwyr dros dro, gyda'r rhai oedd yn y garfan honno'n fwy tebygol o fod yng Nghymru.[14] Rhaid cadw'r safbwyntiau hyn mewn cof wrth ystyried datblygiadau yng ngweithgaredd ymgysylltu rhyngwladol Cymru a dylid dadlau dros gynnwys y gymuned, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd yr adroddiad yn dangos bod gan Gymru gryfderau ym maes iechyd rhyngwladol all ddod â budd i bawb. Mae'n gartref i brifysgolion sy'n arwain yn fyd-eang, system iechyd a gofal unedig sy'n seiliedig ar gynllunio yn hytrach na chystadleuaeth, sector masnachol gwyddorau bywyd ffyniannus a gweithgaredd byd-eang egnïol nad yw er elw. Mae'n cynhyrchu ymchwil a gweithgaredd arloesi sy'n cael effaith fawr ac sydd â chyrhaeddiad byd-eang ac mae'n ddigon bach i hwyluso rhwydweithio o fewn sectorau yn ogystal â rhyngddynt. Rydym yn nodi meysydd ble byddai ymdrechion pellach yn gallu codi hyn i'r lefel nesaf, gan gefnogi dyheadau Cymru o safbwynt cyfrifoldeb byd-eang a phroffil rhyngwladol, er budd pobl gartref yn ogystal â thramor.

---

[12] Y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Iechyd Byd-eang (2015). The UK's Contribution to Health Globally: Benefiting the country and the world.

[13] Sefydliad Iechyd y Byd(2021): One Health.

[14] British Foreign Policy Group (2021). UK Public Opinion on Foreign Policy & Global Britain: 2021 Survey - Key Findings.

# 3 METHODOLEG A CHWMPAS

## 3.1 AMCANION

Aeth yr adolygiad hwn ati i fapio rôl Llywodraeth Cymru a'i ryngwyneb â sefydliadau allweddol sy'n ymwneud ag ymgysylltu'n rhyngwladol yng Nghymru, ym maes iechyd (gan gynnwys Iechyd y Cyhoedd) a'r gwyddorau bywyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymarfer mapio er mwyn deall lefelau presennol gweithgaredd iechyd rhyngwladol ledled Cymru.
- Canfod mannau ble mae cyfle i Gymru ddatblygu ei henw da ym maes iechyd a gwyddor iechyd yn fyd-eang.
- Nodi gwersi a ddysgwyd o bandemig y coronafeirws, er mwyn eu dwyn ymlaen er budd nawr neu yn y dyfodol.

Y bwriad yw darparu argymhellion ymarferol ar gyfer strwythuro a chydlynu gweithgaredd yn y dyfodol, er mwyn gwneud y gorau o gyfraniadau Cymru i'r agenda iechyd rhyngwladol, gan ddefnyddio'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon. Y gyffredinol, bydd sylw'n cael ei roi i alinio gweithgaredd gyda'r Strategaeth Ryngwladol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 3.2 CWMPAS

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n ymgysylltu ym maes iechyd ag unrhyw wlad y u hwnt i'r Deyrnas Unedig. Cofnodir gweithgareddau mewn pedwar sector:

- Cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth a'r GIG).
- Academaidd (prifysgolion).
- Masnachol.
- Nid-er-elw.

Mae pob adran yn rhoi disgrifiad llawnach o'r hyn a gynhwysir ym mhob un, ac yn anorfod, ceir cryn orgyffwrdd.

Yn y cyd-destun hwn, mae "iechyd" yn cyfeirio at ddarparu a datblygu capasiti ar gyfer gofal iechyd, ac addysg, hyfforddiant neu ymchwil ym maes gofal iechyd neu'r gwyddorau bywyd sy'n canolbwyntio'n benodol ar iechyd. Er ein bod yn cydnabod eu pwysigrwydd fel ffactorau ehangach sy'n sail i iechyd, nid ydym wedi cynnwys gweithgaredd mewn meysydd megis yr hinsawdd, cynhyrchu cnydau, addysg a lleihau tlodi. Ar y cyfan, mae "wedi'u lleoli yng Nghymru" yn golygu "â phencadlys yng Nghymru". Yn y sector fasnachol, rydym yn cynnwys rhai sefydliadau byd-eang sydd â phresenoldeb sylweddol er bod eu pencadlys yn rhywle arall, os nododd y grŵp llywio neu hysbyswyr allweddol eu bod yn bwysig yn economaidd.

## 3.3 METHODOLEG

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau i ddatblygu'r adroddiad hwn, gan gynnwys ymchwil desg, ymgynghori â grŵp llywio, ymgysylltu â hysbyswyr allweddol, arolygon ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol.

Roedd y grŵp llywio a lywiodd y gwaith hwn yn cynnwys unigolion sydd ag arbenigedd mewn un neu fwy o sectorau perthnasol (Atodiad 1). Rhoddodd aelodau'r grŵp llywio a'r cyrff yr oeddent yn eu cynrychioli gyngor ynglŷn â chysylltiadau, rhwydweithiau a rhanddeiliaid. Darparodd dau o hysbyswyr allweddol (Atodiad 1) wybodaeth helaeth, yn seiliedig ar adnabyddiaeth eang ar draws nifer o sectorau. Defnyddiwyd y wybodaeth yma i ategu canfyddiadau'r ymchwil desg, i lywio trywyddau ymchwilio pellach ac i greu cysylltiadau newydd.

Roedd yr ymchwil desg yn cynnwys chwilio llenyddiaeth academaidd, ymchwilio i wefannau a llenyddiaeth lwyd a chwilio cronfeydd data cyhoeddus, gan gynnwys Cofnod Tracio Datblygu Llywodraeth y DU[15] a chronfa ddata IATI.[16] Darparwyd gwybodaeth am weithgaredd cydweithredol prifysgolion mewn cyhoeddiadau gan gyswllt ym Mhrifysgol Abertawe, o gronfa ddata cyhoeddiadau academaidd Scopus.

Anfonwyd dau arolwg ar-lein, i gasglu gwybodaeth "fapio" greiddiol ac geisio safbwyntiau. Anfonwyd y cyntaf at arweinwyr mewn meysydd allweddol ym mhob sefydliad mawr ym mhob sector. Roedd hyn yn cynnwys Arweinwyr Rhyngwladol ym mhob prifysgol ac Arweinwyr Ymchwil ym mhob corff GIG ac arweinwyr rhwydweithiau cynrychioladol o bwys neu sefydliadau yn y sectorau masnachol a nid-er-elw. Anfonwyd yr ail arolwg at arweinwyr grwpiau neu sefydliadau unigol, megis grwpiau neu unedau ymchwil penodol, Partneriaethau Iechyd y GIG, busnesau a mudiadau cymdeithas sifil (MCSau) nid-er-elw. Dosbarthwyd pob un o'r arolygon i oddeutu 100 o dderbynwyr. Cafwyd 28 o ymatebion, yn cynrychioli 24 o wahanol sefydliadau, i'r arolwg cyntaf a 21 o ymatebion i'r ail arolwg.

Roedd y cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol wedi'n galluogi i ymchwilio i brofiadau ymarferol o ymgysylltu â gwaith iechyd rhyngwladol yng Nghymru, ynghyd â chasglu gwybodaeth mwy treiddgar a safbwyntiau. Gwahoddwyd tri unigolyn o'r sector nid-er-elw (gan adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed yn y maes hwn ar gyfer ein hadroddiad blaenorol) a phump unigolyn o bob un o'r sectorau eraill, ynghyd â phum rhanddeiliad allanol sy'n ymgysylltu â Chymru o'r tu allan i'r wlad. Cafwyd ymateb da i'r gwahoddiadau, gyda 17 o'r 23 a wahoddwyd (74%) yn cytuno i gael cyfweliad: 100% o'r rhai yn y sectorau allanol ac academaidd, 80% cyhoeddus/GIG, 60% masnachol a 33% nid-er-elw.

### Cyfyngiadau

"Adolygiad cyflym" ydy hwn a gwblhawyd mewn dau fis. Mae modd cael trosolwg da fel hyn, ond nid yw'n bosib cael data manwl cyflawn. Rhoddwyd cyfle i gymaint o sefydliadau a grwpiau perthnasol â phosib ddarparu data, ond daeth y rhan fwyaf o hyn drwy arolwg ar-lein ac roedd yn ddibynnol ar y gyfradd ymateb. Yn anorfod, mae hyn yn cyfyngu ar gyfoeth y wybodaeth a gawsom ac yn golygu bod rhai bylchau o safbwynt y sefydliadau a gynrychiolir. Nid yw diffyg gwybodaeth ynglŷn â sefydliad penodol yn golygu nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd rhyngwladol; yn hytrach, mae'n golygu nad ydym wedi derbyn manylion am hynny o fewn ein hamserlen.

Ceir cryn orgyffwrdd rhwng sectorau. Er enghraifft, mae Partneriaethau Iechyd y GIG yn perthyn i'r sector gyhoeddus a'r sector nid-er-elw, ac mae ymchwil academaidd yn aml yn gysylltiedig â naill ai'r GIG neu ddiwydiant. Rydym wedi cynnwys gweithgaredd o'r fath yn y sector ble mae'n ffitio orau, gan gydnabod bod lle i ddadlau yn hynny o beth.

Yn olaf, rydym wedi ceisio tystiolaeth a safbwyntiau ynglŷn ag effaith Brexit mewn perthynas â gweithgaredd iechyd rhyngwladol. Mae'n debygol iawn, lai na chwe mis wedi i'r DU ymadael yn ffurfiol â'r UE, a chydag effeithiau pandemig y coronafeirws yn cymylu pethau, nad yw gwir effaith hynny yn wybyddus eto. Rydym wedi cynnwys sylwebaeth ar ein canfyddiadau, ond rydym yn cydnabod bod hwn yn faes sy'n esblygu a bod angen rhagor o amser cyn y daw ei effeithiau'n gwbl amlwg.

[15] Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu y DU (2021). Development Tracker.

[16] International Aid Transparency Initiative (2021).

# 4 Y SECTOR CYHOEDDUS

*Mae'r adran hon yn disgrifio'r prif gyfranwyr yn y sector cyhoeddus ym maes iechyd rhyngwladol ac yn mapio eu cyfraniadau. Yn y cyswllt hwn, mae sector cyhoeddus Cymru yn cynnwys, yn bennaf, elfennau polisi, cyllido ac arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, a GIG Cymru. Caiff elfennau eraill o weithgaredd Llywodraeth Cymru sy'n perthyn yn benodol i sectorau eraill eu crybwyll yma er mwyn rhoi trosolwg eglur, ond cânt sylw mwy manwl yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad. Trafodir Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu y DU (FCDO) yma hefyd, gan fod polisi tramor cyffredinol a chyllid ODA yn bwerau sydd wedi'u cadw gan lywodraeth y DU. Mae cyrff nad ydynt yn ffitio'n daclus yn unrhyw sector, ond sy'n rhyngweithio'n bennaf â sefydliadau'r sector cyhoeddus, wedi'u cynnwys hefyd. Trafodir gwybodaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy arolygon a chyfweliadau, ac mae'r adran yn cloi gyda dadansoddiad o'r sector hwn.*

Mae pwerau datganoledig Cymru yn helaeth ac yn cynnwys polisi, deddfu a chyllido mewn perthynas â iechyd a gofal, addysg (gan gynnwys addysg uwch) a datblygu economaidd, ynghyd â phwerau amrywio trethi cyfyngedig. Mae'r gwahaniaethau rhwng Cymru a chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig sydd wedi deillio o'r pwerau hyn yn adlewyrchu'r hinsawdd wleidyddol gyffredinol a nodweddion Cymru, megis y gydnabyddiaeth gyfartal a roddir i'r Gymraeg a Saesneg mewn bywyd cyhoeddus, poblogaeth sy'n gymharol hŷn a llai dwys,[17] a chyfraddau tlodi cymharol uchel.[18] Mae polisïau ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio ac mae'r GIG yn gweithredu ar sail cynllunio yn hytrach na chystadleuaeth, gyda Byrddau Iechyd rhanbarthol yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau yn eu hardal. Llywodraeth y DU sy'n gosod polisi tramor yn gyffredinol, gan gynnwys rheolau mewnfudo a gwariant ar gymorth rhyngwladol. Mae hynny'n cyfyngu ar gwmpas rheolaeth Cymru dros ei weithgaredd iechyd rhyngwladol, yn arbennig o safbwynt cyllido. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru'r hawl i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol sy'n benodol mewn meysydd datganoledig, ac mae polisi cartref yn gallu effeithio ar ymgysylltu rhyngwladol ym maes iechyd mewn sawl ffordd.

## 4.1 RÔL LLYWODRAETH CYMRU YM MAES IECHYD RHYNGWLADOL

### 4.1.1 POLISÏAU A DEDDFWRIAETH

Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol yng nghyswllt iechyd, addysg uwch a busnes oddi allan i gwmpas yr adolygiad hwn, ond mae dwy elfen o bolisi Llywodraeth Cymru yn haeddu ystyriaeth bellach yma: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Y Ddeddf) a'r Strategaeth Ryngwladol.

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cafodd y Ddeddf ei phasio gan y Senedd yn 2015,[19] yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus sylweddol a gwaith datblygu yn gyfochrog â Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau) y Cenhedloedd Unedig.[20] Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, pob sefydliad GIG a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt ystyried goblygiadau tymor hir eu cynlluniau, gan sicrhau nad yw datblygiadau heddiw yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth yn y dyfodol, h.y. datblygu cynaliadwy. Y nodau llesiant sydd fwyaf amlwg yn berthnasol i'r adolygiad hwn ydy "Cymru iachach" a "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang", ond mae'r nodau'n rhyngddibynnol, ac i gydnabod hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i'w cyflawni. Caiff hyn ei ddisgrifio yn y "Pum Ffordd o Weithio" disgwyliedig yn y Ddeddf, sy'n cynnwys "Integreiddio" (ystyried effaith amcanion i gyflawni pob nod ar amcanion a nodau eraill) a "Chydweithio" (o fewn a rhwng cyrff cyhoeddus, a chyda phartïon perthnasol eraill). Mae'r sylw hwn a roddir i integreiddio a chydweithio

---

[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) Population estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2019.

[18] Sefydliad Joseph Rowntree (2020). Poverty levels and trends in England, Wales, Scotland and Northern Ireland.

[19] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2021). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[20] UNDP (2021). Nodau Datblygu Cynaliadwy.

yn hynod berthnasol i faes iechyd rhyngwladol ble gwelir, fel y disgrifir trwy gydol yr adroddiad hwn, nifer o gyrff cyhoeddus a phreifat, a phob un ohonynt ag amrywiaeth o nodau ac amcanion.

Gan mai hi yw'r wlad gyntaf yn y byd i drosi'r NDCau yn ddeddfwriaeth, mae'r ffordd yr aeth Cymru ati a'i chynnydd wedi denu sylw rhyngwladol, a dyna oedd canolbwynt sylw cyhoeddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a oedd yn ystyried datblygu cynaliadwy a iechyd.[21] Ar y pryd, damcaniaethol oedd y manteision a'r heriau posib oedd yn gysylltiedig â'i gweithredu, ond erbyn hyn, chwe blynedd ers pasio'r Ddeddf, mae modd adolygu'r cynnydd hyd yn hyn. Mae adroddiad 2020 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlygu'r cyflawniadau a'r heriau hyd yn hyn, ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella - rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i weithgaredd iechyd rhyngwladol.[22] Mae'n nodi bod "bwlch gweithredu" rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru, fel y'u hamlinellwyd mewn polisïau a deddfwriaeth, a'u hymrwymiad i gefnogi a darparu adnoddau ar gyfer cyflawni. Nid yw strwythurau cyllid a chyllidebu'r Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â phortffolios gweinidogol unigol, yn cefnogi dull integredig o wneud penderfyniadau. Mae natur byrdymor cyllid llywodraeth sy'n seiliedig ar weithio mewn seilos yn un ffactor sy'n llesteirio gwell cydweithredu o fewn a rhwng sefydliadau, yn ogystal â chyda'r cyhoedd. Mae'n argymell y dylid darparu opsiynau cyllido mwy cynaliadwy erbyn blwyddyn ariannol 2023-24. Nid oes dealltwriaeth dda o nod 'Cymru Sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang' ac mae disgrifiadau cyrff cyhoeddus o'u cyfraniadau cadarnhaol i'r Byd yn wan. Mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar sicrhau bod Cymru'n dangos dinasyddiaeth ac arweiniad byd-eang.

### Y Strategaeth Ryngwladol i Gymru

Cafodd y strategaeth hon ei chyhoeddi yn 2020,[23] a dilynodd pum Cynllun Gweithredu mewn perthynas â meysydd allweddol yn fuan wedyn.[24] Y tri uchelgais craidd ynddi ydy codi proffil Cymru'n rhyngwladol, tyfu'r economi drwy allforion a buddsoddiadau o'r tu allan, a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'n fwriad iddi ddarparu cyfeiriad strategol, nid yn unig ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond ar gyfer pawb sy'n "ymwneud â'r byd rhyngwladol". Ymhlith y bwriadau sy'n arbennig o berthnasol i iechyd rhyngwladol, mae:

- Cynyddu presenoldeb Cymru o fewn yr Undeb Ewropeaidd.
- Cydlynu gweithgaredd rhyngwladol a gweithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn arbennig yr FCDO (erbyn hyn) a'r Adran dros Fasnach Ryngwladol (DIT).
- Sicrhau cynrychiolaeth gref i Gymru ar lefel y Deyrnas Unedig.
- Annog cydweithio byd-eang ar ymchwil.
- Cynyddu allforion rhyngwladol, gyda datblygiad rhwydwaith busnes Cymry alltud yn cefnogi'r gwaith hwn. Bydd sylw'n cael ei ganolbwyntio ar farchnadoedd yn rhai o wledydd yr UE (gan gynnwys Yr Almaen, Ffrainc ac Iwerddon), Gogledd America, y Dwyrain Canol ac Asia.
- Hybu "prosiectau magnet" - nifer ohonynt yn gysylltiedig â gwyddorau bywyd.
- Gwella cysylltiadau â chynfyfyrwyr o brifysgolion Cymru sydd dramor, drwy gydweithio â Chymru Fyd-eang a phrifysgolion Cymru.

Caiff ymdrechion eu canolbwyntio ar wledydd "blaenoriaeth" penodol (Yr Almaen (partner masnachu mwyaf Cymru), Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada) a rhanbarthau (Gwlad y Basg, Fflandrys a Llydaw). O safbwynt iechyd:

---

[21] WHO (2017). Sustainable development in Wales and other regions in Europe: achieving health and equity for present and future generations.

[22] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020). Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 – Crynodeb.

[23] Llywodraeth Cymru (2020). Strategaeth Ryngwladol i Gymru.

[24] Llywodraeth Cymru (2020). Cynlluniau Gweithredu Rhyngwladol

- Yng Ngwlad y Basg, ceir cydweithio ym maes iechyd, gyda diddordeb arbennig mewn gofal sylfaenol a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, ymchwil, a pherthynas gyda'r clwstwr gwyddorau bywyd Basgaidd. Mae bwriad i gydweithio ar bolisi iechyd.
- Mae Fflandrys yn ranbarth sy'n bartner strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng adrannau iechyd a gofal ac amryw o gyrff eraill. Mae tegwch iechyd yn faes sydd o ddiddordeb cyffredin. Ceir cysylltiadau ymchwil cryf hefyd.
- Yn Quebec, mae posibilrwydd y bydd cydweithio ar ymchwil COVID-19, therapïau canser, niwrowyddoniaeth a meddygaeth wedi'i phersonoli.

Mae gan raglen Cymru ac Affrica gynllun gweithredu penodol, sy'n cwmpasu ei feysydd gweithgaredd amrywiol, gan gynnwys iechyd. Rhoddir ymrwymiad ynddo i barhau i gefnogi Mudiadau Cymdeithas Sifil (MCSau) drwy weithgareddau datblygu capasiti Hub Cymru Africa (HCA), ac ymdrechion pellach i ymgysylltu â'r diaspora Affricanaidd yn ei weithgareddau. Cydnabyddir pwysigrwydd cydraddoldeb y rhywiau a bydd ei gynllun grantiau, sydd ag iechyd yn un o'i themâu, yn cael ei adolygu eleni gyda golwg ar ganfod y ffordd orau iddo greu a chofnodi effaith. Mae'r holl weithgareddau yn seiliedig ar barch gan y naill ochr a'r llall tuag at ei gilydd a dysgu drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae dogfen y Strategaeth yn cynnwys rhestr lawn o rwydweithiau strategol y mae Llywodraeth Cymru'n ymwneud â nhw, a chaiff y rhain eu hystyried ymhellach yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth. Mae bwriad i flaenoriaethu gwaith ymgysylltu â rhwydweithiau a fydd yn rhoi dylanwad rhyngwladol ym meysydd craidd y Strategaeth Ryngwladol. Cafodd hyn ei gadarnhau mewn sgyrsiau gydag aelodau o'r llywodraeth; mae'r rhwydweithiau hyn wedi cael eu hadolygu eisoes ar gyfer blaenoriaethu strategol a bydd hynny'n cael ei ailadrodd unwaith y bydd y perthnasoedd sy'n parhau gyda'r UE yn fwy eglur. Ar hyn o bryd, mae'r rhwydweithiau blaenoriaeth sy'n berthnasol i iechyd yn cynnwys y Rhwydwaith ar gyfer Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol Ewrop (EUREGHA), sydd dan gadeiryddiaeth cynrychiolydd o Gymru ar hyn o bryd, a Menter Vanguard, sydd â photensial i gael effaith ar fasnacheiddio gwyddorau bywyd.

### 4.1.2 YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL LLYWODRAETH CYMRU

Mae gan Lywodraeth Cymru Femoranda Cyd-ddealltwriaeth (MCDd) â 12 gwlad neu ranbarth, gan gynnwys China, Lesotho a Quebec. Mae ganddi rwydwaith o 21 o swyddfeydd tramor mewn 12 gwlad, yn China, Ewrop (gan gynnwys Llundain), Japan, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (DCGA), a Gogledd America. Mae gan bob un o'r rhain gylch gwaith penodol mewn perthynas â chyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.[25] Mae disgwyl i bob un ohonynt ganolbwyntio ar fasnach a gweithio gyda'r DIT, hyrwyddo rhagoriaeth ymchwil Cymru a cheisio partneriaethau neu gyfleoedd i gydweithio, a datblygu rhwydweithiau Cymry alltud. Mae Tabl 1 yn dangos sut mae gorchwyliau penodol eraill y swyddfeydd yn berthnasol i iechyd rhyngwladol.

| Swyddfa/ rhanbarth | Meysydd o fewn cylch gorchwyl sy'n berthnasol i iechyd | | |
|---|---|---|---|
| | Annog cyfnewid myfyrwyr | Datblygu cysylltiadau ymchwil ac arloesi | Gwyddorau bywyd yn ffocws ar gyfer cyfleoedd allforio |
| UDA | ✓ | | ✓ |
| Canada | ✓ | ✓ | |
| Iwerddon | | | ✓ |
| Ffrainc | | | ✓ |
| Yr Almaen | ✓ | | ✓ |
| Gwlad Belg | ✓ | | ✓ |
| DCGA | | | ✓ |
| India | | ✓ | |
| Tsieina | ✓ | | |

**Tabl 1: Mapio cylchoedd gorchwyl swyddfeydd Llywodraeth Cymru Dramor i iechyd rhyngwladol.**

Yn 2020, arwyddodd Llywodraeth Cymru MCDd gyda Swyddfa Ranbarthol Ewrop yr WHO ym maes tegwch iechyd a ffyniant i bawb, a oedd yn enwi Cymru fel un o dair gwlad yn unig yn Ewrop sy'n "ddylanwadwr rhyngwladol" ac yn "safle arloesi byw" ar gyfer tegwch iechyd.

[25] Llywodraeth Cymru (2020). Cylchoedd Gwaith Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru.

Yng Nghymru, mae conswliaid anrhydeddus ar gyfer 29 o wledydd yn Ewrop, yr Americas, Affrica ac Asia. Swyddi gwirfoddol yw'r rhain a gyflawnir gan drigolion Cymru sydd wedi'u penodi gan, ac yn atebol i'r gwledydd y maent yn eu cynrychioli  Maen nhw'n galluogi cryfhau perthnasoedd dwyochrog trwy gydlynu ymweliadau swyddogol â Chymru, darparu briffiau cyd-destunol a chefnogaeth i ymwelwyr o'r gwledydd y maent yn eu cynrychioli. Maen nhw'n cynnal cyswllt â Llywodraeth Cymru yn unigol a thrwy'r Gymdeithas Gonsylaidd yng Nghymru.[26] O safbwynt iechyd, mae'r gwledydd a gynrychiolir yn cynnwys partneriaid pwysig o ran masnach, academia, mudo gweithwyr iechyd, a rhaglen Cymru ac Affrica.

### 4.1.3 LLYWODRAETH CYMRU A GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL.

Daw cefnogaeth Llywodraeth Cymru i weithgaredd iechyd rhyngwladol trwy ei hymwneud cyffredinol â'r sectorau perthnasol yn bennaf, ac mae'n dod ar ffurf cyllid a hwyluso gweithgaredd. Mae rhai rhaglenni, megis partneriaeth Cymru Fyd-eang a rhaglen Cymru ac Affrica, yn rhai sydd â ffocws rhyngwladol penodol. Rhoddir crynodeb o'r cyrff a'r rhaglenni perthnasol yn nhablau 2 a 3, ac maent yn awgrymu:

- Bod cefnogaeth sylweddol gan y Llywodraeth mewn perthynas â gweithgaredd iechyd rhyngwladol, yn bennaf drwy ymestyn y gefnogaeth a roddir i weithgareddau cartref.
- Mae hyn yn ffurfio gwead cymhleth o adrannau sy'n ymwneud â'r gwaith, cyrff cefnogi a rhaglenni.

#### Rhaglen ARTHUR

Mae'r rhaglen hon yn dangos natur draws-sectoraidd gweithgaredd sy'n gysylltiedig â iechyd rhyngwladol. Mae Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad a chydweithwyr yn y sectorau iechyd ac economi ac arbenigwyr rhyngwladol wedi datblygu rhaglen ARTHUR (Uwch-dechnoleg Radioisotop ar gyfer Adweithydd at Ddefnydd Iechyd).[27] Prif amcan y rhaglen ydy sicrhau cyflenwad cynaliadwy o radioisotopau meddygol i'r Deyrnas Unedig: daw'r cyflenwad presennol o ychydig yn unig o gyfleusterau o'r fath o gwmpas y byd, ac mae llawer ohonynt yn dod at ddiwedd eu cyfnodau gweithredol. Mae angen radiosotopau mewn nifer o gamau diagnostig a thriniaethau therapiwtig, yn arbennig ar gyfer canser. Byddai'r cynnig yn arwain at ddatblygu adweithydd niwclear bach yng Nghymru na fyddai ar gyfer cynhyrchu ynni, a fyddai'n bennaf yn cynhyrchu radioisotopau meddygol ar gyfer meddygaeth niwclear, ond gallai hefyd gefnogi datblygiadau yn y gwyddorau ffisegol. Gallai hyn ddod yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu gallu cynyddol yn genedlaethol mewn meddygaeth niwclear a'r bwriad yw cydweithio â gweinyddiaethau eraill yn y Deyrnas Unedig a chydweithwyr rhyngwladol.

| Corff/rhaglen | Prif sectorau | Manylion |
|---|---|---|
| **YIGC*** | GIG/Academia | Yn cyllido a chefnogi ymchwil i afiechydon, triniaethau a gwasanaethau i wella gofal iechyd a chymdeithasol. |
| **HEFCW**** | Academia | Yn cyllido cyfran o addysgu ac ymchwil addysg uwch; yn gosod ffïoedd ac yn asesu ansawdd a pherfformiad Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau). |
| **Cymru Fyd-eang** | Academia/ Masnachol | Partneriaeth gyda chyrff anllywodraethol i hyrwyddo recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, cydweithrediadau academaidd rhyngwladol a chynyddu mynediad at farchnadoedd rhyngwladol. Yn cynnig ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i mewn. |
| **AUCB** | Academia | Cyllidir gan HEFCW a phrifysgolion, i hyrwyddo SAUau Cymru drwy rwydweithiau Ewropeaidd, ar gyfer astudio a chydweithio, ac i helpu gyda chyfleoedd cyllido. |
| **LSHW††** | Masnachol/ Academia/GIG | Yn darparu cefnogaeth a chyllid i gyflymu datblygu a mabwysiadu datrysiadau arloesol ar gyfer gwell iechyd a lles. Rhaglenni:<br>• Cyflymu (gydag academia/GIG).<br>• Ecosystem Iechyd Digidol Cymru (gyda'r GIG) |
| **Effeithlonrwydd Drwy Dechnoleg** | Masnachol/ Academia/GIG | Cyflymu datblygiad a mabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, gan anelu at wella effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i gleifion. |
| **Cymru ac Affrica** | Nid-er-elw/GIG | Yn cyllido a chefnogi gweithgareddau partneriaeth drwy:<br>• Hub Cymru Africa a'i weithgareddau<br>• Rhaglen grantiau<br>• Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol |

**Tabl 2: Cyrff/rhaglenni a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at weithgaredd iechyd rhyngwladol.**
* Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru † Addysg Uwch Cymru Brwsel |†† Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

[26] Y gymdeithas Gonsylaidd yng Nghymru (2021).

[27] Yn y cam cynnig y mae'r prosiect hwn.. Mae'r manylion a roddir yma wedi eu gweld a'u cymeradwyo gan y rhai sy'n ymwneud â'r cynllun.

| Adran/Grŵp | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Is-adran Iechyd y Cyhoedd | • Yn cynrychioli Cymru mewn fforymau allweddol gan gynnwys Rhwydwaith Rhanbarthau dros Iechyd WHO, Grŵp Iechyd Rhyngwladol y GIG, a Rhwydwaith Cydlynu Iechyd Byd-eang y DU ac Iwerddon.<br>• Yn cydlynu ceisiadau gan wledydd eraill am rannu arfer da.<br>• Yn gweithredu fel dolen iechyd i raglen Cymru ac Affrica.<br>• Yn arwain ar MCDd Llywodraeth Cymru–WHO. |
| Tîm Technoleg, Digidol, Arloesi a Strategaeth | Yn gweithio ar draws y llywodraeth, GIG Cymru a chyda phartneriaid ar draws sectorau i wneud y gorau o fanteision technoleg ac arloesi'r GIG. Ymhlith y cyfrifoldebau, mae:<br>• Ddatblygu strategaeth gyffredinol y GIG.<br>• Datblygu polisi/darpariaeth ar gyfer technoleg ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Rhaglen Effeithlonrwydd Drwy Dechnoleg; yn cyfrannu at Ecosystem Iechyd Digidol Cymru.<br>• Ymgysylltu â diwydiant a datblygu partneriaethau.<br>• Uchafu cyllid yr UE. |
| Is-adran Ymchwil a Datblygu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Yn arwain YGIC; trwy hyn mae'n datblygu polisi ac yn gweinyddu cyllid ar gyfer ymchwil yn y GIG, gofal cymdeithasol ac academia, ac yn cysylltu â'r sector masnachol. |
| **Cyfarwyddiaeth Cysylltiadau Rhyngwladol** | |
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | Yn ceisio a hyrwyddo cyfleoedd i gael cyllid yr UE, gan gynnwys ar gyfer ymchwil/arloesi iechyd. Yn datblygu rhaglenni newydd i liniaru effaith colli rhai o'r cyfleoedd hynny wedi Brexit. |
| Rhaglen Cymru ac Affrica | Disgrifir yn Nhabl 2. |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach | Dull cyffredinol o weithio/polisi ar fasnach, gyda thîm wedi'i neilltuo i'r gwyddorau bywyd. Yn cynnwys:<br>• Hyrwyddo allforion.<br>• Ceisio cyfleoedd mewnfuddsoddi.<br>• Gweithio gyda Llywodraeth y DU, yn enwedig DIT. |
| **Swyddfa Gwyddoniaeth** | |
| Is-grŵp Gwybodaeth Ryngwladol y Grŵp Cyngor Technegol (TAG). | Sefydlwyd o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, i gasglu gwybodaeth o wledydd eraill a throsglwyddo cyngor i/o'r TAG. |
| Drwy Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol / Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer iechyd | • Datblygu rhaglen ARTHUR (gweler uchod).<br>• Arwain Rhaglen Sêr Cymru .<br>• Mewnbynnau eraill, yn arbennig mewn perthynas ag ymchwil a'i gydlynu. |
| **Swyddfeydd Tramor** | • Cysylltiadau ar gyfer masnach (allforion a mewnfuddsoddi).<br>• Rhannu profiad/arbenigedd cysylltiedig ag iechyd. |
| | • Datblygu cydweithrediadau academaidd ac ymchwil.<br>• Cyfrannodd at wybodaeth gynnar am coronafeirws. |

**Tabl 3: Gweithgareddau adrannau a grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i iechyd rhyngwladol.**

## Cyllido

Yn hanesyddol, mae cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru wedi dod naill ai ar ffurf cyfraniadau uniongyrchol o'r gyllideb neu o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn fwyaf penodol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Er bod mynediad at rai cronfeydd Ewropeaidd, megis Horizon 2020 (a drafodir ymhellach yn adran 5) yn parhau dan delerau cytundeb Brexit, nid yw'r un peth yn wir yn achos y Cronfeydd Strwythurol, sy'n gadael bwlch sylweddol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi ymrwymiad i adfer y cyllid hwn yn llawn, ond nid yw'r cynlluniau presennol, gan gynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn cyflawni hynny hyd yn hyn, ac mae'r cyfrifoldebau dros ddyrannu cronfeydd wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau'r achos dros fod â rôl gref mewn perthynas a chyllido yn y dyfodol, gan adlewyrchu'r cyfrifoldebau datganoledig.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau, a ddatblygwyd dros sawl blwyddyn, ac mewn cydweithrediad â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ar gyfer rheoli'r newidiadau hyn.[28] Mae'n rhagweld yr angen am berthnasoedd gwell fyth ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, er mwyn cael y mynediad gorau posib at y cyfleoedd cyllido sydd ar gael, yn seiliedig ar gryfderau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn gefn i hyn, byddai "Cronfa Ystwyth" ar gyfer buddsoddi'n gyflym mewn prosiectau trawsffiniol a rhyngwladol ar raddfa fach, gan gefnogi, er enghraifft, ddatblygiad ceisiadau am gyllid neu brosiectau cydweithredol newydd. Nid yw'r gronfa hon wedi'i therfynoli eto, ond byddai'n bwysig ar gyfer arloesi a masnach sy'n gysylltiedig â iechyd. Mae'r fframwaith yn mynegi uchelgais i roi cefnogaeth i gychwyn ac thyfu busnesau bach, y mae Cymru'n dibynnu mwy arnynt yn economaidd na'r cyfartaledd, gan gynnwys cefnogaeth trwy gryfhau'r sylfaen ymchwil a datblygu.

[28] Llywodraeth Cymru (2020). Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.

## 4.2 CYRFF A PHOLISÏAU LLYWODRAETH Y DU SY'N BERTHNASOL I WEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU

Mae Llywodraeth y DU wedi cadw rheolaeth neu ddylanwad dros rhai meysydd allweddol sy'n berthnasol i weithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru. Y rhai pwysicaf yw:

- Mewnfudo i'r Deyrnas Unedig.
- Cytundebau rhyngwladol, gan gynnwys mynediad i farchnadoedd, rheoliadau tollau a threthi.
- Cyllido ymchwil, trwy ddarparu cronfeydd cystadleuol mawr ar gyfer y DU gyfan.
- Cyllido Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA).

Ni chaiff yr elfen gyntaf uchod ei hystyried yn yr adolygiad hwn, er ei bod yn berthnasol mewn perthynas â recriwtio gweithwyr iechyd o dramor i'r GIG a myfyrwyr rhyngwladol. Caiff yr ail elfen a'r drydedd eu hystyried yn adrannau 6 a 5 yn y drefn honno. Bydd yr adran hon felly yn ystyried cyllid ODA yn bennaf, mewn perthynas â gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru. Gan fod hwn yn bwnc sydd wedi cael ei ystyried yn fanwl yn ein hadroddiad diweddar ar Bartneriaethau Iechyd Cymru a'r modd y'u cyllidir, trosolwg byr a roddir yn yr adran hon, gyda gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r cwmpas ehangach a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf.

Cymorth llywodraeth sy'n hyrwyddo ac yn targedu datblygiad economaidd a lles gwledydd sy'n datblygu ydy ODA.[29] Mae hyn yn wahanol, er enghraifft, i'r cyllid ar gyfer rhaglen Cymru ac Affrica, y mae rhaid iddo ddod â budd i Gymru. Gall ODA fod yn ddwyochrog (yn cael ei wario ar wledydd, rhanbarthau neu raglenni penodol) neu'n amlochrog (cyfraniadau tuag at gyllid craidd ar gyfer sefydliadau megis yr WHO a'r Cenhedloedd Unedig). Er bod y rhan fwyaf ohono'n cael ei wario drwy'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), mae adrannau eraill o Lywodraeth y DU nyn ymwneud â'r gwaith hefyd, gan gynnwys yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Mae ffigurau amodol yn dangos bod oddeutu £14.5bn wedi'i wario yn 2020 (0.7% o GNI), gydag oddeutu 65% ohono'n ddwyochrog, a 26% wedi'i wario gan adrannau ac eithrio'r FCDO (1.7% drwy'r DHSC).[30] Yn yr un modd a blynyddoedd blaenorol, Affrica dderbyniodd y gyfran fwyaf (55%), ac wedyn Asia (38%).

Tuag at ddiwedd y flwyddyn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw, newidiwyd graddfa a strwythur gwariant ODA yn sylweddol, gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn troi cefn ar ei hymrwymiad cyfreithiol i wario 0.7% o GNI ac yn uno'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, a oedd wedi bod yn gyfrifol am y maes hwn, gyda'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, i greu'r FCDO. Yn fuan wedyn, cyhoeddodd yr FCDO ei bwriad i roi'r gorau i seilio'i gwariant ar Strategaeth Gymorth 2015, gan ganolbwyntio gwariant ODA yn hytrach ar wledydd ble mae buddiannau datblygu, diogelwch ac economaidd y Deyrnas Unedig yn alinio, ac ar saith "her fyd-eang". Un o'r rheiny ydy COVID a diogelwch iechyd byd-eang.[31]

Dangosodd y dyraniadau ODA amodol ar gyfer 2021 ostyngiad cyffredinol yn y gwariant o oddeutu draean, gan ddod i lawr i fod yn agos at £10bn, gyda gostyngiad tebyg yn y gyfran a werir drwy adrannau ac eithrio'r FCDO.[32] Yn fwy diweddar, cyhoeddodd yr FCDO fanylion ei gynllun gwariant ODA ei hun, gydag £1.3bn i'w wario ar COVID a iechyd byd-eang (gostyngiad o 9% mewn gwariant ar iechyd), a 42% wedi'i dorri o'r gyllideb ar gyfer cymorth dyngarol. Mae "gwyriad" yn mynd i fod tuag at y rhanbarth Indo-Pasiffig, ac er y bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb yn dal i gael ei gwario yn Affrica, bydd ffocws mwy cyfyngedig, wedi'i ganolbwyntio ar Ddwyrain Affrica.

---

[29] OECD (2020). Official Development Assistance (ODA).

[30] FCDO, Ebrill 2021 Statistics on International Development: Provisional Aid Spend 2020.

[31] Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu y DU (2020) Llythyr gan yr Ysgrifennydd Tramor ynglŷn â dyfodol cyllideb cymorth y Deyrnas Unedig.

[32] Senedd y Deyrnas Unedig (2021) Development Update: Statement UIN HCWS735.

Ymhlith effeithiau ymarferol y gostyngiad ar draws pob adran, mae:[33]

- Gostyngiad o 95% yn y gefnogaeth i raglenni dileu polio.
- Gostyngiad o 80% i brosiectau dŵr glân a hylendid.
- Toriadau mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro, megis Myanmar a Yemen.
- Gostyngiad o bron i hanner yng nghyllideb Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil byd-eang, gan gynnwys ymchwil iechyd, gan ddod i lawr i £125m.[34]
- Canslo rhaglen grantiau UKPHS £42m THET, yr oedd rhywfaint ohono ar fin cael ei ddosbarthu i Bartneriaethau Iechyd, gyda cheisiadau eraill yn barod i'w cyflwyno.[35]

### Effeithiau lleihau ODA ar Gymru

Yn ein hadolygiad blaenorol, gwelsom fod Partneriaethau Iechyd Cymru wedi denu bron i £1.5m o gyllid ODA dros y pum mlynedd blaenorol. Er mai cyfran fechan iawn o'r gyllideb gyflawn yw hyn, mae'n swm sylweddol i'r sefydliadau hyn sy'n aml yn rhai cymharol fach, a bydd colli'r gallu i gael y cyllid hwn yn sicr o gael effaith ar eu gwaith. Rydym yn gwybod hefyd bod dileu rhaglen UKPHS THET wedi arwain at golli o leiaf £593,500 o gyllid posib, o gynigion a oedd wedi'u cyflwyno neu a oedd ar y gweill.[36] Mae Hub Cymru Africa wedi colli dros £10,000 (40% o werth eu grant trwy'r Gydweithfa Cymdeithas Sifil) ac mae United Purpose wedi colli cyllid ar gyfer gwaith yn Myanmar.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi canfod bod prifysgolion Cymru wedi derbyn ychydig mwy na £15m mewn grantiau a gyllidwyd gan ODA ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, trwy gynlluniau megis y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang (GCRF), Cronfa Newton, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) a Chronfa Arloesi Fyd-eang AMR. Rydym wedi clywed am grantiau a oedd wedi'u dyrannu a'u hymrwymo i waith yn cael eu hatal yn sydyn, gan adael prosiectau heb eu cwblhau. Mae hyn yn golygu bod ymdrechion hyd yn hyn yn cael eu gwastraffu ac mae'n rhwystro cynnydd ar faterion pwysig, yn gwneud niwed i berthnasoedd ac enw da sefydliadau, ac mewn rhai achosion, mae wedi arwain at golli swyddi.

### Pa gyfleoedd sy'n dal ar gael ar gyfer gweithgaredd iechyd Cymru o ran ODA?

Mae gwariant ODA ar gyfer iechyd wedi'i leihau ac mae wedi'i ganolbwyntio nawr ar weithgareddau a rhanbarthau penodol, ond mae'r gostyngiad cyffredinol wedi bod yn llai difrifol nag mewn meysydd eraill. Nododd ein hadroddiad blaenorol gryfderau penodol Cymru a allai ddenu cyllid ODA ac o'u plith, y rhai sydd fwyaf tebygol o barhau i fod yn flaenoriaeth ydy'r rhai sy'n gysylltiedig â brigiadau afiechydon – fel gwasanaeth genomeg pathogenau ICC sy'n arwain yn fyd-eang – a chysylltiadau cryf mewn rhai gwledydd yn Nwyrain Affrica, gan gynnwys Somaliland. Gallai prosiectau eraill gael eu cyllido hefyd, wrth gwrs, ond mae'n llai tebygol.

O ran ymchwil academaidd, mae'r cronfeydd canlynol yn parhau i fod ar agor:

- Cronfeydd Iechyd Byd-eang NIHR (Unedau Ymchwil, Canolfannau Ymchwil, ac Ymchwil Polisi a Systemau Iechyd Byd-eang). Fodd bynnag, mae cyllid ymchwil iechyd byd-eang NIHR wedi'i dorri hefyd ac mae'r effaith ar y cynlluniau hyn yn parhau'n ansicr.[37]
- Y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang, sy'n rhestru 121 o gyfleoedd grantiau sydd ar agor. Fodd bynnag, mae hyn yn rhan o bortffolio UKRI sy'n cael ei adolygu, fel uchod.

---

[33] BOND (Ebrill 2021). UK aid cuts: reactions from the UK and beyond.

[34] UK Research and Innovation (2021). ODA review.

[35] THET (2021). UKPHS: UK Partnerships for Health Systems.

[36] Gohebiaeth bersonol gan ddarpar ymgeiswyr am grantiau..

[37] NIHR (2021). Funding Opportunities.

- Y Gronfa Arloesi Byd-eang (Global Innovation Fund). Dim ond yn rhannol y caiff hon ei chyllido gan ODA y DU ac nid yw'n rhoi unrhyw wybodaeth ynglŷn â gostyngiadau cyllid, felly mae'n bosib ei bod yn gymharol ddiogel.

Mae Cronfa Fleming, sy'n £265m ac yn canolbwyntio ar ymwrthedd gwrthficrobaidd, wedi cau. Mae'r Gronfa Ffyniant draws-adrannol o £1.2bn wedi cau nawr hefyd, ac mae ei rhaglenni sy'n parhau dan gyfrifoldeb yr FCDO. Fodd bynnag, mae rhaglen o'r math hwn yn parhau yn un y gallai Llywodraeth y DU deimlo bod gwerth iddi, felly mae'n werth ei hystyried yma. Nod y Gronfa Ffyniant oedd hyrwyddo twf a ffyniant mewn gwledydd sy'n datblygu, yn enwedig mewn gwledydd incwm canolig, trwy wella'r amgylchedd busnes byd-eang, cryfhau sefydliadau, ac annog rhagor o fuddsoddi preifat byd-eang. Un o ffrydiau'r gronfa hon oedd Gwell Iechyd, a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau iechyd mewn wyth o wledydd, yn bennaf yn ne-ddwyrain Asia, ac roedd yn cael ei goruchwylio gan grŵp llywio a oedd yn cael ei gartrefu gan Health Education England. Roedd yr Adran dros Fasnach Ryngwladol a Healthcare UK (a drafodir yn adran 6) yn ymwneud â'i gweithredu, trwy waith gyda phartneriaid dramor a hyrwyddo cyfleoedd yn y DU. Er nad yw ar agor i geisiadau newydd, mae rhai o'r prosiectau hyn yn parhau. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd gwaith gyda sefydliadau allweddol yn y DU, megis Healthcare UK a Health Education England, petai cyfleoedd tebyg yn codi yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw gronfeydd ODA newydd, perthnasol wedi eu canfod ers ein hadolygiad diwethaf. Mae hwn yn amlwg yn faes sy'n mynd trwy gyfnod o newid. Er bod y cyfleoedd i gael cyllid ODA wedi lleihau'n sylweddol ar y cyfan, bydd rhai'n bodoli, a gallai Cymru osod ei hun mewn sefyllfa ble gall fanteisio ar y cronfeydd newydd wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

## 4.3 Y GIG AC YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL

Mae'r GIG yng Nghymru yn system integredig, sy'n seiliedig ar gynllunio yn hytrach na chystadleuaeth. Mae bron i 50% o holl gyllideb Llywodraeth Cymru o £18bn wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r rhan helaethaf (oddeutu £8bn) yn mynd i GIG Cymru.[38] Caiff gwasanaethau eu darparu trwy saith Bwrdd iechyd rhanbarthol, sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, a thair Ymddiriedolaeth a dau Awdurdod Iechyd Strategol, sy'n darparu gwasanaethau ledled Cymru. Mae pob un o'r rhain yn derbyn gwasanaethau cymorth gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).

Mae GIG Cymru yn cyfrannu at iechyd rhyngwladol yn bennaf trwy:

- Gyflogaeth a hyfforddiant.
- Ymchwil ac arloesi.
- Ymwneud â gwaith gwirfoddol/dyngarol.

Caiff y rhain eu hystyried ymhellach isod. Ceir meysydd eraill sy'n cyfrannu i raddau llai:

- Darparu gwasanaethau: mae Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru yn Abertawe yn cael ei chomisiynu fel canolfan llosgiadau genedlaethol ar gyfer y DU ac mae'n rhan o rwydwaith Ewropeaidd a byd-eang ar gyfer ymateb i anafiadau llosgi torfol. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae wedi derbyn cleifion o ddigwyddiadau mawr, er enghraifft, yn Nwyrain Ewrop (tân clwb nos) a'r Aifft (bomio Eglwys Gadeiriol Goptig). Dyma'r unig enghraifft o ddarparu gwasanaethau rhyngwladol y gwyddom amdani, ond ceir, wrth gwrs, gydweithio gyda gwasanaethau GIG eraill yn y DU i trwy gomisiynu cilyddol ar gyfer gwasanaethau arbenigol, yn arbennig mewn ardaloedd ffiniol.
- Modelau gwasanaeth newydd. Mae'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) yn system unigryw o ofal iechyd cyn-ysbyty a gartrefir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA), gan ddefnyddio isadeiledd Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Parafeddygon Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), a Meddygon Gofal Critigol o bob rhan o Gymru. Mae'n darparu ymyriadau gofal critigol yn y gymuned, ar gyfer trawma neu gyflyrau meddygol, i gleifion o bob oed. Mae ei isadeiledd newydd a'i gyrhaeddiad

[38] Llywodraeth Cymru Cyllideb Cymru 2020-21.

cynhwysol wedi ennyn diddordeb rhyngwladol, ac mae ei staff wedi cymryd rhan mewn cynadleddau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys rhai nodedig o Japan a Norwy. Mae dadansoddiad o ddata cleifion EMRTS, mewn cydweithrediad â chydweithwyr o Awstralia, wedi cael ei gyflwyno'n rhyngwladol.

- Cyfleoedd i hyfforddi dramor, gan gyfrannu at systemau iechyd gwledydd eraill a dod â gwybodaeth a ddysgwyd yn ôl i GIG Cymru. Mae'r rhain yn llawer llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr, er enghraifft, fel y trafodwyd yn ein hadolygiad blaenorol. Hyd y gwyddom, yr unig gynllun ffurfiol a gynigir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC) ydy rhaglen Cymrodoriaethau Byd-eang i feddygon teulu dan hyfforddiant, er eu bod yn gweithio i ddatblygu eu hymgysylltu byd-eang ymhellach.

Mae'r map isod (Ffigwr 1) yn dangos nifer y cyrff GIG sy'n ymwneud ag unrhyw fath o gydweithio ffurfiol – partneriaeth iechyd, neu weithgaredd ymchwil neu ddatblygu – ym mhob gwlad ledled y byd. Nodwch nad yw hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn treialon clinigol rhyngwladol. O'r holl drefniadau cydweithio mae 39% yn Affrica, 31% yn Asia ac 19% yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu'n helaeth yn rhyngwladol, ac fe'i hystyrir fel astudiaeth achos.




**Ffigwr 1: Trefniadau cydweithio rhyngwladol (nifer y cyrff GIG sy'n weithredol ym mhob gwlad).**

**Iechyd Cyhoeddus Cymru: ymgysylltu rhyngwladol strategol**

Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ydy'r sefydliad GIG Cymru sydd fwyaf gweithgar yn strategol ym maes iechyd byd-eang. Yn 2017, cyhoeddodd ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol, gan ddisgrifio gweledigaeth y sefydliad ar gyfer ymgysylltu byd-eang yn ystod y degawd nesaf, gyda manteision yn cael eu rhagweld yng Nghymru a thramor. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan Dîm Iechyd Rhyngwladol. Mae staff ICC yn ymwneud â mwy na 60 o brosiectau cydweithredol a rhwydweithiau rhyngwladol, ac maent wedi cyfrannu at ddatblygiadau sydd o bwys yn fyd-eang mewn meysydd megis diogelwch iechyd, cam-drin ac esgeuluso plant, gofal canser, a chydraddoldeb iechyd.

Mae gan ICC a'i staff bartneriaethau a swyddogaethau strategol allweddol, gan gynnwys:

- Dynodiad fel Canolfan Gydweithredu'r WHO (WHOCC) mewn Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant: y ganolfan gyntaf yn y byd â'r arbenigedd hwn, gan hybu cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a ffyniant i bawb yng Nghymru ac Ewrop.
- Canolbwynt yr WHO ar gyfer Atal Trais ac Anafiadau yn y DU; canolbwynt byd-eang ar gyfer ymchwil ar Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod; a Chanolbwynt yr WHO ar gyfer Rhwydwaith Rhanbarthau Ewrop dros Iechyd.
- Aelod o Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd (IANPHI) ac roedd yn Cadeirio Rhwydwaith Rhanbarthol Ewrop IANPHI hyd at fis Mai 2021.
- Aelod o EuroHealthNet, gyda sedd ar y Bwrdd Gweithredol.
- Cadeirio Grŵp Trosolwg Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl, a ffurfiwyd yn sgil newidiadau i strwythur PHE er mwyn darparu gwybodaeth i Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU.
- Cynnal gwasanaethau cyfeirio labordai i'r DU gyfan ar gyfer rhai pathogenau penodol a darparu cyngor diogelu iechyd arbenigol o fewn y DU ac Ewrop.
- Cartrefu'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) a chadeirio Grŵp Strategol Cynghori ar Iechyd Rhyngwladol Cymru sy'n grŵp amlasiantaethol a rhyng-sectoraidd.
- Arweiniodd y paratoadau ar gyfer sicrhau diogelwch iechyd yng Nghymru cyn Brexit, ac nawr mae'n arwain ar weithredu elfennau Diogelwch iechyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae ICC wedi llywio ac wedi cydlynu sawl agwedd ar ymateb Cymru i bandemig y coronafeirws, gan gynhyrchu adroddiadau Sganio'r Gorwel Rhyngwladol a Dysgu a bod yn aelodau o nifer o Is-grwpiau Grŵp Cyngor Technegol Lywodraeth Cymru. Mae ei ffordd o weithio wedi ennyn diddordeb rhyngwladol. Dechreuodd ei wasanaeth genomeg pathogenau, sy'n arwain yn fyd-eang, ddilyniannodi samplau coronafeirws yn fuan, gan ganiatáu datblygu a darparu profion agos-at-gleifion ledled y wlad. Mae faint o samplau sydd wedi'u dadansoddi yn ei osod ymhlith y tri uchaf yn fyd-eang, gan alluogi trefniadau cryf ar gyfer cadw gwyliadwriaeth ac ymateb yng Nghymru.

Mae ICC yn enghraifft o'r proffil a'r gweithgaredd rhyngwladol y gellir eu cefnogi trwy gyfarwyddo strategol a neilltuo adnoddau. Mae mewn sefyllfa dda i allu arwain sefydliadau eraill y GIG gyda datblygu'r maes hwn ac mae ganddo rolau allweddol yn hyn o beth eisoes. Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar y gwaith ehangach hwn gyda'r GIG, ond mae bwriad nawr i adnewyddu rôl yr IHCC a fydd, gyda chapasiti ac adnoddau ychwanegol, yn gallu gwireddu ei photensial i yrru datblygiad ymgysylltu rhyngwladol GIG Cymru yn ei flaen.

## CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT YN Y GIG

GIG Cymru ydy'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, gyda bron i 100,000 o aelodau staff mewn mwy nag 85,000 o swyddi sy'n cyfateb i amser-llawn.[39] Caiff aelodau staff, yn arbennig staff nyrsio a meddygol, eu tynnu o bedwar ban byd. Yn 2020, roedd 8% o staff iechyd a gofal cymdeithasol Cymru yn nodi nad oeddent yn wladolion y DU, gyda mwy yn dod o'r Undeb Ewropeaidd nag o wledydd oddi allan i'r UE.[40] Cafwyd ymgyrchoedd recriwtio sylweddol, er enghraifft yn India, Rwmania a'r Pilipinas (Ynysoedd Philippines), ar gyfer staff nyrsio yn benodol. Mae staff meddygol yn mudo ar gyfer y tymor hir, i ymuno â rhaglenni hyfforddi arbenigol y DU ac yn ymgymryd â swyddi meddygon ymgynghorol neu swyddi Arbenigwyr Staff a Chysylltiol, neu dros dro, fel rhan o'r Fenter Hyfforddiant Meddygol (MTI) neu ar gyfer cyfleoedd nad ydynt ynghlwm â hyfforddiant. Oni weithredir yn ofalus, gallai recriwtio o wledydd incwm isel a chanolig lesteirio, yn hytrach na chyfrannu tuag at iechyd byd-eang.

Mae'r MTI yn gynllun ar gyfer y DU gyfan a gynhelir drwy Golegau Brenhinol amryw o arbenigeddau, sy'n galluogi meddygon o GIICh i dreulio hyd at ddwy flynedd yn gweithio ac yn hyfforddi yn y GIG.[41] Yn 2019, roedd 36 o feddygon MTI yn gweithio yng Nghymru,[42] y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cefnogi trwy Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a Choleg Brenhinol y Meddygon, gyda nifer fechan yn cael cefnogaeth trwy Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, Goleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin a Choleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr. Ym mlynyddoedd 2016 a 2017, Roedd meddygon MTI Cymru yn 2.7% a 4.3% yn y drefn honno o gyfanswm y DU, sydd yn is na chyfran y boblogaeth yng Nghymru (tua 5% o gyfanswm poblogaeth y DU).

Wrth gwrs, mae staff gofal iechyd o Brydain yn mudo hefyd, weithiau gyda'r nod penodol o ddysgu neu rannu sgiliau, weithiau am resymau ffordd o fyw neu resymau eraill.

O ran cyfleoedd penodol yng Nghymru, rydym wedi canfod:

- Mae'r ganolfan gardiaidd yn Abertawe yn gwahodd llawfeddygon cardiaidd dan hyfforddiant o GIICh i hyfforddi yno, a dychwelyd wedyn i'w gwledydd cartref gyda sgiliau clinigol ac ymchwil newydd.
- Mae'r un ganolfan wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar fel un o dair Canolfan Ragoriaeth Ewropeaidd ar gyfer dysgu mewnblannu falf aorta drwy gathetr (TAVI), a bydd yn derbyn clinigwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd rhyngwladol i'w hyfforddi.
- Mae un o lawfeddygon Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) wedi datblygu grŵp ymchwil llawdriniaeth blastig mwyaf y DU, ac mae Cymrodoriaeth Cutler/Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr wedi'i dyfarnu iddo i weithio gyda chydweithwyr ym Mharis, gyda golwg ar ddatblygu arbenigedd penodol yng Nghymru. Ef yw'r cyntaf yn y DU i dderbyn ysgoloriaeth academaidd gan Gymdeithas Llawfeddygon Plastig Ewrop ac America.
- Mae BIPBA yn rhan o gynllun i gefnogi coleg ac ysbyty yn India, gan ddarparu cylchdro hyfforddi mewn paediatreg yn Abertawe i hyfforddeion o India.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cynnig rolau arloesol nad ydynt yn rhai hyfforddi sy'n denu meddygon o'r DU a thramor i swyddi anodd eu llenwi mewn Meddygaeth Argyfwng a Meddygaeth Gofal Dwys.[43,44]
- Mae AGIC yn edrych ar gysylltiadau newydd gydag India i ddod â meddygon i Gymru (a'r ffordd arall hefyd, o bosib) a bydd yn ceisio dod yn gorff noddi fisâu Haen 5 er mwyn cefnogi hyn.
- Mae gan Gymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd (BAPIO) adran yng Nghymru, ac mae ei chysylltiadau yn helpu i gysylltu meddygon yn India â swyddi gwag yng Nghymru.

[39] Llywodraeth Cymru Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 30 Medi 2020.

[40] Llywodraeth Cymru (2020). Paratoi Cymru: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[41] Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol (2021). Medical Training Initiative.

[42] Gwybodaeth wedi'i darparu gan Swyddfa Cymru Coleg Brenhinol y Meddygon, o ddogfen fewnol.

[43] Mountain Medicine Ysbyty Gwynedd: About us (2021).

[44] EPIC North Wales (2021).

Mae effeithiau cadarnhaol mewnfudo ar y GIG yn cynnwys llenwi swyddi a dod â gwahanol brofiadau (clinigol a diwylliannol) ac arbenigeddau, er nad yw'r olaf o'r rhain yn cael ei chofnodi mewn unrhyw fodd systematig, ac mae'r GIG yn colli llawer o fanteision posib o ganlyniad. Gall fod manteision i'r gwledydd ble mae'r gweithwyr hyn yn tarddu hefyd, os bydd gweithwyr iechyd yn dychwelyd adref i gyfrannu profiadau a sgiliau newydd yn yr un modd. Yn 2019, cynhaliodd THET arolwg o staff gofal iechyd diaspora fel rhan o'u hadroddiad "From Competition to Collaboration".[45] Roedd 70% o'r 139 o ymatebwyr yn bwriadu dychwelyd i wlad eu geni neu wlad eu treftadaeth, ac roedd 94% yn teimlo eu bod wedi datblygu sgiliau a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol yno.

Fodd bynnag, ceir canlyniadau negyddol hefyd, a'r mwyaf amlwg o'r rheiny ydy bod gwledydd yn cael eu hamddifadu o staff gofal iechyd hanfodol ac yn gwastraffu'r buddsoddiad a wnaed yn lleol i'w hyfforddi. Mae cynlluniau megis yr MTI yn ceisio lliniaru'r risg hon. Mae GIG Cymru'n cadw at egwyddorion y DU o recriwtio staff gofal iechyd yn foesegol,[46] sy'n gwahardd recriwtio gweithredol o nifer o GIICh, ac mae ganddo gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Recriwtio Rhyngwladol Traws-Whitehall. Er nad oes modelau sy'n cyfateb i'r MTI ar gyfer staff nad ydynt yn feddygon yng Nghymru, maent i'w cael mewn mannau eraill a chânt eu trafod ymhellach yn ein hystyriaeth o fodelau cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig yn ein hadolygiad blaenorol. Fel cyflogwr mwyaf Cymru, sydd â charfan sylweddol o staff diaspora, gallai GIG Cymru gael effaith sylweddol ar iechyd rhyngwladol drwy ddim mwy na chyflwyno contractau arloesol sy'n hyrwyddo trosglwyddo sgiliau yn ôl i'r wlad ble tarddodd gweithwyr gofal iechyd mudol.

### 4.3.1 YMCHWIL AC ARLOESI Y GIG

Mae GIG Cymru yn weithredol ym maes ymchwil, sy'n dod â buddiannau i sefydliadau a'u cleifion. Mae'n wybyddus bod gweithgareddau ymchwil yn helpu i ddenu a chadw staff. Yn 2018-19, amcangyfrifir bod gweithgaredd ymchwil masnachol GIG Cymru wedi cynhyrchu incwm o £7.4m a £93m mewn "gwerth ychwanegol gros",[47] wedi creu 1600 o swyddi ac wedi arbed £1.3m mewn costau fferyllol.[48] Er nad oes ffigurau manwl ar gael, mae rhywfaint o'r gweithgaredd hwn yn "rhyngwladol", drwy nawdd rhyngwladol, cydweithio, neu gyfrannu at wybodaeth y gellir ei gymhwyso'n fyd-eang. Y strwythurau hanfodol sy'n cefnogi'r gweithgaredd hwn ydy:

- Cyfarwyddwr ac adran ymchwil a datblygu (YaD) pob sefydliad, y mae rhai ohonynt yn cwmpasu maes arloesi hefyd.
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (YIGC): un o brif gyllidwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil sy'n seiliedig ar y GIG, sy'n gallu cynnwys ymchwil rhyngwladol.[49] Mae ei Wasanaeth Cefnogi a Darparu yn cynnwys swyddogaeth gydlynu ganolog ac adrannau YaD y GIG, y mae ei wasanaethau yn cydlynu sefydlu astudiaethau, contractau a chymeradwyaeth reoleiddiol yn cael eu darparu trwyddynt. Mae ei gyllideb flynyddol o £42m[50] hefyd yn cefnogi canolfannau ymchwil, Unedau Treialu Clinigol, ysgoloriaethau a chymrodoriaethau academaidd, a chynlluniau grantiau amrywiol. Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys Dyfarniadau Amser Ymchwil y GIG, sy'n cyllido amser ymchwil sesiynol i glinigwyr: dyfarnwyd chwech o'r rhain yn 2019-20.
- Canolfannau ymchwil a grwpiau isadeiledd YIGC: mae'r rhain yn cysylltu'r GIG â phrifysgolion ac eraill er mwyn gwella gallu a chapasiti, yn aml mewn meysydd pwnc penodol. Caiff rhain eu trafod ymhellach yn adran 5.
- Cyllid, a all ddod trwy un neu fwy o'r canlynol - YGIC, elusennau, cwmnïau neu grantiau cystadleuol cenedlaethol neu ryngwladol. Mae YGIC yn cefnogi'r gymuned ymchwil wrth iddynt geisio cyfleoedd, gan gynnwys creu cysylltiadau gyda diwydiant ac ar draws y DU.
- Rhwydweithiau traws-GIG, er enghraifft ar gyfer Arweinwyr Arloesi, neu mewn arbenigeddau clinigol penodol.

---

45 THET (2019). From Competition to Collaboration: Ethical leadership in an era of health worker mobility.

46 Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Code of Practice for international recruitment of health and social care personnel in England.

47 A measure of the overall economic value of an activity.

48 KPMG (2020). Impact and value of research supported by NHS organisations in Wales.

49 Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: amdanom ni (2021).

50 IWA (2021). Time to prioritise medical research in Wales.

Caiff ymwneud y GIG ymchwil masnachol rhyngwladol ei hwyluso gan YGIC, a'i dîm diwydiant fydd yn aml yn darparu'r cyswllt cyntaf rhwng partneriaid mewn diwydiant (cwmnïau fferyllol fel rheol) a safleoedd ymchwil yn y GIG. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae YGIC wedi datblygu partneriaethau gyda chwmnïau byd-eang blaenllaw, gan gynnwys GlaxoSmithKline, AstraZeneca a Novartis, a'r Sefydliadau Ymchwil Clinigol (CROs) PPD a Parexel. Mae Cymru yn sicr yn rhan o'r DU o safbwynt denu nawdd gan ddiwydiant, ac mae YGIC yn ymuno â dirprwyaethau ar y cyd y DU i sioeau masnach a digwyddiadau rhyngwladol. Mae gan Gymru gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau polisi a gweithredol y DU sy'n cefnogi ymgysylltu masnachol, megis Gweithgor Ymchwil Glinigol y DU a Grŵp Gweithrediadau Clinigol Masnachol y DU. Mae'r ymgysylltu hwn yn dod â chyllid ac arbenigedd i gefnogi cyfranogiad GIG Cymru mewn treialon rhyngwladol mawr, gyda manteision ariannol a chlinigol fel y'u disgrifiwyd yn gynharach, ond mae nawdd masnachol yn parhau'n is yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn 2019-20, roedd 18% o'r astudiaethau a oedd yn recriwtio yng Nghymru a 2.8% o'r holl gleifion a recriwtiwyd yn fasnachol, o'u cymharu â ffigyrau cyfatebol o 24.5%a 3.9% yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru, trwy YIGC, yn anelu at wella hynny, ac mae'r dyheadau yn gyson â gweledigaeth newydd y DU gyfan ar gyfer darpariaeth ymchwil clinigol.[51]

Mae llawer mwy o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r GIG, a drafodir yn Adran 5, dan arweiniad y sector academaidd. Ar gyfer arloesi, mae angen cysylltiadau agos gydag academia a diwydiant, ac mae hyn wedi'i gynnwys gyda'r sector masnachol yn Adran 6. Mae gweithgaredd rhyngwladol BIPBC yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys ymchwil ac arloesi rhyngwladol, yn cael ei gyflwyno fel astudiaeth achos ddangosol.

Un o'r rhwystrau mawr rhag cael rhagor o ymwneud ag ymchwil yn y GIG ydy amser staff. Cafodd hyn ei adrodd trwy sgyrsiau anffurfiol, cyfweliadau â rhanddeiliaid ac arolygon. Er bod YIGC yn cynnig mynediad cystadleuol at gyllid ar gyfer amser sesiynol, dim ond chwe dyfarniad a wneir yn genedlaethol bob blwyddyn. Rhaid trafod unrhyw amser arall trwy gyflogwyr yr unigolion ac yn aml, nid oes unrhyw fodd o sicrhau hynny ochr yn ochr â dyletswyddau clinigol. Mae gan Swyddfa Cymru Coleg Brenhinol y Meddygon a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ymchwil Feddygol ill dau gyhoeddiadau diweddar sy'n argymell y dylid diogelu amser staff ar gyfer ymchwil, wedi iddynt nodi gwendid arwyddocaol yma yng Nghymru. [52,53]

### 4.3.2 GWEITHGAREDD GWIRFODDOL A DYNGAROL Y GIG

Mae Cymru wedi arwain y DU o safbwynt annog a chydlynu ymwneud y GIG â gweithgaredd rhyngwladol gwirfoddol, drwy raglen Cymru ac Affrica,[54] Cylchlythyr Iechyd Cymru 2006,[55] Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol ym Maes Iechyd 2012,[56] a'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol.[57] Caiff y rhain eu trafod yn fanwl yn ein hadolygiad blaenorol, ynghyd â chryfderau a gwendidau presennol y systemau cefnogi hyn. Cyflwynir crynodeb byr, ynghyd â manylion cyllid a chefnogaeth drwy raglen Cymru ac Affrica yn adran 7. Mae sefydliadau'r GIG yn elwa o ymwneud â'r gweithgaredd hwn, wrth i staff ddatblygu mewn meysydd megis dyfeisgarwch, gwytnwch ac arweinyddiaeth, ynghyd â chyfoethogi diwylliannol a chaffael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae mynediad at gyfleoedd o'r fath yn esgor ar welliannau o ran recriwtio, cadw a bodlonrwydd staff.

Roeddem eisoes wedi nodi 10 Partneriaeth Iechyd neu gysylltiadau eraill â gwledydd Affricanaidd, wedi'u lleoli mewn sefydliadau GIG a Mudiadau Cymdeithas Sifil (MCSau) eraill sydd â chysylltiadau agos. Mae'r adolygiad hwn wedi canfod rhagor o weithgaredd. Ceir crynodeb o'r prif bartneriaethau yn Nhabl 4. Mae nifer o unigolion hefyd sydd â chysylltiadau personol, neu sy'n cymryd rhan mewn sefydliadau mwy, rhai o'r rheiny yn rhai rydym yn ymwybodol ohonynt (yn

---

51 Papur polisi pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2021). Saving and improving lives: the future of UK clinical research delivery.

52 Swyddfa Cymru Coleg Brenhinol y Meddygon (2019). Chwalu rhwystrau: Ein cynllun gweithredu ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru.

53 Grŵp Trawsbleidiol y Bumed Senedd ar Ymchwil Feddygol (2021). Y Camau Nesaf er mwyn i Gymru Wireddu ei Photensial ym maes Ymchwil Feddygol

54 Llywodraeth Cymru (2020). Cymru ac Affrica.

55 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). Cylchlythyr Iechyd Cymru.

56 Llywodraeth Cymru (2012). Ffiniau: Fframwaith

57 Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2014). Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

ymwneud â gwaith yn Affrica, India, Bangladesh, Sant Helena, Ascension a Tristan da Cunha, Gambia a'r Caribî), a llawer ohonynt yn rhai nad ydym wedi'u canfod. Cafodd rhai o'r cysylltiadau hyn, megis hyfforddiant yn Vanuatu a Nepal, Dolen Betsi-Kenya, a nifer o gysylltiadau unigol eraill, eu sefydlu gan staff gofal iechyd diaspora, sy'n dangos y manteision i'r ddwy ochr y gall yr aelodau staff eu rhoi i GIG Cymru ac i wledydd eu tarddiad.

| Sefydliad | Gwledydd | Gweithgareddau |
|---|---|---|
| **BIPAB*** | Ethiopia | Hyfforddiant a chefnogaeth bydwreigiaeth. |
| **BIPBC** | Ethiopia, Kenya, Lesotho | Datblygu capasiti mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. |
| **BIPCTM**** | Zimbabwe | Unigolyn yn cefnogi hyfforddiant meddygol, yn gysylltiedig â Zimbabwe Health Training Support y DU gyfan. |
| | Vanuatu, Nepal | Cysylltiadau anffurfiol yn cefnogi hyfforddiant meddygol is- ac ôl-raddedig. |
| | Uganda | Hyfforddiant a datblygu capasiti , mewn partneriaeth â PONT. |
| **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** | Lesotho | Cydweithrediad â Dolen Cymru ac SOS Children's Villages. Cefnogi Partneriaethau Iechyd eraill (e.e., BIPBC). |
| **AaGIC** | De Affrica | Cymrodoriaethau Byd-eang (hyfforddiant meddygon teulu) |
| **BI Powys** | Kenya | Cydweithrediad â Phartneriaeth Gymunedol Aberhonddu-Molo. |
| **BIPBA** | Bangladesh | Datblygu gwasanaethau endosgopi ers 2012, gydag ysgol feddygol Abertawe a Chymdeithasau Gastroenteroleg. |
| | Pakistan, Yr Aifft | Addysg a hyfforddiant llawfeddygaeth y galon; mae cyfraniad hirhoedlog clinigydd arweiniol wedi'i anrhydeddu gan gymdeithasau proffesiynol yn Pakistan. |
| | India, Hong Kong | Hyfforddiant radiotherapi. |
| | Estonia | Mae paediatrydd yn arweinydd ar gyfer y rhanbarth hwn i Child Health International, sy'n elusen ffeibrosis systig |
| | Gambia | Datblygu capasiti mewn opthalmeg |
| | Zimbabwe | Hyfforddiant a chefnogaeth bydwreigiaeth. |
| **Felindre (gyda BIPCAF†)** | Sierra Leone | Gwasanaeth oncoleg paediatrig: datblygu capasiti lleol a chefnogaeth arbenigol o bell. |
| **YGAC** | Indonesia<br>Uganda | Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, cefnogi datblygiad gwasanaeth ambiwlans.<br>Mewn cydweithrediad â PONT, cefnogi gwasanaeth ambiwlans beic modur. |
| **Cymru gyfan/Y DU: Rural Seeds** | Aelodaeth ym mhob cyfandir. | Cydweithrediad ar-lein yn cysylltu meddygon ifanc sy'n gweithio mewn lleoliadau gwledig. Yn darparu cefnogaeth i'w gilydd, cysylltu â chlinigwyr profiadol ac eirioli dros well hyfforddiant, gyda golwg ar wella gofal. Wedi dod yn fwy poblogaidd yn ystod y pandemig ac yn cynnal "caffis" ar-lein poblogaidd. |

**Tabl 4: Gweithgaredd gwirfoddol rhyngwladol sy'n cynnwys staff GIG Cymru.**

*Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan †Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## 4.4 CYRFF ERAILL SY'N BERTHNASOL I IECHYD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR CYHOEDDUS

### 4.4.1 CYMDEITHASAU PROFFESIYNOL

Mae gan nifer o Golegau Brenhinol a Chyfadrannau meddygol, a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, adrannau iechyd byd-eang gweithgar. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fu modd cael data ar wahân ar gyfer ymwneud clinigwyr Cymru â'r gweithgaredd hwn, er nad oes unrhyw amheuaeth y bydd rhai yn cyfrannu, felly mae hyn yn elfen arall i ymgysylltu Cymru ym maes iechyd rhyngwladol. Dyma enghreifftiau penodol y a ganfuwyd gennym:

- Mae aelodau o Goleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru wedi bod yn rhan o brosiect addysg yn Lesotho, mewn cydweithrediad â Dolen Cymru.
- Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn gorff aelodaeth byd-eang sy'n adrodd y ceir cynrychiolaeth o Gymru yn aml ar brosiectau rhyngwladol. Mae gwaith penodol wedi'i gynllunio ym maes seiciatreg fforensig yn Ghana, dan arweiniad aelod o'r coleg sy'n athro ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ei gynhadledd a fydd yn digwydd yn fuan, bydd gan Gymru gynrychiolaeth mewn trafodaethau bord gron sydd a'r nod o ddod â phrosiectau byd-eang yn nes at adref.
- Ychwanegodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion gyllid cyfatebol at gyllid grant Cymru ac Affrica ar gyfer prosiect yn Zambia a oedd yn cael ei ddarparu gan aelodau o Gymru. Cwrs ar-lein oedd hwn i "hyfforddi'r hyfforddwyr" ar gynllunio teulu ar ôl genedigaeth a gofal erthylu diogel, a'i nod oedd arbed bywydau mamau a babanod drwy gael gwell bylchau rhwng cyfnodau beichiogrwydd. Yn ogystal, mae clinigydd o Gymru yn ymgymryd ag ymchwil i'r Coleg ar y baich byd-eang sy'n gysylltiedig ag afiechyd gynaecolegol.
- Fel y trafodwyd yn adran 4.3.1, ceir gweithgareddau hyfforddi meddygol yng Nghymru, er enghraifft, cynllun MTI.

Mae'r Colegau Brenhinol meddygol yn cynnal arholiadau yn rhyngwladol hefyd, a bydd gan nifer fawr iawn o glinigwyr gysylltiadau â chymdeithasau proffesiynol yn yr UE neu'n ehangach yn rhyngwladol, megis Cymdeithasau Ewropeaidd Anaestheteg neu Gardioleg. Mae eraill yn ymwneud â chyrff cenedlaethol sy'n gosod safonau, megis NICE. Mae'r cysylltiadau hyn yn rhy niferus ac amrywiol i'w hystyried yn fanwl yma, ond maent yn darparu sianel arall ar gyfer rhannu gwybodaeth a sgiliau rhwng Cymru a'r byd yn ehangach.

### 4.4.2 COMISIWN BEVAN

Melin drafod annibynnol ydy Comisiwn Bevan, sy'n cael ei gartrefu a'i gefnogi gan Brifysgol Abertawe, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar arloesi ac iechyd a gofal seiliedig ar werth. [58] Mae'n annog trosi syniadau yn ymarfer yn y GIG, gan gefnogi staff gyda mentora trwy raglenni 'Cymrodyr', 'Enghreifftwyr' a rhaglenni eraill. Mae ganddo gryn ddiddordeb mewn rhannu arferion da yn rhyngwladol, a chaiff hyn ei hwyluso drwy ei 25 o Gomisiynwyr (gwirfoddol) sydd wedi'u lleoli ledled y DU ac yn Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau. Mae aelodau staff a Chymrodyr/Enghreifftwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol yn Ewrop ac Awstralasia, gan ganiatáu i bobl eraill ddysgu am system iechyd a gofal Cymru sy'n anarferol o integredig, yn ogystal â dod a syniadau'n ôl gan bobl eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu secondiad rhan-amser ar hyn o bryd i uwch aelod o'r Sefydliad Rhyngwladol dros Ofal Integredig,[59] sy'n cryfhau gwaith Comisiwn Bevan a'i gysylltiadau rhyngwladol.

## 4.5 GWYBODAETH GWAELODLIN TRAWS-SECTORAIDD O'R YMATEBION I'R AROLYGON

Cyn ystyried effaith digwyddiadau diweddar ar y sector cyhoeddus yn benodol, gan gynnwys gwybodaeth o arolygon a chyfweliadau rhanddeiliaid, rydym am gyflwyno rhywfaint o wybodaeth trosfwaol o'n harolygon.

[58] About the Bevan Commission (2021).

[59] International Foundation for Integrated Care: About IFIC (2021).

Cafwyd 28 o ymatebion (tua 28%), yn cynrychioli 24 o wahanol sefydliadau, i'r arolwg cyntaf a oedd wedi'i anelu at y sefydliadau neu'r rhwydweithiau mwyaf. Roedd cynrychiolaeth o bob sector, gyda 54% yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys cymdeithasau proffesiynol), 17% academaidd, 21% masnachol ac 8% nid-er-elw. Adroddodd 46% o'r ymatebwyr weithgaredd mewn mwy nag un sector. Adroddodd 71% fod gan eu sefydliad strategaeth ryngwladol, a doedd 11% ddim yn gwybod. Dangosir y math o weithgaredd a gyflawnir yn Ffigwr 2, a hyfforddi ac ymchwil oedd y rhai mwyaf cyffredin. Dim ond 3.8% a adroddodd bod cynhyrchu neu werthu nwyddau yn weithgaredd sylweddol, sydd, fwy na thebyg, yn adlewyrchu'r ffaith bod yr arolwg hwn wedi'i anelu at rwydweithiau allweddol yn y sector masnachol, yn hytrach na chwmnïau unigol. Mae Ffigwr 3 yn dangos y rhanbarthau ble mae'r ymatebwyr yn weithredol, ac Affrica sydd fwyaf cyffredin, efallai oherwydd gweithgaredd cryf Rhaglen Cymru ac Affrica, gydag Ewrop yn ail.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: gweithgareddau rhyngwladol**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ydy bwrdd iechyd mwyaf Cymru, yn gwasanaethu poblogaeth o bron i 700,000 yn rhanbarth Gogledd Cymru. Daw ei 19,000 o staff o bedwar ban byd, gyda nifer yn dod o Ewrop, Affrica ac Asia. Mae swyddi arloesol nad ydynt yn rhai hyfforddi a chysylltiadau unigol yn denu meddygon iau o safon uchel, rhai ohonynt o dramor. Mae cyrsiau hyfforddi, er enghraifft mewn trawma, meddygaeth gofal dwys ac uwchsain yn denu hyfforddwyr a hyfforddeion o bob rhan o'r DU a thu hwnt. Ceir cysylltiadau agos â phrifysgolion Bangor, Caerdydd a Glyndŵr, ar gyfer hyfforddi staff gofal iechyd ac ymchwil.

BIPBC sy'n cyflogi dau o blith y chwech a enillodd Ddyfarniadau Amser Ymchwil GIG Llywodraeth Cymru, sy'n cyllido amser sesiynol i staff y GIG ymgymryd â gweithgareddau ymchwil. Mae'r Arweinydd Arloesi yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd rhyngwladol trwy gysylltiadau ag arweinwyr yn y GIG, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac eraill. Ar hyn o bryd, mae 11 o dreialon clinigol sydd wedi'u noddi'n rhyngwladol ar y gweill ynghyd â chydweithio ar brosiectau arloesol eraill gan gynnwys datblygu:


- Systemau monitro clinigol i wella gofal cleifion sydd â salwch acíwt. Mae hyn yn rhan o'n ymchwil ehangach, â chydweithio rhyngwladol yn y maes hwn.
- Technoleg adnabod llais er mwyn gwella capasiti diagnostig labordai.
- Ap i gefnogi ymgysylltiad y glasoed gyda gofal iechyd meddwl.


Bu Adrannau Anadlu ac Unedau Gofal Dwys yn rhan o astudiaethau rhyngwladol i COVID-19, ac mae eu canfyddiadau wedi bod o gymorth i gleifion yn fyd-eang drwy adnabod triniaethau effeithiol.

Mae BIPBC a Phrifysgol Bangor yn rheoli'r Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Chymdeithas (CFMHAS), sy'n cynnal Menter Hunan-niweidio De Asia (SASHI), sef prosiect partneriaeth i atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae gan y ganolfan gysylltiadau â nifer o wledydd eraill, gan gynnwys rhai yn Ne America a'r Dwyrain Canol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd dair Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, gydag Ethiopia, Lesotho a Kenya. Mae aelodau staff o bob disgyblaeth yn cyfrannu, o beirianwyr meddygol i nyrsys, ac o ofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae'r gwledydd partner wedi elwa o gael mynediad at hyfforddiant a chyfarpar arbenigol, ac mae'r aelodau o staff BIPBC sy'n ymwneud â'r prosiect yn adrodd eu bod wedi gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hyblygrwydd a dyfeisgarwch, a bod gwell rhwydweithiau rhyng-adrannol. Mae'r sefydliad yn ehangach yn elwa o gael ymweliadau gan y partneriaid tramor, sy'n darparu addysgu a hyfforddiant, ac yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion iechyd rhyngwladol. Caiff y gwaith ei hwyluso gan gefnogaeth ar lefel y Bwrdd drwy Grŵp Iechyd Rhyngwladol, sy'n cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn ogystal ag elusen y Bwrdd Iechyd, sy'n rheoli cyllid y Partneriaethau Iechyd.

Yr her fawr yn yr holl waith hwn ydy adnoddau, yn nhermau amser staff a chyllid. Mae gan rai clinigwyr amser ymchwil wedi'i neilltuo ac er bod hynny'n ddefnyddiol, nid yw'n gyffredin. Mae rôl yr Arweinydd Rhyngwladol yn sefyll ochr yn ochr â nifer o rolau eraill, heb amser wedi'i neilltuo. Mae aelodau Partneriaethau Iechyd yn hapus i roi eu hamser eu hunain ar gyfer gwaith rhyngwladol, ond yn anorfod, mae cyfyngiadau ar eu gallu i gynllunio a chyflawni prosiectau ochr yn ochr â rolau gofal iechyd heriol.





**Ffigwr 2: Gweithgareddau iechyd rhyngwladol a adroddwyd gan ymatebwyr i arolwg 1 (sefydliadau a rhwydweithiau).**


Mae "arall" yn cynnwys llunio polisi, cynhyrchu a gwerthu nwyddau, a marchnata a chyfathrebu.

**Ffigwr 3: Rhanbarthau byd-eang ble'r adroddodd ymatebwyr i arolwg 1 (sefydliadau a rhwydweithiau) weithgareddau**

Derbyniodd yr ail arolwg, a oedd wedi'i anelu at sefydliadau unigol neu grwpiau gweithredol, 21 ymateb (tua 21%), gyda 33% yn rhan o'r GIG (pob un yn Bartneriaethau Iechyd), 29% academaidd, 19% masnachol ac 19% nid-er-elw. Unwaith eto, roedd gweithgaredd traws-sectoraidd arwyddocaol, gyda 27% yn adrodd am hynny.

Mae Ffigwr 4 yn dangos y math o weithgaredd a gynhelir a Ffigwr 5 yn dangos y rhanbarthau ble mae'r ymatebwyr i'r ail arolwg yn weithredol. Unwaith eto, hyfforddi ac ymchwil ydy'r gweithgareddau mwyaf cyffredin, ac mae'r gyfran fwyaf o ymatebwyr yn gweithio yn Affrica, gydag Ewrop yn ail.




**Ffigwr 4: Gweithgareddau iechyd rhyngwladol a adroddwyd gan ymatebwyr i arolwg 2 (sefydliadau unigol/grwpiau).**

Mae "arall" yn cynnwys gwaith ymgynghorol a darparu cyllid.

**Ffigwr 5: Rhanbarthau byd-eang ble'r adroddodd ymatebwyr i arolwg 2 (sefydliadau unigol/grwpiau) weithgareddau.**

## 4.6 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR CYHOEDDUS I IECHYD RHYNGWLADOL

### Pandemig y coronafeirws

Mae effaith aruthrol y pandemig ar y GIG yn wybyddus ac nid oes angen manylu ar hynny yma, heblaw am nodi y bu effeithiau cysylltiedig sylweddol ar ei ymgysylltiad â iechyd rhyngwladol. Yn gyson â hynny, adroddodd 100% o'r ymatebwyr o'r GIG i'n dau arolwg am effaith mewn rhyw faes, sy'n cyfateb i wybodaeth o sgyrsiau anffurfiol a chyfweliadau rhanddeiliaid. Mae symudiad staff gofal iechyd i'r ddau gyfeiriad wedi cael ergyd: er enghraifft, methu recriwtio meddygon drwy gynllun MTI a chanslo'r Cymrodoriaethau Byd-eang i Feddygon Teulu dan Hyfforddiant. Mae rhai astudiaethau ymchwil rhyngwladol wedi cael eu hatal dros dro, wrth i sylw ar wahanol lefelau gael ei gyfeirio at faterion eraill.

O safbwynt gweithgareddau'r Partneriaethau Iechyd, nid yw Grŵp Gweithredu'r Siarter wedi gallu cyfarfod ers dros flwyddyn, ac bu tarfu ar deithio gan bartneriaid i'r ddau gyfeiriad. Ynghyd â phwysau ar amser, mae hyn wedi cael effaith negyddol ar rai prosiectau sydd ar y gweill. Mae cyfyngiadau teithio wedi cael effaith bellach ar gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio, megis mynychu cynadleddau rhyngwladol. Mae ICC wedi gorfod dargyfeirio sylw o'i weithgareddau ymgysylltu rhyngwladol tuag at flaenoriaethau gartref, er bod eu hymwneud â rhwydweithiau rhyngwladol wedi cynorthwyo'r gwaith hwnnw. Yn y GIG yn gyffredinol, mae morâl a lles staff wedi dioddef, ac mae pryderon y gellir colli aelodau staff ar adeg pan mae mwy o'u hangen nag erioed.

Ar yr un pryd, mae nifer o fanteision wedi'u nodi. Un enghraifft amlwg yw Is-grŵp Gwybodaeth Ryngwladol y Grŵp Cyngor Technegol (TAG), rôl yr ymgymerodd y Swyddfa Gwyddoniaeth â hi oherwydd arbenigedd ac argaeledd (gan eu bod, o ychydig, wedi cael eu heffeithio llai na chydweithwyr yn y GIGC o safbwynt amser), ac a oedd yn dibynnu yn y lle cyntaf ar wybodaeth gan swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, ymhlith ffynonellau eraill. Datblygodd yn gyflym i fod yn grŵp allweddol a oedd yn dwyn arbenigedd ynghyd o'r llywodraeth, academia a iechyd y cyhoedd i ddarparu canllawiau hanfodol ar gyfer yr ymateb i'r coronafeirws. Bydd yn parhau i gyfarfod yn wythnosol am y dyfodol rhagweladwy ac hyd yn oed os caiff ei roi o'r neilltu yn y dyfodol, bydd yn parhau'n fodel y gellir ei roi'n ôl ar waith yn gyflym.

Yn y GIG, cafwyd ymwneud cryf ag ymchwil i COVID-19, gyda nifer o ysbytai yn cymryd rhan mewn treialon o bwys megis RECOVERY[60], sydd wedi newid triniaethau ar gyfer yr afiechyd yn fyd-eang. Mae ymatebion rhanddeiliaid a'r arolygon yn dangos parodrwydd newydd yn y GIG, sy'n arfer bod yn gyndyn i gymryd risgiau, i fabwysiadu arferion newydd. Dywedodd un: "Gwelais i fwy o arloesi yn chwe mis cyntaf COVID nag y gwelais i dros y 15 mlynedd diwethaf". Nid yw'r rhai sy'n ymwneud â hynny yn gweld cynnydd mewn risg o ganlyniad i fabwysiadu technoleg ac arferion newydd yn gyflym, ond maent yn gweld yr angen i gael monitro digonol er mwyn gallu canfod problemau ac fel bod modd rhoi arloeseddau nad ydynt yn ddefnyddiol o'r neilltu yn fuan.

Mae llawer yn adrodd bod gwell cysylltiadau digidol, nid yn unig gyda chydweithwyr yn fyd-eang, ond ar draws GIG Cymru ei hun hefyd. Yn hanesyddol, byddai aelodau staff yn treulio cryn amser yn teithio i gyfarfodydd pell, neu'n cael anhawster cyfathrebu fel lleiafrif a oedd yn ymuno â chyfarfod wyneb-yn-wyneb trwy fideo-gynadledda. Nawr, mae'r maes chwarae wedi'i wastadu, gyda phawb â phresenoldeb digidol cyfartal ac nid oes amser gwerthfawr yn cael ei golli yn teithio. Mae hyn yn estyn, er enghraifft, i bartneriaethau iechyd, ble mae'r gallu i'r holl grŵp gyfarfod ar-lein yn lleihau anghydbwysedd grym ac yn hwyluso cyfathrebu. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gysylltiadau rhyngrwyd da, sydd ddim ar gael o anghenraid yn y gwledydd partner (nac ychwaith, yng Nghymru bob amser).

### Brexit

Effaith gyfyngedig y mae hyn wedi'i gael hyd yn hyn, gyda dim ond 28% o'r ymatebwyr o'r GIG i'r arolygon yn adrodd am effaith. Y prif effaith yr adroddwyd amdani oedd ar Ymchwil a Datblygu, gyda rhai grantiau a gweithgareddau wedi'u rhoi

---

[60] Prifysgol Rhydychen (2021). RECOVERY: Randomised Evaluation of COVID-19 Therapy.

i'r naill ochr tra roedd ei effeithiau'n cael eu cadarnhau. Yn benodol, ac yn berthnasol hefyd i arloesi/masnach, roedd pryder ynglŷn â dilysrwydd prosesau rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig yn erbyn rhai Ewrop (ac i'r gwrthwyneb) ac fe wnaeth hynny lesteirio cydweithio am gyfnod. Mae'n debyg bod hyn wedi cael ei ddatrys wrth i brosesau a chytundebau ddod yn fwy eglur, ond gall fod effaith eto ar gyfranogiad y DU mewn astudiaethau fferyllol byd-eang. Nid yw rhai o ffrydiau incwm yr UE ar gael bellach.

Collwyd mynediad at rai o rwydweithiau allweddol yr UE: Cyfeiriodd ICC at y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal Afiechydon, a'u rhaglen hyfforddiant Cymrodyr mewn epidemioleg (EPIET).

Yn y GIG a sectorau eraill, mae pandemig y coronafeirws wedi cuddio effeithiau posib Brexit ar staffio hyd yn hyn. O ystyried y gyfran gymharol uchel o wladolyn yr UE sy'n gweithio yn GIG Cymru, ac ymgyrchoedd recriwtio blaenorol yn Nwyrain Ewrop yn arbennig, mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith ar staffio. Fodd bynnag, mae niferoedd staff wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i gyn-glinigwyr ymateb i'r argyfwng,[61] a gall fod yn gryn amser cyn y gwelir y gwir effaith.

### Newidiadau i wariant y DU ar gymorth rhyngwladol

Yn y sector hwn, dim ond 16% o'r ymatebwyr i'r arolygon adroddodd bod effaith. Mae'n wybyddus bod un Bartneriaeth Iechyd wedi colli cyllid posib o gais oedd yn yr arfaeth i gynllun UKHPS THET, a chafwyd effaith debyg ar grwpiau mewn sectorau eraill. Gan fod cyn lleied o gyllid ODA yn llifo i ymchwil yn y GIG neu weithgareddau Partneriaethau Iechyd, effaith cymharol fach y mae'r newidiadau hyn wedi'i gael. Byddant, fodd bynnag, yn cyfyngu ar ddatblygiad y gweithgaredd hwn yn sgil prinder cyllid yn gyffredinol ac, o bosib, niwed i enw da'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

## 4.7 DADANSODDIAD: SECTOR CYHOEDDUS

### Cryfderau

O safbwynt iechyd rhyngwladol, mae gan Gymru gryfderau arwyddocaol yn ei pholisïau cefnogol a'i golygon tuag allan. Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol botensial mawr (sydd heb ei wireddu i raddau helaeth hyd yn hyn) i alluogi cydnabyddiaeth bod gweithgaredd iechyd rhyngwladol yn cyfrannu at ddinasyddiaeth a chyfrifoldeb byd-eang yng Nghymru. Mae potensial enfawr y gall gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn llawn fod o fudd i'r GIG a'i staff. Mae arweinwyr y GIG a gweinidogion y llywodraeth yn gefnogol i'r syniad o ymgysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd, gan gynnwys gwneud hynny gyda GIICh.

Adroddodd rhanddeiliaid allanol am ryngweithio cadarnhaol gyda phobl o Gymru, gan gynnwys cynrychiolwyr llywodraeth mewn rhwydweithiau allweddol. Nodwyd bod ganddynt ddiddordeb a'u bod yn cynnig syniadau; yn gwrando, ond "yn gwneud mwy na gwrando'n unig", a'u bod yn gwneud gwaith dilynol ar syniadau sydd o ddiddordeb cyffredin. O safbwynt gweithio mewn partneriaeth, dywedwyd bod unigolion o Gymru yn arbennig o dda am wrando ac ymateb i anghenion partneriaid, yn hytrach na gorfodi cynllun sydd wedi'i baratoi rhag blaen. Mae'r dull cydweithredol hwn i'w weld hefyd wrth ryngweithio o fewn Cymru ac un cryfder mawr, a nodwyd ar draws pob sector ac yn yr arolygon a'r cyfweliadau, ydy maint bach y wlad. Mae hyn o gymorth i rwydweithio a chydweithio, o fewn sectorau a rhyngddynt, ac hefyd gydag aelodau allweddol y llywodraeth – yn weinidogion ac yn weision sifil. Mae aelodau o bob sector yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hyn ac yn cydnabod eu bod yn anarferol o gymharu â gwledydd mwy. Maen nhw'n ffurfio'r sylfeini i strwythur a ddylai fod yn gallu addasu a symud ymlaen yn gymharol rhwydd.

Mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd yn dangos niferoedd a rhychwant yr unigolion brwdfrydig a thalentog: maent yn cydweithio ar hyfforddiant ac ymchwil, ac yn rhannu sgiliau ledled y byd. Nodwyd yn ein harolwg bod y rhychwant eang o brofiadau o fudd i'r wlad, ac yn galluogi mynediad at gyngor a chefnogaeth. Ceir cysylltiadau cryf â sefydliadau a rhwydweithiau rhyngwladol, yn enwedig o fewn Ewrop drwy ICC.

---

[61] Llywodraeth Cymru (2021). Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn olaf, cryfder arwyddocaol arall yng Nghymru ydy ei system iechyd a gofal sydd yn integredig iawn. Unwaith eto, mae hyn yn berthnasol i bob sector mewn perthynas â iechyd rhyngwladol. Ar gyfer Partneriaethau Iechyd, mae'n hwyluso ymwneud gan staff o nifer o ddisgyblaethau, ac o ofal sylfaenol a gofal eilaidd, gan alluogi datblygiad prosiectau sy'n gweddu i systemau iechyd gwledydd sydd â llai o adnoddau. Ym maes ymchwil, mae'n caniatáu mynediad at rychwant eang o leoliadau ar gyfer casglu tystiolaeth, neu beilota triniaethau neu ddyfeisiau newydd. Er nad yw hyn wedi'i ddefnyddio i raddau mor effeithiol ag y gallai hyd yn hyn, un enghraifft amlwg o'r fantais hon ydy banc data SAIL (gweler adran 5), sydd wedi denu sylw byd-eang oherwydd ei setiau data cynhwysfawr a rhyng-gysylltiedig, sy'n hwyluso ymchwil ar boblogaethau mewn sawl maes.

### Gwendidau

Mae iechyd yn croesi nifer o feysydd cyfrifoldeb ac mae'r nifer o is-adrannau'r llywodraeth sy'n ymwneud â'r maes yn adlewyrchu hynny. Mae strategaeth y GIG, ymchwil, masnach ym maes technoleg gwyddorau bywyd, a chysylltiadau rhyngwladol yn cael eu goruchwylio gan wahanol dimau. Er bod y gwahanol grwpiau'n amlwg yn cyfathrebu'n eglur â'i gilydd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amrywiol, nid yw'r dull gweithio hwn sy'n tueddu i fod "mewn seilos" i raddau yn cynorthwyo meddwl a gosod cyfeiriad yn strategol yn gyffredinol o safbwynt gweithgaredd iechyd rhyngwladol. O estyn hyn ymhellach i ystyried gwahanol gyfrifoldebau llywodraethau Cymru a'r DU, mae llawer yn gweld bod Cymru dan anfantais oherwydd bod Lloegr gymaint cryfach mewn fforymau sy'n cynrychioli'r DU gyfan: er enghraifft, mewn perthynas â pholisi a chyllid iechyd byd-eang y DU.

Un canfyddiad cyson iawn, ar draws pob sector ac o bob ffynhonnell, oedd bod gweithgaredd iechyd rhyngwladol yn cael ei lesteirio gan ddiffyg amser a chapasiti. Mewn perthynas â'r GIG, mae hyn yn gysylltiedig i raddau helaeth ag amser clinigwyr neu reolwyr i ymwneud ag ymchwil neu weithgareddau Partneriaethau Iechyd. Disgwylir i'r olaf o'r rhain fod yn wirfoddol i raddau helaeth ac mae'n cael ei gefnogi gan amser ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith er mwyn hwyluso ymweliadau tramor, ac mae'r ymatebwyr yn cydnabod hyn. Ond fe wnaethant fynegi hefyd ei bod yn anodd sicrhau cyllid heb amser neu gymorth rhai sydd â sgiliau. Mae Arweinwyr Rhyngwladol y GIG dan gyfyngiadau tebyg, gan fod y rôl honno'n sefyll ochr yn ochr â nifer o rolau eraill sy'n tueddu i bwyso mwy ar eu hamser. Mae'r un broblem yn berthnasol i ymchwil, gan mai dim ond rhai clinigwyr sydd ag amser wedi'i ddynodi ar gyfer hynny.

Gwendid arall sy'n benodol i'r GIG ydy ei gyndynrwydd i gymryd risgiau a'i fiwrocratiaeth, sy'n rhwystro datblygiad cyfleoedd cyflogi arloesol, o fewn y GIG a thramor hefyd, yn ogystal â rhoi datblygiadau arloesol ar waith. Mae hyn yn cyfrannu at sefyllfa lle mae ymgysylltiad byd-eang Cymru yn gyfyngedig o safbwynt recriwtio meddygol, cyfleoedd hyfforddi rhyngwladol, a chontractau hyblyg.

Yn olaf, mae proffil yn fater i'w ystyried. Heb amheuaeth, mae gan Gymru gryfderau ar lefel byd-eang ym maes iechyd, rhai y rhoddir sylw iddynt ym mhob rhan o'r adroddiad hwn, ac mae'r rhain yn adnabyddus o fewn cylchoedd neu feysydd pwnc penodol. Un enghraifft gref ydy'r gydnabyddiaeth yn rhanbarth Ewropeaidd yr WHO ei bod yn arwain y ffordd ar gydraddoldeb iechyd. Ond daethom ar draws teimlad cyffredinol nad yw'r cryfderau hyn yn cael eu dwyn ynghyd ar hyn o bryd a'u cyfleu mewn ffordd a fyddai'n rhoi proffil rhyngwladol cryfach i Gymru. Nododd rhai a gyfwelwyd fod Cymru, mewn gwirionedd, yn fwy adnabyddus ar gyfer rhai meysydd ble mae ei rhagoriaeth yn amlycach yn allanol, megis cerddoriaeth a chwaraeon. Canfyddiad y rhai a gyfwelwyd, yn bobl allanol yn ogystal a rhai "mewnol", ydy nad yw partneriaid iechyd rhyngwladol yn tueddu i wahaniaethu rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mynegodd rhai nad yw Cymru, mewn gwirionedd, yn edrych tuag allan i'r graddau ag y mae'n ymddangos ar bapur: pan ddaw cyfleoedd a fyddai'n galluogi Cymru i godi ei phroffil, bydd arweinwyr yn tynnu'n ôl ac yn methu ag adnabod neu fanteisio ar y cyfle sy'n cael ei gyflwyno iddynt. Yn aml, nid yw hyn yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r unigolion sy'n gysylltiedig: er enghraifft, nid oes angen i ymchwilwyr a busnesau ddyrchafu proffil Cymreig o anghenraid er mwyn llwyddo. Ond i lywodraeth sy'n ceisio codi proffil ei wlad, a phoblogaeth sydd â balchder yn ei chryfderau, mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud yn hyn o beth.

### Cyfleoedd

Mae nifer yn gweld y cyfnod adfer o'r coronafeirws yn gyfle i ailosod, ac mae diddordeb mewn gyrfaoedd gofal iechyd wedi ei sbarduno gan y pandemig. Er gwaethaf y pwysau ar y GIG, dyma'r amser delfrydol i gryfhau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu rhyngwladol o bob math ym maes iechyd. Dylid gweld hyn fel buddsoddiad a fydd yn esgor ar fanteision o safbwynt bodlonrwydd, recriwtio a chadw aelodau staff. O safbwynt recriwtio rhyngwladol a chyfnodau hyfforddi ar leoliad, mae gwledydd eraill y Deyrnas Unedig wedi datblygu modelau eisoes y gellid eu haddasu ar gyfer anghenion Cymru, gan roi cam cyflym ymlaen. Ymhellach, o ystyried y polisïau a'r diddordeb sydd yn bodoli eisoes, byddai ymdrech cymharol fach i gryfhau camau gweithredol (er enghraifft, yn achos y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol) yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol o safbwynt gweithgaredd effeithiol.

Mae polisïau newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru wrthi'n cael eu datblygu ac mae potensial i gynnwys gweithgareddau a chydweithio rhyngwladol yn eu plith, gan wneud ystyriaethau o'r fath yn "fusnes craidd". Mae YGIC, er enghraifft, yn datblygu strategaeth tair-blynedd a byddai o gymorth petai'n cynnwys cyllido rhyngwladol ac ymgysylltu â diwydiant. Mae hyn yn cysylltu gyda chyfleoedd arwyddocaol i ddatblygu ymhellach ar weithgaredd diweddar y GIG sy'n gysylltiedig ag arloesi, a drafodir ymhellach yn adran 6.

Mae cryfderau aruthrol mewn meysydd penodol, y manylir arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad yn ogystal ag yma, a gall Cymru fanteisio arnynt i godi ei phroffil. Mae gan yr unigolion a'r cyrff sy'n ymwneud â'r gwaith gysylltiadau rhyngwladol cryf, sy'n eang ac yn aml yn ddylanwadol. Un enghraifft sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus ydy ICC: mae'n ymgysylltu'n strategol yn rhyngwladol, ac o fewn y DU, erbyn hyn. Mae eisoes yn codi proffil Cymru'n rhyngwladol ac mae mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar y Deyrnas Unedig o safbwynt diogelu iechyd. Mae mewn sefyllfa dda i arwain y GIG yn ehangach ym maes ymgysylltu rhyngwladol, yn unol â'r strategaeth iechyd rhyngwladol y byddwn yn argymell yn ddiweddarach y dylid ei datblygu. Gall fod cyfleoedd hefyd i ICC chwarae rôl fwy dylanwadol o safbwynt polisi iechyd byd-eang y Deyrnas Unedig, wrth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd newydd y DU gael ei chreu, a gellid ystyried y rhain ymhellach ar lefel Prif Swyddogion Meddygol y pedair cenedl.

## 5 Y SECTOR ACADEMAIDD

*Mae'r adran hon yn disgrifio'r tirlun addysg uwch yng Nghymru, a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn y sector hwnnw sy'n berthnasol i iechyd rhyngwladol. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys hyfforddi gweithwyr gofal iechyd ac ymchwilwyr yn y maes hwn; a chynnal ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd sydd naill ai'n canolbwyntio ar faterion iechyd byd-eang, yn cynnwys cydweithio rhyngwladol, neu'n cael ei gyhoeddi a'i ddefnyddio gan gynulleidfa ryngwladol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r cyllid sy'n cefnogi'r gwaith hwn, gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill. Cynhwysir gwybodaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy arolygon a chyfweliadau, ac mae'r adran yn cloi gyda dadansoddiad o'r sector hwn.*

Mae gan Gymru wyth prifysgol, sy'n darparu addysg o ansawdd uchel i fwy na 140,000 o fyfyrwyr is-raddedig ac ôl-raddedig yn flynyddol. Mae tair ohonynt (Abertawe, Aberystwyth a Chaerdydd) wedi'u gosod ymhlith y 500 prifysgol uchaf yn fyd-eang,[62] ac mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell sy'n cynnwys prifysgolion blaenaf y Deyrnas Unedig. Yn y gwerthusiad Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) diweddaraf, cafodd pob un o'r wyth sefydliad eu graddio naill ai'n aur neu'n arian.[63] Canfu y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) bod 77% o'r ymchwil a gyflwynwyd o brifysgolion Cymru naill ai o safon sy'n "arwain y byd" neu'n "rhagorol yn rhyngwladol",[64] gyda 49% yn cael effaith y tu hwnt i academia: y gyfran uchaf yn unrhyw un o ranbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae pob prifysgol yn cynnal addysg o ryw fath yn y gwyddorau iechyd neu'r gwyddorau bywyd, mae dwy ysgol feddygol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal hyfforddiant is-raddedig neu ôl-raddedig mewn nyrsio neu broffesiynau perthynol i Iechyd.

### 5.1 CYLLID A CHEFNOGAETH ARALL I'R SECTOR ACADEMAIDD

Caiff Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru eu rheoleiddio a'u cyllido'n rhannol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).[65] Caiff y corff hwn ei gyllido gan, ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio i ddatblygu yn ogystal a gweithredu ei pholisi ym maes addysg uwch. Eleni, mae'n darparu £171.5m i SAUau, gostyngiad o'r gyllideb o £178m a oedd wedi'i chynllunio yn sgil pandemig y coronafeirws.[66] Mae £71m o'r swm hwnnw yn cefnogi ymchwil drwy fformiwla sy'n gysylltiedig ag ansawdd (QR, h.y. yn cael ei ddarparu'n gymesur ag ansawdd ymchwil y sefydliad), a darparwyd £7.5 drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, sy'n cefnogi gwaith i drosi gweithgareddau er mwyn cael effaith gymdeithasol ac economaidd.

Mae YGIC (a ddisgrifir yn adran 4) yn cynnig nifer o gynlluniau cyllido ymchwil, yn cefnogi canolfannau ymchwil, ac yn tynnu sylw at gyfleoedd cyllido eraill yn y Deyrnas Unedig megis grantiau NIHR. Mae gwariant llywodraeth ar Ymchwil a Datblygu yng Nghymru yn gymharol isel: yn 2018, roedd yn 2.1% o gyfanswm y Deyrnas Unedig ac 1.0% o gynnyrch domestig gros (GDP).[67] Nodwyd hyn fel gwendid yn Adolygiad Reid[74], ac mae gan Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig uchelgais i gynyddu gwariant Ymchwil a Datblygu yn sylweddol, i gyrraedd cyfartaledd yr OECD o 2.4% o GDP erbyn 2027. Yn hanesyddol, mae SAUau Cymru wedi bod yn ddibynnol iawn ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cyllid strwythurol a chystadleuol, ac maent wedi cael llai o lwyddiant o ran cael gafael ar gronfeydd cystadleuol y Deyrnas Unedig[68], ac mae angen i hynny newid nawr. Gwnaeth Adolygiad Reid (ar gyfer Cymru'n benodol)[68] ac Adolygiad Smith-Reid (ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan)[69] argymhellion ynglŷn â hynny, gan gynnwys newidiadau i lefelau a strwythurau cyllido, a'r cydweithio sydd ei angen er mwyn llwyddo. Ar hyn o bryd, mae'r prif ffynonellau cyllid cystadleuol yn cynnwys:

---

[62] QS Top Universities. QS World University Rankings 2021.

[63] Office for Students (2021) TEF Outcomes: Wales.

[64] Prifysgolion Cymru (2021). Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.

[65] Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Amdanom ni (2021).

[66] Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Dyraniadau cyllido HEFCW 2020-21.

[67] Llywodraeth Cymru Gwariant gros ymchwil a datblygu:2018.

[68] Llywodraeth Cymru (2018). Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru.

[69] Yr Athro Syr Adrian Smith a'r Athro Graeme Reid (2019). Changes and choices: Advice on future frameworks for international collaboration on research and innovation.

- Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Caiff y corff hwn ei noddi gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae'n dwyn y saith cyngor ymchwil disgyblaethol ac Innovate Uk ynghyd. O'r rhain, y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) a'r Cyngor Ymchwil Biodechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) sy'n ymwneud yn fwyaf penodol ag iechyd, ond mae cysylltiad â'r lleill hefyd. UKRI sy'n dosbarthu'r rhan fwyaf o gyllid ymchwil Y Deyrnas Unedig gyfan trwy un neu fwy o'i gynghorau penodol, gyda gwariant o bron i £8bn yn 2019-20 ar draws pob disgyblaeth.[70] Roedd hyn yn cynnwys £356m i gefnogi datblygiad partneriaethau byd-eang, mewn gwledydd datblygedig (drwy'r Gronfa ar gyfer Cydweithio Rhyngwladol) a GIICh (Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang a Chronfa Newton).
- Horizon Ewrop (Horizon 2020 gynt). Dyma raglen cyllido cystadleuol €95bn yr Undeb Ewropeaidd, sydd yn dal ar gael i SAUau y Deyrnas Unedig wedi Brexit.[71] Mae Cymru wedi derbyn cyfanswm o €139m trwy'r cynllun hwn, i SAUau a'r sector breifat, gan gyfrannu at 5,000 o ddolenni cydweithio gyda 78 o wledydd.[72] Yn 2019, dyfarnwyd £1.5m o'r cyllid hwn i brosiectau â chysylltiad ag iechyd a £3.6m pellach i fiodechnoleg. Caiff sefydliadau yng Nghymru gefnogaeth gyda'u cynigion drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Llywodraeth Cymru, a gallant ymgeisio am gyllid hadu drwy'r swyddfa honno i gefnogi datblygiad cynnar prosiectau a allai fynd ymlaen i sicrhau cyllid Horizon Ewrop.[73]
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) Mae'r corff hwn yn darparu grantiau ar gyfer gwaith iechyd yn benodol, wedi'i gyllido i raddau helaeth drwy Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig (DHSC) ac mae'n derbyn rhywfaint o gyllid ODA ar gyfer gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar iechyd byd-eang.
- Wellcome Trust: ymddiriedolaeth elusennol sy'n cyllido ymchwil i iechyd a lles, gan ganolbwyntio'n canolbwyntio'n benodol ar gydweithio rhyngwladol a materion iechyd byd-eang. Un anfantais sy'n gysylltiedig â chyllido elusennol ydy, yn wahanol i gronfeydd UKRI, anaml y caiff ei ddarparu ar sail model Costau Economaidd Llawn (h.y. caiff gweithgareddau eu cyllido, ond ni chyllidir seilwaith y brifysgol sy'n cefnogi hynny).

Mae'n hanfodol bod SAUau Cymru yn gallu cystadlu am y cronfeydd hyn, sydd ar raddfa na ellid disgwyl i Lywodraeth Cymru ei hatgynhyrchu.

Mae SAUau yn cynnal cyswllt â'i gilydd drwy Brifysgolion Cymru, corff cynrychioladol sy'n dwyn Is-Gangellorion yr wyth SAU a chyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru ynghyd, ac sy'n rhan o Universities UK.[74]

## 5.2 YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL CYFFREDINOL PRIFYSGOLION

Mae ymgysylltu byd-eang cyffredinol gan SAUau Cymru yn allweddol o safbwynt eu hymgysylltu byd-eang ym maes iechyd, gan ei fod yn creu'r proffil a'r cysylltiadau sy'n ei gefnogi. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn bwysig i bob prifysgol - maent yn cyfoethogi eu diwylliant, yn creu cysylltiadau parhaus gyda gwledydd eraill, yn cyfrannu at ymchwil, ac yn dod â chyllid sy'n cefnogi'r brifysgol yn gyffredinol. Mae llawer yn dychwelyd i'w gwledydd gwreiddiol gyda sgiliau a chymwysterau newydd ac, os cawsant brofiadau cadarnhaol, gallent weithredu fel llysgenhadon dros Gymru. Ym mlwyddyn academaidd 2019-20, roedd myfyrwyr rhyngwladol yn ffurfio rhwng 9.6% (Prifysgol De Cymru) a 17.5% (Prifysgol Caerdydd) o gorff myfyrwyr Cymru.[75]

Mae Prifysgolion Cymru yn gweithio'n agos gydag Universities UK International, sydd yntau yn gweithio gyda llywodraethau a chyrff eraill i greu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol gan SAUau. Mae'n rhan hefyd o bartneriaeth Cymru Fyd-eang, gyda HEFCW, Llywodraeth Cymru a British Council Cymru, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru.[76] Mae Cymru Fyd-eang yn darparu cymorth strategol gan anelu at gynyddu a chael mwy o

[70] UK Research and Innovation. Annual report and accounts 2019-20.

[71] Y Comisiwn Ewropeaidd (2021). Horizon Europe.

[72] Llywodraeth Cymru Horizon 2020: adolygiad 2019-20.

[73] Llywodraeth Cymru (2021). SCoRE Cymru: Cefnogi Ymdrechion Ymchwil Gydweithredol ac Arloesi.

[74] Prifysgolion Cymru (2021). Am Brifysgolion Cymru.


[75] SIUK (2021). UK University Profiles.

[76] British Council Cymru (2021). Cymru Fyd-eang - partneriaeth addysg uwch yng Nghymru

amrywiaeth mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, a phartneriaethau sefydliadol ac ymchwil. Mae'r marchnadoedd blaenoriaeth yn cynnwys yr Undeb Ewropeaidd, Yr Unol Daleithiau, India a Fietnam. Mae Cymru Fyd-eang yn cynnig ysgoloriaethau i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru (gweler isod).

Caiff SAUau Cymru eu cynrychioli yn Ewrop drwy Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB), sy'n cael ei gyllido gan yr wyth prifysgol a HEFCW ac yn cael cefnogaeth gan Brifysgolion Cymru.[77] Ei nod ydy cefnogi ymgysylltiad Cymreig ar draws Ewrop, trwy drefniadau cydweithredu sefydliadol ac ymchwil a mynediad at gyllid, ac i hyrwyddo SAUau Cymru i ddarpar fyfyrwyr ac academyddion yn yr UE. Mae WHEB yn aelod o Rwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop, sy'n cynnwys dros 100 o ranbarthau a phrifysgolion Ewropeaidd sydd a swyddfeydd ym Mrwsel, a rhwydwaith UNiLiON o 48 o swyddfeydd cyswllt prifysgolion ym Mrwsel, sy'n cynrychioli bron i 150 o brifysgolion ledled Ewrop, Japan a Rwsia.

Mae gan nifer o SAUau Cymru gampysau tramor, ac mae gan bob un ohonynt bartneriaethau strategol gydag un neu fwy o brifysgolion tramor, a ddangosir yn Ffigwr 6. Y partneriaethau mwyaf cyffredin ydy rhai gyda SAUau yn yr Unol Daleithiau, Ewrop a Tsieina, ond mae dosbarthiad eang ledled y byd, ac mae nifer o bartneriaethau yn rhai gyda sefydliadau mewn GIICh. Fel enghraifft o'r manteision a ddaw yn sgil y trefniadau hyn, mae partneriaeth Prifysgol Caerdydd gyda KU Leuven yng Ngwlad Belg wedi cynorthwyo twf trefniadau ymchwil cydweithredol a cheisiadau cyllid ar y cyd, gan arwain at ddyblu cyhoeddiadau cydweithredol ers ffurfio'r bartneriaeth. Maent yn datblygu rhaglen graddau meistr ar y cyd ac ysgoloriaethau ymchwil PhD ar y cyd.




**Ffigwr 6: Gwledydd ble mae gan brifysgolion Cymru sefydliad partner strategol.**

Mae nifer o gynlluniau yn cefnogi cynlluniau cyfnewid rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr neu ymchwilwyr:

- Rhaglen Erasmus+, sy'n cefnogi cynlluniau cyfnewid i mewn ac allan o'r Deyrnas Unedig. Mae'r DU wedi colli mynediad at y cynllun hwn yn ddiweddar, dan delerau'r cytundeb ymadael â'r UE. Rhwng 2014-18, myfyrwyr ac aelodau staff o SAUau Cymru oedd tua 5% o gyfanswm cyfranogiad y DU yn y cynllun.[78]
- Cynllun Turing, sef cynllun Llywodraeth y DU i gymryd lle Erasmus+. Yn dechrau ym mis Medi 2021, bydd y cynllun hwn yn ehangu cyfleoedd i wledydd y tu hwnt i Ewrop ond, yn wahanol i Erasmus+, dim ond symudiadau allan o'r DU a gefnogir ganddo.

[77] Addysg Uwch Cymru Brwsel: Ynglŷn ag AUCB. (2021)

[78] Erasmus+: Statistics (2021).

- Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.[79] Buddsoddiad o £65m ydy hwn, rhwng 2022 a 2027, sy'n ceisio cymryd lle'r holl weithgaredd Erasmus+ lle bo modd, gan gynnwys yr elfen ddwyochrog. Mae'n anelu at gynorthwyo 10,000 o fyfyrwyr i ddod i astudio yng Nghymru, yn ogystal â 15,000 i fynd dramor.
- Sêr Cymru. Cafodd y cynllun hwn ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a phrifysgolion a'i nod oedd denu ymchwilwyr talentog i Gymru. Mae wedi cau bellach.
- Ysgoloriaethau Cymru Fyd-eang: mae nifer o opsiynau ar gyfer astudiaethau is-raddedig neu ôl-raddedig o'r Undeb Ewropeaidd, yr Unol Daleithiau, India neu Fietnam, gan gynnwys Ysgoloriaethau Chevening (gweler isod).
- Ysgoloriaethau'r Gymanwlad, sy'n cefnogi astudiaethau ôl-raddedig yn y Deyrnas Unedig i unigolion o wledydd eraill y Gymanwlad. Daw'r cyllid yn bennaf gan FCDO, gyda chyfraniadau mewn da gan brifysgolion. Ym mlwyddyn academaidd 2019-20, cymrodd chwech o brifysgolion Cymru (o blith 92 o bob rhan o'r DU) ran yn y cynllun hwn.[80]
- Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau Chevening, sy'n dod ag "arweinwyr y dyfodol" i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â chyrsiau byr, ymchwil, neu leoliadau gwaith proffesiynol.[81] Caiff rhain eu cyllido gan FCDO a sefydliadau partner, a chaiff y rhai sy'n derbyn y cyfleoedd eu dethol drwy lysgenadaethau ac Uchel Gomisiynau Prydain dramor. Caiff deuddeg o Ysgoloriaethau Chevening eu cyllido yng Nghymru trwy raglen Cymru Fyd-eang.

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y colledion a achoswyd gan Brexit ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i lenwi'r bylchau a adawyd gan gynlluniau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i gymryd eu lle.

## 5.3 HYFFORDDIANT GOFAL IECHYD

Mae Cymru'n cefnogi hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ar gyfer meddygon, nyrsys, bydwragedd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae gan y Deyrnas Unedig yn gyffredinol enw da yn rhyngwladol am ddarparu addysg o ansawdd uchel mewn gofal iechyd a gwyddorau bywyd, gan olygu ei bod yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer myfyrwyr tramor. Bydd llawer o'r myfyrwyr hyn yn dychwelyd i'w gwledydd gwreiddiol ac yn cyfrannu at ddarpariaeth gofal iechyd yno. O'r rhai sy'n aros yng Nghymru, bydd rhai yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil neu glinigol cydweithredol rhyngwladol, neu'n ymuno â gweithgareddau gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd mewn gwledydd incwm isel a chanolig (GIICh). Felly, mae darparu'r hyfforddiant hwn yng Nghymru ynddo'i hun yn cyfrannu tuag at wella iechyd yn fyd-eang.

Rydym wedi canfod nifer o enghreifftiau hefyd o weithgaredd rhyngwladol penodol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant gofal iechyd Cymru.

- Mae Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe yn datblygu cysylltiadau gyda Phrifysgol Feddygol Xuzhou yn Tsieina, gyda "datganiad o fwriad" wedi'i arwyddo'n ddiweddar, yn dilyn ymweliadau y ddwy ffordd gan aelodau staff academaidd a chlinigol. Mae rhaglen ar y cyd gyda Phrifysgol Trent yng Nghanada wedi ei chymeradwyo, gyda myfyrwyr o Ganada yn ymuno â Phrifysgol Abertawe i gwblhau eu hastudiaethau. Mae Dolen Abertawe-Gambia yn bartneriaeth myfyrwyr a staff sy'n weithredol ers 2007, gydag ymweliadau'r ddwy ffordd a gwaith ar y cyd ar addysgu ac ymchwil. Ceir cysylltiadau hefyd gyda Bangladesh, a Wuhan yn Tsieina.
- Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd yn annog ymgysylltu rhyngwladol, gan weld manteision o safbwynt dinasyddiaeth fyd-eang, dysgu dwy-ffordd a datblygu persbectif ehangach ar faterion iechyd. Ceir cysylltiadau gyda sefydliadau mewn nifer o wledydd, gan gynnwys India, Awstralia, yr Unol Daleithiau a Tsieina, a rhaglen helaeth o "leoliadau dewisol" tramor (cyfnodau byr ar leoliad i fyfyrwyr meddygol). Mae tua 40 o fyfyrwyr y flwyddyn yn gwneud cwrs byr mewn iechyd byd-eang, ac mae cynlluniau i ddatblygu cwrs tebyg mewn meddygaeth ddyngarol. Mae aelodau'r Ysgol wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Prosiect Phoenix (gweler adran 5.4) ac ar hyn o bryd, maent yn cyflawni gwaith gwella gyda chydweithwyr yn Zambia. Mae rhaglen gofal lliniarol byd-eang wedi'i sefydlu

---

[79] Llywodraeth Cymru (2021). Datganiad i'r wasg: Rhaglen Cyfnewidfa Dysgu Rhyngwladol newydd i wneud iawn am golli Erasmus+.

[80] Commonwealth Scholarship Commission in the UK. Delivering a common future: Annual report for the year ending 30th September 2020.

[81] Chevening (2021): About Chevening.

ers tro, sy'n cynnwys cwrs dysgu o bell sydd wedi addysgu dros 3,000 o feddygon ers 1989, a chefnogaeth ar gyfer datblygu mewn gwledydd ledled y byd.

- Mae gan Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd lawer o gysylltiadau tramor hefyd, gan gynnwys cysylltiadau â Malawi a Tsieina ym maes optometreg, â Ghana a Tsieina mewn deintyddiaeth, ac â Tsieina mewn Fferylliaeth. Mae rhai cyfleoedd tramor, ar draws yr Ysgol hon a'r Ysgol Feddygaeth, yn cael eu cefnogi gan gyllid y brifysgol, a chyfleoedd eraill gan gynlluniau allanol. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, mae'r Ysgolion wedi ymgeisio i gynllun Turing am gyllid i anfon myfyrwyr i 45 o wledydd.
- Mae Phrifysgol Glyndŵr wedi sefydlu cydweithrediad gyda St Augustine yn Florida, yn canolbwyntio ar addysg ryng-broffesiynol sy'n seiliedig ar efelychu, dan arweiniad therapydd galwedigaethol.
- Mae Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor wedi datblygu MOOC Ymddygiadau ac Arfer Gorau Atal Heintiadau, sydd ar gael am ddim ac sy'n arwain at dystysgrifo gan Brifysgol Bangor am ffi fach. Mae staff gofal iechyd ym mhob rhan o'r byd wedi cwblhau'r cwrs ac roedd ar restr fer Gwobrau'r Nursing Times yn 2020.

Nodir enghreifftiau eraill, sy'n gysylltiedig â chanolfannau neu bynciau penodol, mewn mannau eraill.

**Canolfan Gydweithredu'r WHO ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd**

Cafodd Canolfan Gydweithredu'r WHO (WHOCC) ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth ei sefydlu yn 2016 a dim ond dwy ganolfan gydweithredu o'r fath sy'n bodoli yn fyd-eang. Ei rôl ydy cynorthwyo'r WHO i gryfhau addysg ac ymarfer bydwreigiaeth ym mhob un o 53 aelod-wladwriaeth rhanbarth Ewropeaidd yr WHO, gyda'r nod o wella ansawdd gofal i famau a babanod. Mae'n gweithio felly mewn cydweithrediad agos â Swyddfa Ranbarthol yr WHO ar gyfer Ewrop a phencadlys yr WHO yng Ngenefa, ac mae'n rhan o'r Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Canolfannau Cydweithredu Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae llawer o waith yr WHOCC yn canolbwyntio ar wledydd incwm isel a chanolig Dwyrain Ewrop, lle nad oes gan fydwreigiaeth fel disgyblaeth broffil uchel neu lle nad yw'n bodoli o gwbl. Ar lefel ymarferol, cafodd ei chomisiynu gan WHO EURO i greu pecyn hunan-werthuso ar gyfer datblygu addysg bydwreigiaeth – y Pecyn Asesu Bydwreigiaeth ar gyfer Addysg – ac mae'n darparu cefnogaeth gyda defnyddio'r pecyn. Yn strategol, mae'r berthynas ffurfiol gyda'r WHO yn galluogi WHOCC Caerdydd i gyfrannu at wneud penderfyniadau strategol ledled rhanbarth Ewrop a thu hwnt. Mae hyn o fudd i Brifysgol Caerdydd, gan ei fod yn codi ei phroffil ac yn denu myfyrwyr o ansawdd uchel, ac mae o fudd i Gymru, gan fod ei haelodau yn ymgymryd yn naturiol a rôl lysgenhadol. Mae aelodau staff yn cael boddhad o'r cydweithrediadau rhyngwladol, sy'n dod â heriau newydd a synnwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ffaith bod Cymru mor fach wedi eu galluogi i ennyn diddordeb a chefnogaeth ledled y wlad, ac i greu cysylltiadau o fewn y llywodraeth.

Mae cefnogaeth gan aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Swyddog Nyrsio a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â chyllid gan Brifysgol Caerdydd wedi bod yn hollbwysig o safbwynt dynodiad a llwyddiant parhaus yr WHOCC. Ond, er gwaethaf ei sefyllfa unigryw bron a'i phroffil uchel yn fyd-eang, mae'r WHOCC ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth yn dioddef o'r un cyfyngiadau ar weithgaredd ag y gwelwn ni mewn cymaint o feysydd eraill: capasiti staff a chyllid. Y brifysgol ydy'r unig ffynhonnell cyllid ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r WHOCC yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â dyletswyddau eraill, heb amser ychwanegol. Mae'r ffaith bod Cymru'n canolbwyntio ar Affrica yn cyfrannu at y cyfyngiadau, gan fod y grantiau hynny ddim ar gael ar gyfer gwaith mewn GIICh yn Nwyrain Ewrop, er enghraifft. Mae'r sefydliad hwn yn bluen yn het Cymru, a gallai wneud mwy fyth gyda chefnogaeth ariannol ychwanegol.

## 5.4 YMCHWIL GWYDDORAU IECHYD A BYWYD

Er gwaethaf lefelau ariannu cymharol isel, mae Cymru'n perfformio'n gryf ym maes ymchwil. Canfu astudiaeth yn 2016 bod Cymru, ar draws pob pwnc, yn gyfrifol am 0.14% o ymchwilwyr yn fyd-eang, ond 0.47% o'r cyfeiriadau at waith yn fyd-eang a 0.59% o'r 1% o erthyglau y cyfeiriwyd atynt fwyaf.[82] Roedd effaith cyfeirio wedi'i bwysoli cyhoeddiadau Cymru


[82] Elsevier, i HECFW (2016). International Comparative performance of the Welsh research base 2010-2014: 2016 update.

68% yn uwch na'r cyfartaledd byd-eang. Roedd Cymru yn ail i Seland Newydd o ran nifer y cyhoeddiadau fesul uned o'i Gwariant Addysg Uwch ar Ymchwil a Datblygu, ac yn gyntaf yn y byd yn ôl Gwariant Llywodraeth ar Ymchwil a Datblygu. Mewn geiriau eraill, mae ymchwilwyr Cymru yn cynhyrchu mwy, am lai.


O safbwynt ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd, mae hyd yn oed gweithgaredd sydd wedi'i seilio'n gyfan gwbl yng Nghymru yn gallu cyfrannu at wella iechyd byd-eang, trwy fod yn gyffredinol berthnasol a thrwy effaith rhyngwladol ar gyhoeddiadau. Ond mae'n gyffredin iawn fod ag elfen o gydweithredu gyda sefydliadau eraill yn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol. Mae cydweithredu ar ymchwil a chyhoeddiadau mawr eu heffaith yn cyfrannu at yr enw da sy'n denu myfyrwyr tramor, gan fwydo cylch adborth cadarnhaol o ymgysylltu rhyngwladol a rhagoriaeth.

Canfu dadansoddiad o gronfa ddata ymchwil SAUau Cymru ar gyfer yr adolygiad hwn, wedi'i hidlo ar gyfer cyhoeddiadau ar destunau clinigol, cyn-glinigol ac iechyd ac yn cwmpasu cyfnod 2015-21, bod wyth prifysgol Cymru yn cydweithio gyda bron i 4,000 o sefydliadau mewn 142 o wledydd ac ar bob cyfandir ac eithrio Antarctica.[83] Mae'r sefydliadau y cydweithir fwyaf aml â nhw yn Awstralia, Ewrop, Tsieina a'r Unol Daleithiau. Mae Ffigwr 7 yn dangos y deg gwlad uchaf o ran y nifer o sefydliadau sy'n cydweithio gyda SAUau Cymreig. Mae Ffigwr 8 yn crynhoi dosbarthiad daearyddol cydweithrediadau ymchwil rhyngwladol ym maes iechyd ar gyfer pob SAU: mae'r mwyafrif yn Ewrop, gyda naill ai rhanbarth Asia a'r Môr Tawel neu Ogledd America nesaf.

[83] Cronfa ddata Scopus, wedi'i chwilio ar ein rhan ym mis Mai 2021.




**Ffigwr 7: Nifer o sefydliadau sy'n cydweithio â SAUau Cymreig yn y 10 gwlad uchaf o ran cydweithio, dros y pum mlynedd diwethaf.**




**Ffigwr 8: Nifer o gydweithrediadau ymchwil rhyngwladol yn SAUau Cymru a chyfrannau'r rhain ym mhob rhanbarth byd-eang, dros y pum mlynedd diwethaf.**
PCYDDS: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant P De Cymru: Prifysgol De Cymru

Ceir cryn gydweithredu hefyd o fewn Cymru, gyda chefnogaeth Ymchwil Gofal Iechyd Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Gwyddorau Bywyd Cymru. Caiff yr olaf o'r rhain ei arwain gan Brifysgol Caerdydd ac mae'n anelu at ddwyn ymchwilwyr gwyddorau bywyd, diwydiant ac eraill ynghyd i hyrwyddo rhagoriaeth ac i gefnogi ceisiadau cydweithredol am gyllid, mewn meysydd ble ceir angen clinigol sydd heb ei ddiwallu.[84] Mae YGIC yn cwmpasu ymchwil drosi ac ymchwil

[84] Rhwydwaith Ymchwil Gwyddorau Bywyd Cymru: Cam 2. (2021)

gymhwysol gan gynnwys iechyd y cyhoedd (gweler adran 4.3.2) ac mae'n cefnogi nifer o unedau ymchwil clinigol. Mae Tabl 4 yn crynhoi'r rhai sydd â gweithgaredd rhyngwladol arwyddocaol.

| Canolfan/grŵp (cefnogir gan YGIC) | Gweithgaredd rhyngwladol |
|---|---|
| Y Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol (NCMH) | • Partneriaeth gyda Takeda Pharmaceutical Company Limited ar gyfer cydweithrediad darganfod cyffuriau.<br>• Menter Hunan-niweidio De Asia a gyllidwyd gan GCRF<br>• Cyllid Ewropeaidd ar gyfer ymchwil i iechyd meddwl menywod.<br>• Rolau arweiniol yn y Consortiwm Genomeg Seiciatryddol rhyngwladol.<br>• Ymchwil ar seicosis ar ôl genedigaeth yn Malawi ac India. |
| Canolfan PRIME Cymru (Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys) | • Cydweithredu rhyngwladol mewn sawl llif gwaith.<br>• Wedi arwain trafodaethau'r WHO i baratoi Cynllun Gweithredu Diogelwch Cleifion Byd-eang (2020-2030).<br>• Wedi datblygu arolwg cleifion rhyngwladol trwy Weithgor yr OECD. |
| Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) | Data anarferol o gyflawn a chydgysylltiedig gydag enw da byd-eang: un o gryfderau penodol Cymru. Cydweithredu gyda llawer o wledydd a chysylltiadau rhyngwladol personol. |
| Banc Canser Cymru (WCB) | • Gall ymchwilwyr leded y byd wneud cais am fiosamplau a/neu ddata. Allweddol i ymchwil sy'n trosi'n newid i ymarfer, datblygu a gwneud y gorau o therapïau er budd cleifion yn genedlaethol ac yn fyd-eang.<br>• Mae ei reolwr gweithredol yn arwain y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Storfeydd Biolegol ac Amgylcheddol ar gyfer rhanbarth Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica |
| Canolfan Ymchwil Canser Cymru (CYCC) | Cysylltiadau gyda Sefydliad Ymchwil Bôn-gelloedd Canser Ewrop, sydd a chydweithredwyr byd-eang. |
| Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth (NCPHWR) | • Yn gweithio'n rhyngwladol drwy ICC, WHOCC a IANPHI i uchafu incwm grantiau i Gymru.<br>• Mae setiau data wedi'u cysoni yn hwyluso cymariaethau yn y DU ac yn rhyngwladol ac yn galluogi gwaith cydweithredol. Canfyddiadau'n cael eu rhannu'n rhyngwladol.<br>• Mae'r Ganolfan yn rhan o Seilwaith Ymchwil Gwybodaeth Iechyd Poblogaethau, rhwydwaith o 41 partner a 30 gwlad sy'n ymchwilio i effeithiau poblogaethol COVID-19. |
| Unedau Treialon Clinigol | |
| Canolfan Caerdydd ar gyfer Ymchwil Treialon | • Yn arwain consortiwm sy'n cynnwys nifer o wledydd ledled Ewrop, yn delio ag iechyd a gofal cymdeithasol pobl sydd ag afiechydon ar yr ymennydd.<br>• Cafodd gyllid ar gyfer astudiaeth i ofal mamolaeth yn ystod achosion COVID-19, yn cynnwys cofrestrfa fyd-eang o fenywod yr effeithiwyd arnynt yn ystod beichiogrwydd. |
| Cymdeithas Hap-Dreialon Iechyd Gogledd Cymru (NWORTH) | Mae cydweithrediadau rhyngwladol yn cynnwys astudiaeth ar seicotherapi, yn Libanus a Kenya, a gwaith gyda Choleg Ewropeaidd Gerodontoleg. |
| Uned Treialon Abertawe | Treial rhyngwladol diabetes Math 1, a gefnogir gan y Comisiwn Ewropeaidd.<br>Astudiaeth ar achosion ac effaith COVID-19 yn Bangladesh, gan ddatblygu ar gydweithrediad a fodolai rhwng Prifysgol Abertawe a Bangladesh ac wedi'i gyllido drwy GCRF. |
| Economeg Iechyd a Gofal Cymru | • Yn cyfrannu arbenigedd economaidd i ymchwil yn y Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang.<br>• Yn cydweithio gyda Norwy, yr Almaen, a'r Ffindir i gymharu cost-effeithiolrwydd triniaethau ar gyfer clefyd rhydweli ymylol. |
| Y Ganolfan datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) | • Astudiaethau yn cynnwys cydweithredu rhyngwladol gyda nifer o wledydd, ar draws pob cyfandir.<br>• Canfyddiadau'n cael eu rhannu'n fyd-eang.<br>• Datblygiadau polisi ac ymarfer yn cael effaith yn rhyngwladol. |
| Uned Cyweirio'r Ymennydd a Niwrotherapiwteg Mewngreuanol (BRAIN) | • Yn cynnal treialon rhyngwladol yn eu cyfleuster ymchwil clinigol, gan gynnwys treial pwysig ar gyfer triniaeth i Glefyd Huntington.<br>• Mae aelodau'n arwain gweithgorau mewn meysydd arbenigol, wedi'u cyllido gan rwydweithiau Ewropeaidd a byd-eang.<br>• Biobank yn cyflenwi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol. |
| Uned Ymchwil Arennol Cymru (WKRU) | Rhan o Raglen Chwaer Ganolfannau Cymdeithas Ryngwladol Arenneg: cysylltiadau clinigol ac ymchwil gyda Nanjing, Tsieina ac Addis Ababa, Ethiopia. |
| Uned Ymchwil Diabetes Cymru | • Effaith ryngwladol drwy ddatblygu therapïau a argymhellir yn fyd-eang.<br>• Ymchwil retinopatheg diabetig sydd wedi newid polisi cenedlaethol a rhyngwladol. |

**Tabl 4: Gweithgaredd rhyngwladol unedau ymchwil a gefnogir gan YGIC**

O'r rhain, mae Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn haeddu trafodaeth bellach, gan fod yr arbenigedd a'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â hyn yn rhoi enw da i Brifysgol Abertawe, ac i Gymru, o safbwynt rhagoriaeth mewn gwybodeg feddygol. Mae wedi ei gomisiynu a'i gyllido gan YGIC, ac Roedd aelodau o Lywodraeth Cymru yn allweddol i'w ddatblygiad. Mae'r banc data yn cysylltu nifer o setiau data Cymru-gyfan ynglŷn â data iechyd y boblogaeth, gan ddarparu adnodd hynod gyfoethog ar gyfer ymchwil. Mae academyddion yn cydweithio a grwpiau diddordeb arbennig ar draws y GIG, er enghraifft ar iechyd y cyhoedd, iechyd meddwl, dementia, trawma a COVID-19. Ceir cydweithio rhyngwladol eang, gan gynnwys gyda'r Unol Daleithiau, Awstralia ac Ewrop, ac mae gan yr aelodau staff cyswllt swyddi byd-eang dylanwadol, megis Cadeirydd yr Ymdrech Ryngwladol Gydweithredol ar Ystadegau Anafiadau, sydd wedi'i chartrefu yng Nghanolfan yr Unol Daleithiau ar gyfer Rheoli Clefydau. Grantiau cystadleuol UKRI ac Ewrop sy'n darparu'r mwyafrif llethol o'r cyllid ar gyfer ei waith.

Ceir grwpiau neu ganolfannau pwysig eraill. Mae Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd (CUBRIC) yn cynnal gwaith mapio ac ysgogi'r ymennydd er mwyn dod i ddeall cyflyrau niwrolegol a seiciatrig. Mae wedi

cael cryn lwyddiant yn cael gafael ar gyllid Ewropeaidd cystadleuol ac mae'n cynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd. Trafodir prosiect Phoenix, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd, a'r Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang, a leolir ym Mhrifysgol Abertawe, isod ac mewn astudiaethau achos. Mae'r Cyfleuster Ymchwil Glinigol ar y Cyd (Prifysgol Abertawe a BIPBA), mewn cydweithrediad â Grŵp Ymchwil Diabetes Abertawe, wedi ei ddynodi'n ganolfan ragoriaeth diabetes yn y Deyrnas Unedig gan Rwydwaith Byd-eang Sanofi.

Enghreifftiau eglurhaol ydy'r rhain, ac mae'n sicr y bydd rhagor nad ydym wedi'u canfod..

**Prosiect Phoenix**

Mae Prosiect Phoenix wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd, a'i nod yw lleihau tlodi, hyrwyddo iechyd a chefnogi amgylchedd cynaliadwy. Mae'n gweithredu trwy femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgolion Namibia a Zambia, ac fe wnaiff ystyried cefnogi unrhyw brosiect sydd â photensial ar gyfer cyd-ddatblygu arbenigedd ac effaith ar un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ystod eang o weithgareddau, gyda rhai o'r rheiny yn rhai nad ystyrid eu bod yn "gysylltiedig ag iechyd" yn arferol, ond sydd oll yn cael effaith ar benderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd. Mae arloesi yn gysylltiedig â llawer ohonynt ac maent wedi arwain at ddatblygu cynnyrch neu systemau newydd. Ymhlith yr enghreifftiau, mae:

- Datblygu rhaglenni hyfforddi anaesthesia a bydwreigiaeth, a rhaglen DPP i glinigwyr mewn ardaloedd anghysbell.
- Hyfforddi personél ymateb cyntaf (er enghraifft, swyddogion yr heddlu) mewn Meddygaeth Argyfwng, a chyflwyno "Pecyn Trawma Caerdydd" iddynt eu defnyddio mewn damweiniau ffordd.
- Cynnal cystadleuaeth ysgrifennu ffuglen i blant a rhaglen plannu coed i ysgolion, yng Nghymru a Namibia.
- Ymchwil ar ecosystemau dŵr croyw, gan gynnwys cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a phathogenau.
- Hyrwyddo cynhyrchu mêl er lles iechyd a chreu cyfoeth (lleihau tlodi).
- Ymchwil i ieithoedd lleol yn Namibia, gyda golwg ar wella dealltwriaeth cleifion o wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a thrafodaethau gyda gweithwyr iechyd.

Mae'r amrywiaeth hwn yn cefnogi sylfaen gyllido eang, gyda grantiau o raglen Cymru ac Affrica, Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang, cronfa Datblygu Ymyriadau Iechyd Cyhoeddus MRC, Wellcome Trust, THET, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y Cyngor Prydeinig, a llawer mwy. Caiff cynlluniau cyfnewid myfyrwyr, yn y ddau gyfeiriad, eu cefnogi gan raglenni Erasmus ac Ysgoloriaethau'r Gymanwlad. Mae Prifysgol Caerdydd yn darparu rhywfaint o gyllid craidd, sy'n rhoi cynhaliaeth gynaliadwy i'r amser staff craidd sydd ei angen er mwyn cystadlu am y cronfeydd eraill hyn. Mae rhwydweithio effeithiol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach a gwledydd partner yn cynyddu'r tebygrwydd o lwyddo gyda cheisiadau.

Serch hynny, nid yw'r prosiect yn gwbl ddiogel rhag digwyddiadau diweddar. Mae lleihau gwariant ODA y DU wedi peri i Gynghorau Ymchwil atal cyllid ar gyfer prosiectau rhyngwladol am y tro ac at ganslo rhaglen grantiau bresennol THET, gan orfodi i gynlluniau i ddatblygu prosiectau newydd yn Somaliland a Zambia gael EU gohirio. Mae cynlluniau cyfnewid myfyrwyr yn cael eu taro yn sgil colli mynediad at raglen Erasmus+, ac nid yw'r cynlluniau a gyllidir gan y DU i gymryd lle'r rhaglen hon yn cefnogi symudiad ymchwilwyr a myfyrwyr i mewn i'r DU – er bod gobaith y bydd cyfleoedd newydd yn deillio o raglen Cyfnewidfa Dysgu Rhyngwladol Cymru, a fydd yn cefnogi symud i mewn yn ogystal ag allan. Caiff gwaith datblygu prosiectau ei lesteirio gan gyfyngiadau teithio sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws.

Mae hyblygrwydd presennol y prosiect a'r berthynas gref rhwng y partneriaid yn helpu i liniaru ar yr effeithiau hyn. Er ei bod yn amlwg nad yw'n gweddu i gapasiti a sgiliau pob sefydliad, mae'n cynnig model y gallai eraill edrych arno o safbwynt datblygu gwytnwch yn wyneb newid.

## 5.5 IECHYD BYD-EANG NEU WEITHGAREDD RHYNGWLADOL

Mae'r wybodaeth uchod yn cwmpasu "gweithgaredd rhyngwladol" a gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar "iechyd byd-eang", ac mae gwahaniaeth cynnil rhyngddynt, er bod y ddau'n gorgyffwrdd ar adegau. Mae'r cyntaf yn cynnwys ymchwil a phrosiectau eraill, gyda rhywfaint o hyn yn arwain y byd, mewn meysydd sy'n berthnasol ar lefel eang ac sy'n cynnwys elfen o gydweithio neu rannu gwybodaeth mewn gwledydd eraill ar draws y byd. Mae'r ail yn ymwneud ag ymchwil a phrosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd sy'n benodol i wledydd eraill, a'r rheiny'n aml yn GIICh: er enghraifft, clefydau penodol, anghenion hyfforddi, neu nodweddion systemau iechyd. Mae'r gwahaniaeth hwn yn berthnasol i bob sector. Mae rhai gwahaniaethau ymarferol sy'n berthnasol i weithgaredd iechyd byd-eang:

- Mae angen arbenigedd penodol, nid yn unig yn y pwnc dan sylw, ond mewn rheoli'r berthynas bartneriaeth, ble ceir risg y gall anghyfartaledd grym ffafrio'r partner sydd â'r incwm uchaf.
- Mae angen cyllid penodol, wedi'i ddynodi ar gyfer gwaith sydd â'i brif sylw oddi allan i'r DU. Fel rheol, mae hyn yn golygu naill ai ODA y DU (yn academia drwy ffrydiau grantiau penodol, e.e., GCRF neu rai cronfeydd NIHR) neu gyllid elusennol.
- Mae'n cyfrannu'n fwy uniongyrchol at wella iechyd (gan gynnwys gofal iechyd) mewn GIICh.
- Mae'n gallu dod â manteision penodol i bartneriaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, drwy gyfoethogi'n ddiwylliannol, ehangu persbectif, a boddhad trwy synnwyr cynyddol o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Ceir enghreifftiau o waith ar iechyd byd-eang drwy gydol yr adolygiad hwn ac rydym yn dwyn rhai ynghyd yma, er mwyn dangos y rhychwant o weithgareddau sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn cefnogi rhychwant o weithgareddau, a hynny'n aml drwy arbenigedd na fyddai'n cael ei gysylltu ag iechyd yn draddodiadol. Er enghraifft, mae gwaith yn ei Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ar afiechydon trofannol yn cynnwys datblygu pigmentau lliw newydd i ddenu mosgitos, a thechnegau delweddu â lloeren er mwyn rhagweld achosion o afiechydon yn dilyn llifogydd. Mae'r Brifysgol yn meddu ar arbenigedd yng ngwleidyddiaeth iechyd byd-eang a diogelwch iechyd, drwy ei Hadran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, ac mae academyddion yma wedi cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae Prifysgol Bangor yn rhoi cartref i Fenter Hunan-niweidio De Asia a'r MOOC atal heintiadau sydd wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol yn fyd-eang. Mae ymchwilwyr wedi derbyn cyllid GCRF neu NIHR ar gyfer prosiectau ar atal trais yn Jamaica, trin afiechyd cardiofasgwlaidd yn Affrica is-Sahara a gwerthuso cyflenwadau dŵr o ran feirysau pathogenig yn Nigeria a De Affrica. Mae prosiectau perthnasol mewn adrannau nad ydynt yn rhai iechyd, sydd oddi allan i gwmpas yr adolygiad hwn, megis gwaith ar wella maeth drwy ddethol cnydau.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn cartrefu Prosiect Phoenix, sydd â rhychwant eang o weithgaredd iechyd byd-eang (gweler yr astudiaeth achos), a gweithgareddau hyfforddi amrywiol ar gyfer myfyrwyr meddygaeth a myfyrwyr gofal iechyd eraill. Mae'r WHOCC ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth yno (gweler yr astudiaeth achos) yn gweithio gyda GIICh yn rhanbarth Ewrop. Mae ei hacademyddion wedi ymwneud ag astudiaethau ar dementia mewn GIICh, ymwrthedd gwrthficrobaidd yn Fietnam a Tsieina, ymyriadau cymunedol i wella iechyd mamau a phlant yn Ne Affrica, diffyg maeth mewn plant yng Ngorllewin a Chanolbarth Affrica, ac ymchwil COVID-19 yn Kenya.
- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi derbyn cyllid GCRF ar gyfer gwaith ar wella cefnogaeth gofal iechyd mewn cymunedau gwledig yn India.
- Mae Abertawe yn gartref i'r Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang (gweler yr astudiaeth achos, adran 7.2), sydd wedi ei chyllido Grŵp Ymchwil Iechyd Byd-eang NIHR: yr unig grŵp o'r fath yng Nghymru ac un sy'n cyfrannu'n helaeth at ddatblygiadau ym maes rheoli llosgiadau mewn lleoliadau prin eu hadnoddau. Ceir llawer o gysylltiadau rhwng rhaglenni hyfforddi gofal iechyd a GIICh, yn ogystal â gwaith perthnasol mewn adrannau nad ydynt yn rhai iechyd, megis y Sefydliad Ymchwil Dŵr.
- Mae gan Ysgolion Meddygaeth Caerdydd ac Abertawe gysylltiadau gweithredol gyda GIICh ac maent yn rhannu dysgu drwy gynlluniau cyfnewid i'r ddau gyfeiriad.
- Mae GIG Cymru'n cefnogi Partneriaethau Iechyd a gweithgareddau gwirfoddol eraill, a ddisgrifiwyd yn adran 4.3.3, sy'n cyfrannu at weithgaredd hyfforddi a chryfhau systemau iechyd mewn nifer o wledydd ac arbenigeddau.

- Byddai'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd iechyd rhyngwladol yn y sector nid-er-elw yn cael ei ystyried yn weithgaredd sy'n canolbwyntio ar iechyd byd-eang. Mae gan Gymru ased arbennig yma, sef Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, sy'n dwyn y rhai sy'n weithredol yn y maes penodol hwn ynghyd.

Mae'n amlwg y ceir gweithgareddau amrywiol ym maes iechyd byd-eang yng Nghymru, wedi'i wasgaru ar draws y wlad ac yn cysylltu â'r rhan fwyaf o ranbarthau daearyddol yn fyd-eang, ac yn cynnwys llawer o wahanol feysydd arbenigedd. Ceir cysylltiadau anffurfiol yn aml rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith, ac ar lefel fwy ffurfiol, mae'r sector nid-er-elw yn cael budd o waith Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, ac mae'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd yn cydlynu rhywfaint ar waith y GIG. Fodd bynnag, nid ydym wedi canfod unrhyw gyrff na rhwydweithiau sy'n cefnogi neu'n integreiddio'r gwaith hwn mewn ffordd mwy strwythurol.

## 5.6 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR ACADEMAIDD I IECHYD RHYNGWLADOL

### Pandemig y coronafeirws

Ar draws y ddau arolwg, adroddodd 92% o'r ymatebwyr academaidd am effaith gan y pandemig a chafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â hyn mewn cyfweliadau rhanddeiliaid. Y brif effaith fu colli myfyrwyr rhyngwladol: "Diflannodd llawr y farchnad". Y sefydliadau a oedd fwyaf deniadol yn rhyngwladol ac oedd â chyfrannau uwch o fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cael eu taro waethaf. Mae colli'r myfyrwyr hyn wedi gwneud niwed sylweddol i gyllid y prifysgolion, gan arwain at ailstrwythuro ac, mewn rhai achosion, colli swyddi. Mae HEFCW wedi lleihau cyfanswm ei gyllid i SAUau eleni, o ganlyniad i'r pandemig.

Yn yr un modd â sectorau eraill, mae SAUau yn adrodd am effaith ar gydweithrediadau rhyngwladol oherwydd y cyfyngiadau teithio. Mae rhywfaint o ymchwil wedi cael ei effeithio hefyd oherwydd cyfyngiadau ar fynediad at gyfleusterau yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud, neu fethiant i barhau â threialon clinigol oherwydd pwysau yn y GIG. Mae cyllid ymchwil wedi cael ei effeithio gan newidiadau i flaenoriaethau a therfynau amser neu benderfyniadau'n cael eu gohirio.

### Brexit

Fel y gwelir mewn sectorau eraill, mae effeithiau Brexit yn cael eu cymylu gan y ffaith bod effeithiau pandemig y coronafeirws yn cyd-daro, ond adroddodd 69% o'r ymatebwyr i'r arolygon am ryw effaith. Mae symudedd myfyrwyr wedi'i effeithio gan gau rhaglen Sêr Cymru a cholli mynediad at Erasmus+. Mae'r effeithiau'n cael eu lliniaru drwy fynediad myfyrwyr Cymru at gronfa Turing newydd y DU, a chronfeydd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer symudedd tuag i mewn. Serch hynny, roedd manteision yn arfer bod gan fyfyrwyr yr UE o safbwynt gofynion fisa, ffïoedd a chefnogaeth, sydd wedi eu colli bellach. Mae'n debygol iawn y bydd niferoedd myfyrwyr yr UE yn gostwng o ganlyniad. Hyd yn oed cyn ymadael â'r UE, sylwodd rhai rhanddeiliaid bod llai o recriwtio neu fwy o golli staff o'r UE, o ganlyniad i ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol a'r awyrgylch o amgylch proses Brexit.

Mae rhai ymatebwyr i'r arolygon a rhai a gyfwelwyd yn adrodd am anawsterau newydd o safbwynt datblygu trefniadau cydweithio gyda chydweithwyr yn yr UE, sy'n fwy cyndyn i gymryd rhan. Roedd hyn yn fwy amlwg yn ystod cyfnod trafod proses Brexit, pan nad oedd y strwythurau a'r perthnasau a fyddai'n eu lle yn y pen draw mor eglur. Mae gobaith mai'r canlyniad yn y pen draw fydd ychydig o newid o safbwynt partneru academaidd, ond mae'n rhy gynnar i wybod.

### Newidiadau i wariant y DU ar gymorth rhyngwladol

Fel y disgrifiwyd yn adran 4.2, mae ymchwil ar faterion byd-eang yn y DU gyfan wedi cael ei daro gan doriadau i gronfeydd grant sydd â ffocws byd-eang. Cyfran gymharol isel o gyfanswm y cyllid sy'n dod o'r math hwn o grant a dim ond 38% o ymatebwyr academaidd i'r arolygon a adroddodd am effaith yn hyn o beth, ond ar gyfer prosiectau unigol y mae eu grantiau wedi eu dileu, mae'r effeithiau'n sylweddol. Mae hyn yn cael effaith hefyd ar gydweithrediadau presennol a

rhai'r dyfodol drwy golli ceisiadau grant sydd wedi'u cyflwyno neu a oedd yn yr arfaeth, a thrwy'r niwed i enw da a'r colli ymddiriedaeth sydd wedi digwydd o ganlyniad i ganslo prosiectau gweithredol.

## 5.7 DADANSODDIAD: SECTOR ACADEMAIDD

### Cryfderau

Mae addysg uwch yng Nghymru yn gymuned gymharol fach sydd wedi'i chysylltu'n dda. Mae aelodau arweiniol ei wyth prifysgol mewn cyswllt rheolaidd â'i gilydd ac mae cysylltiadau niferus rhwng academyddion unigol. Mae'r rhai a gyfwelwyd yn disgrifio amgylchedd sy'n gystadleuol ond sydd hefyd yn gydweithredol: mae ei aelodau yn deall bod angen ei gilydd arnynt er mwyn llwyddo, yn enwedig wrth gystadlu am gyllid yn erbyn sefydliadau llawer mwy. Mae'r cydweithredu hwn yn ymestyn i HEFCW, sy'n gweithio'n agos gyda SAUau, ac mae hyn yn cael ei weld fel cryfder arwyddocaol mewn cymhariaeth, er enghraifft, â Lloegr. Mae aelodau o Lywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu adnoddau allweddol megis banc data SAIL, a gomisiynwyd ac a gyllidir gan YGIC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod manteision mewnfudiad myfyrwyr ac academyddion ers blynyddoedd ac er bod rhaglen Sêr Cymru wedi dod i ben, mae cyllid i gymryd lle swyddogaeth "tuag i mewn" rhaglen Erasmus+. Mae hyn yn cefnogi egwyddor sylfaenol cydgyfnewidiaethfel sylfaen partneriaethau rhyngwladol ac mae'n cael ei groesawu'n gynnes gan y rhanddeiliaid rydym ni wedi ymgysylltu â nhw. Mae gan system AU Cymru fanteision eraill a allai helpu ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Un o'r rheiny ydy ei phroses sicrhau ansawdd gref, sydd â'r nod, nid yn unig o gyflawni safonau i lefel sy'n ofynnol, ond o wella a chryfhau gweithgaredd. Nid yw hyn yr un fath ym mhob un o wledydd y DU.

Mae'n amlwg bod Cymru'n cynhyrchu ymchwil o safon uchel sydd â chyrhaeddiad byd-eang. Yn y gwyddorau bywyd, rydym wedi canfod cydweithredu helaeth yn rhyngwladol, ac mewn arolygon a chyfweliadau, gwelwyd bod hyn yn allweddol o safbwynt rhoi'r arbenigedd iawn ar waith a chynhyrchu canfyddiadau cadarn. Gwelir bod maint Cymru yn fantais eto wrth gynnal treialon clinigol: "...Digon mawr i fod yn ddefnyddiol ond digon bach i allu rheoli pethau...", o safbwynt poblogaeth a gweithgaredd. Mae gwaith amrywiol a mawr ei effaith sy'n canolbwyntio ar iechyd byd-eang, a phartneriaethau rhyngwladol sy'n cyfoethogi diwylliant Cymru.

### Gwendidau

Er ei fod wedi ei nodi fel rhywbeth cadarnhaol, trafodwyd maint bach Cymru a'i SAUau yn aml fel anfantais yn y sector academaidd, yn enwedig o safbwynt ceisiadau cystadleuol am gronfeydd y DU. Mae'r cronfeydd hyn yn ffynhonnell cefnogaeth llawer pwysicach bellach oherwydd bod cyfyngiadau ar fynediad at gronfeydd yr UE, ac mae rhaid i SAUau gydweithio mwy er mwyn cystadlu'n llwyddiannus. Cafodd hyn ei ystyried mewn trafodaethau bord gron diweddar a gydlynwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru:[85] cafodd lefelau isel o gyllid heb ei neilltuo (h.y. Heb ei glymu ag unrhyw weithgaredd penodol) ac anhawster prifysgolion llai a rhai sy'n canolbwyntio ar addysgu i gynyddu cyllid Ansawdd Ymchwil eu nodi fel heriau, na ellir eu goresgyn heb roi rhagor o gyllid cyhoeddus i SAUau. Nododd y trafodaethau hyn hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar nifer o argymhellion Adolygiad Reid, gan gynnwys sefydlu swyddfa ymchwil yn Llundain, mae Cymru'n parhau i gael ei thangynrychioli yng nghyrff cyllido'r DU. Hyd yn oed os bydd ymchwilwyr Cymru yn cystadlu'n fwy llwyddiannus am gronfeydd y DU, mae'r rhain yn llai tebygol o gefnogi gwaith sydd â ffocws byd0eang (er enghraifft, ar afiechydon trofannol), ac mae cronfeydd sy'n seiliedig ar ODA, megis y GCRF, wedi cael eu lleihau'n sylweddol. Mae hyn yn gadael gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar iechyd byd-eang dan risg.

Fel y nodwyd yn adran 4.6 ac sy'n berthnasol i'r sector academaidd, nid oes gan Gymru broffil rhyngwladol cryf sydd ar wahân i'r DU. O fewn y sector, mae'r ethos Cymreig o gydweithio a bod yn ymatebol, a'r cyfeiriad y mae pethau'n symud o safbwynt ansawdd, yn cael eu gweld fel negeseuon gwerthu posib ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Ond heb broffil ar

[85] Cymdeithas Ddysgedig Cymru; yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg. The Future of Research and Innovation in Wales (June 2020).

wahân, caiff hyn ei golli, ac mae perygl y bydd prifysgolion Cymru yn cael eu niweidio gan benderfyniadau polisi Lloegr, sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n berthnasol i Gymru, er nad yw hynny'n gywir.

Mae ymchwil iechyd sydd a ffocws byd-eang yn cael ei gynnal ledled Cymru, ac er bod llawer o enghreifftiau o brosiectau cryf, ychydig o gyswllt sydd i'w weld rhwng grwpiau. Nid oes man cyswllt ar gyfer ymgysylltu ag ymchwil iechyd byd-eang Cymru yn ei gyfanrwydd, a gallai hynny olygu y collir syniadau a phrosiectau cryf a allai ddeillio o gydweithio. Prin yw'r cysylltiadau rhwng SAUau a Phartneriaethau Iechyd sy'n seiliedig yn y GIG neu'r sector gymunedol nid-er-elw, ac mae hynny'n gwanhau'r cyfan.

### Cyfleoedd

Mae'r sylfaen gydweithredol yno'n barod i adeiladu arni, ac mae ysgogiad i wneud hyn yn sgil colli cronfeydd yr UE. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ymchwil iechyd, sy'n croesi nifer o feysydd arbenigedd gwahanol, ac ymchwil iechyd byd-eang, sydd wedi'i wasgaru ar draws y wlad. Mae angen màs critigol o weithgaredd ar unrhyw faes er mwyn iddo lwyddo, a bydd dod a grwpiau gwahanol ynghyd yn hwyluso hynny.

Ar yr un pryd, mae perthnasoedd newydd yn datblygu, wedi'u hysgogi gan newidiadau i ffynonellau cyllido. Er enghraifft, mae'r brifysgol yn Aberystwyth yn gweithio gyda chynghorau lleol er mwyn cael defnydd o gronfeydd Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu rhanbarthol. Mae un o'r rhain yn gysylltiedig â datblygu gwledig, sy'n amlygu maes sy'n berthnasol yn fyd-eang y mae gan Gymru brofiad penodol ynddo, sef iechyd a gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig. O safbwynt ymchwil a phartneru ymarferol, yn arbennig gyda GIICh, mae hwn yn faes parod ar gyfer rhannu dysgu a sicrhau budd i'r ddwy ochr.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth hefyd, mae cyfle penodol iawn yn sgil datblygiad diweddar labordai ynysu lefel 2 a 3 ar gyfer ymchwil ar bathogenau anifeiliaid. Gellid addasu'r rhain i gefnogi ymchwil ar bathogenau dynol, petai achos o afiechyd tebyg i bandemig y coronafeirws yn y dyfodol, gan alluogi Cymru i wneud cyfraniad cryf dan amgylchiadau o'r fath.

Yn olaf, mae cyfleusterau hyfforddiant gofal iechyd yn cael eu datblygu: ar gyfer nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth, a meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor. Daw'r rhain â chyfleoedd newydd, yn lleol ac yn genedlaethol, yn enwedig o ystyried y ddealltwriaeth ddyfnach ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o'r angen am ymgysylltu byd-eang sydd wedi datblygu yn sgil y pandemig.

## 6 Y SECTOR MASNACHOL

*Mae'r adran hon yn ystyried gweithgareddau iechyd rhyngwladol o safbwynt busnes, gan gynnwys arloesi sy'n arwain at ddatblygu cynnyrch yn fasnachol a gwerthiant dramor, a mewnfuddsoddi rhyngwladol yn y maes hwn. Mae masnacheiddio gofal iechyd ei hun yn datblygu yn Lloegr, ac yn cael ei drafod, ond ar gyfer Cymru ar hyn o bryd, mae'r sector masnachol yn berthnasol yn bennaf i'r gwyddorau bywyd. Byddwn yn trafod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r gweithgaredd hwn a'r gorgyffwrdd sylweddol a geir gyda sectorau eraill, ac academia yn arbennig. Cynhwysir gwybodaeth a safbwyntiau a gasglwyd drwy arolygon a chyfweliadau, ac mae'r adran yn cloi gyda dadansoddiad o'r sector hwn.*

Mae masnach ryngwladol wrth galon economi Cymru, gydag allforion gwerth £17.8bn yn 2019, sy'n cyfateb i 23% o GDP Cymru, o gymharu â chyfartaledd o 17% ar gyfer y DU.[86] Allforion i'r UE oedd yn cyfrif am 60% o'r fasnach hon, a'r Almaen oedd y farchnad unigol fwyaf ar gyfer allforion, gyda'r Unol Daleithiau'n drydydd. O safbwynt mewnfuddsoddi, mae tua 1,250 o gwmnïau sydd dan berchnogaeth dramor wedi'u lleoli yng Nghymru, ac yn cyflogi dros 160,000 o bobl. Mae'r sector, o bosib, yn fwy dibynnol nag eraill ar bolisi Llywodraeth y DU, sy'n rheoli meysydd megis rheoliadau tollau ac allforio, TAW ac, yn fwy diweddar, cytundebau masnach.

O safbwynt iechyd, gellir rhannu'r gwyddorau bywyd yn fras yn dri maes:

- Technoleg feddygol (medech): dyfeisiau neu wasanaethau, gan gynnwys dyfeisiau digidol a meddalwedd, sy'n gwella iechyd drwy atal, diagnosis, monitro neu driniaeth.
- Biodechnoleg feddygol (botiech): defnydd o organebau byw neu eu cynnyrch (er enghraifft, celloedd) i wella iechyd. Ymhlith yr enghreifftiau, mae therapi genynnau a therapi bôn-gelloedd, yn ogystal a rhai cynhyrchion fferyllol.
- Cynnyrch fferyllol (phara) datblygu cyffuriau, trwy unrhyw fodd.

Mae sector gwyddorau bywyd Cymru yn cyflogi dros 12,000 o bobl mewn dros 360 o gwmnïau, gyda thua 65% ohonynt yn weithredol yn yr is-sector medech.[87] O fewn y maes hwn, ceir gweithgaredd cynyddol mewn datblygiadau digidol. Mae'r trosiant blynyddol (domestig a rhyngwladol) ar gyfer y sector iechyd dros £2 biliwn. Ymhlith y cryfderau amlwg mae meddygaeth fanwl, therapi genynnau a chelloedd, diagnosteg, ac iechyd digidol.

### 6.1 TREFNIADAETH Y DIWYDIANT GWYDDORAU BYWYD YNG NGHYMRU

Mae datblygiadau masnachol yn aml yn seiliedig ar ymchwil a gynhelir mewn prifysgolion neu yn y GIG, a gall fod angen treialon mewn lleoliad clinigol arnynt, felly ceir cysylltiadau agos rhwng y tri sector yma. Mae gan SAUau Cymru hanes blaenorol cryf yn y maes hwn: yn 2020, yn seiliedig ar ddata ar gyfer y degawd blaenorol, roedd Prifysgol Caerdydd yn drydydd yn y DU o ran "Effaith Entrepreneuriaid", gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor yn yr 50 uchaf hefyd.[88] Mae'n wybyddus bod cydleoli cyfleusterau ymchwil gyda busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn hyrwyddo twf, ac roedd Strategaeth Gwyddorau Bywyd y DU, a gyhoeddwyd yn 2017, yn argymell datblygu'r "clystyrau" hyn ymhellach.[89] Mae gan Gymru dri chlwstwr o'r fath, sy'n cynnig gofod swyddfa a labordy i fusnesau gwyddorau bywyd ochr yn ochr â chyfleusterau ymchwil prifysgol.

- Y Sefydliad Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe. Wedi'i leoli mewn dau adeilad, mae hwn yn cynnwys canolfannau ar gyfer pynciau penodol megis y Ganolfan ar gyfer Nanoiechyd.
- ArloesiAber, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r hyn sydd bellach yn Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Mae'n cefnogi arloesi mewn sawl maes, gan gynnwys biotech a biofferylliaeth.

---

[86] Llywodraeth Cymru (2020). Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio

[87] UK Healthcare Pavillion: Wales. (2021)

[88] Octopus Ventures. Spinning Out Success: Entrepreneurial Impact Ranking 2020.

[89] Life Sciences Industrial Strategy: A report to the Government from the life sciences sector. (2017)

- MSparc, sy'n agos at a dan berchnogaeth Prifysgol Bangor.

Nid "clwstwr" fel y cyfryw, ydy Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW), a leolir yng Nghaerdydd ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n darparu canolbwynt ar gyfer rhwydweithio ymhlith y rhai sy'n ymwneud â'r sector hwn.[90] Trafodir y gefnogaeth a ddarperir yma ymhellach isod.

Mae sefydliadau eraill yn darparu cymorth allweddol:

- MediWales ydy rhwydwaith gwyddorau bywyd Cymru, cwmni nid-er-elw annibynnol sy'n dwyn busnesau, sefydliadau'r GIG, grwpiau prifysgol ac eraill ynghyd. Mae'n hwyluso cydweithio, yn cynnig cyngor a chefnogaeth, ac yn hyrwyddo cyfleoedd. Mae'n cysylltu â rhwydweithiau yn y DU yn ehangach ac yn Ewrop, gan arwain at gyfleoedd pellach, sy'n cynnwys mynediad at ddigwyddiadau rhyngwladol.
- Mae AgorIP, a leolir ym Mhrifysgol Abertawe ac a gefnogir gan gyllid Llywodraeth Cymru, yn helpu arloeswyr i ddatblygu eu Heiddo Deallusol (IP – h.y., syniadau) i fod yn gynnyrch masnachol drwy ddarparu cyngor a chymorth ymarferol, a chyllid hadu. Mae Prifysgol Abertawe yn un o'r 10 uchaf yn y DU ar gyfer creu cwmnïau deillio.
- Mae'r Rhwydwaith Geltaidd Arloesi Gwyddorau Bywyd Uwch (CALIN) yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe a thair prifysgol yn Iwerddon, sy'n cynnig mynediad i BBaChau at arbenigwyr Ymchwil a Datblygu ac yn hwyluso datblygiad prosiectau. Mae'r prifysgolion yn talu costau Ymchwil a Datblygu. Rhaid i fusnesau cymwys fod mewn rhannau penodol o dde-orllewin, gorllewin a gogledd Cymru.
- Technoleg Iechyd Cymru, corff annibynnol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac a leolir o fewn GIG Cymru, sy'n anelu at wella ansawdd gofal drwy fabwysiadu technoleg newydd. Mae'n gwerthuso technoleg iechyd nad yw'n fferyllol, gan gynnwys dyfeisiau, triniaethau llawfeddygol a therapïau, ac mae'n cyfeirio arloeswyr at sefydliadau sy'n gallu cefnogi datblygiad technoleg newydd.
- Grŵp Arweinwyr Arloesi GIG Cymru. Mae'r grŵp hwn yn dwyn arweinwyr arloesi pob Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd ynghyd, yn ogystal â chynrychiolwyr o nifer o'r sefydliadau uchod megis LSHW a MediWales. Mae'n hwyluso rhannu syniadau, cydweithio a mynediad at gefnogaeth wrth ddatblygu a sefydlu arloeseddau mewn ymarfer.
- Cymdeithas y Diwydiant Fferyllol Prydeinig (ABPI), sydd ag adran yng Nghymru (ABPI Cymru Wales) gyda 33 o gwmnïau'n aelodau. Mae'n hwyluso cysylltiadau rhwng diwydiant a Llywodraeth Cymru a GIG Cymru a, thrwy'r ABPI yn ehangach, â rhwydweithiau ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Yn olaf, mae tair Academi Dysgu Dwys (ILAs) a gyd-gyllidir gan Lywodraeth Cymru a'r prifysgolion sy'n eu cartrefu, ac sydd â'r nod o gefnogi arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.[91] Mae pob un yn cynnig ymchwil, ymgyngoriaethau a chyrsiau addysgol sy'n derbyn eu carfan gyntaf o fyfyrwyr eleni.

- Yr Academi Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth ym Mhrifysgol Abertawe (gweler yr astudiaeth achos).
- ALPHAcademy, ym Mhrifysgol Bangor, sy'n canolbwyntio ar gyflymu mabwysiadu arferion iechyd ataliol.
- Academi Dysgu Dwys Cymru Gyfan ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n canolbwyntio ar arloesi a thrawsnewid o fewn iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Cafodd rhain eu sefydlu i fod yn arwain y byd ac i gael cyrhaeddiad rhyngwladol.

---

[90] Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru: amdanom ni (2021).

[91] Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (2021). Academïau Dysgu Dwys Cymru.

**Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu safbwynt polisi o ganolbwyntio ar werth mewn iechyd a gofal cymdeithasol drwy ei chynllun hirdymor, Cymru Iachach. Cafodd yr agenda hon ei lansio fel "Gofal Iechyd Darbodus" yn 2014 ac yn 2018, penodwyd arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth (GISW). Mae "gwerth" yn cyfeirio at gydbwysedd yr adnoddau, y systemau, a'r canlyniadau sydd o bwys i gleifion – megis symudedd neu'r gallu i weithio. Wedi iddo ddechrau fel cysyniad haniaethol braidd, mae agwedd Cymru tuag at GISW yn arwain y byd o safbwynt trosi egwyddorion yn ymarfer, defnyddio dull system-gyfan gan roi sylw i ddiwylliant, addysg a thechnoleg, ledled y wlad. Eleni, cytunwyd ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Pfizer, Prifysgol Abertawe a LSHW, sy'n adlewyrchu bwriad ar y cyd i hyrwyddo camau i fabwysiadu Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yng Nghymru.

Mae'r gwaith arloesol hwn wedi cael cydnabyddiaeth gan Fforwm Economaidd y Byd (WEF), ddynododd Gymru ym mis Mawrth 2021 fel un o'i bedwar o hybiau arloesi byd-eang; yr unig ddynodiad a roddwyd i wlad, yn hytrach nag i sefydliad unigol. Mae cytundeb gwahanol, ffurfiol gyda rhaglen PaRIS yr OECD, sy'n anelu at ddatblygu cyfres o ganlyniadau GISW a adroddir gan gleifion, i'w hychwanegu at ei chymaryddion systemau gofal iechyd byd-eang. Mae'r gwaith wedi arwain at rwydwaith rhyngwladol cryf o gydweithio, gyda phartneriaethau anffurfiol a ffurfiol ar bob cyfandir, gan gynnwys rhai mewn GIICh, ble mae potensial cryf i gymhwyso'r gwaith hwn.

Caiff y gwaith ei gryfhau nawr gan Academi Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n rhan o Raglen Academïau Dysgu Dwys Llywodraeth Cymru. Dyma'r cyntaf o'i fath yn fyd-eang, ac mae'n datblygu ar bartneriaeth flaenorol rhwng Prifysgol Abertawe a Pfizer, ac yn cael cefnogaeth drwy gydweithio â'r sector gwyddorau bywyd. Mae'r Academi'n ymgymryd â gwaith ymchwil ac ymgynghori, ac yn cynnig rhaglenni addysgol sy'n arwain at gymwysterau uwch, ac sydd eisoes wedi denu dysgwyr o dros 40 o wledydd. Mae wedi gweithio gyda chasgliad o arbenigwyr o'r Unol Daleithiau, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Sweden a Gwlad Belg, mae'n ymgymryd ag ymchwil gydweithredol gyda chydweithwyr yn Nenmarc, ac mae'n cydweithio ar ddata a chofrestrfeydd data canlyniadau iechyd ar lefel Ewropeaidd. Mae'n aelod o'r Gynghrair Ewropeaidd ar gyfer Gwerth mewn Iechyd, ac mae ei chyfarwyddwr yn cynrychioli Cymru ym Melin Drafod Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth Ffederasiwn y Diwydiannau a'r Cymdeithasau Fferyllol.

Mae gwaith y rhaglen GISW genedlaethol wedi ei lesteirio gan ddiffyg capasiti, ond mae hynny'n graddol wella. Roedd llawer o'r gwaith cychwynnol yn cael ei ysgogi gan ymdrechion unigolion, ond mae gan yr arweinydd cenedlaethol gyllideb bellach ac mae wrthi'n datblygu tîm bach. Mae'r natur trawsbynciol wedi bod yn her hefyd, gan ei gwmpasu adrannau a thimau amrywiol yn y llywodraeth cyn dod dan ofal tîm Digidol ac Arloesi y GIGC. Mae potensial aruthrol yn dod gyda'r gydnabyddiaeth gan WEF, gan fod gan Gymru bellach "sedd wrth y bwrdd" ar wahân i gynrychiolaeth y DU a rhwydwaith sylweddol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer masnach, gan gynnwys mewnfuddsoddi, mewn perthynas â GISW. Gall Cymru fanteisio ar ei statws fel arweinydd byd yn y maes hwn, gan rannu arfer da a dylanwadu er budd cleifion yn fyd-eang.

## 6.2 CEFNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU A LLYWODRAETH Y DU I'R DIWYDIANT GWYDDORAU BYWYD

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector gyda gwasanaethau cyffredinol drwy Busnes Cymru,[92] ac ar gyfer masnach ryngwladol drwy'r tîm gwyddorau bywyd yn ei grŵp Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach. Caiff llawer o'r grwpiau a ddisgrifiwyd uchod eu cyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n rheoli llawer o feysydd polisi a deddfwriaethol sy'n berthnasol i fasnach ryngwladol, gan gynnwys, yn amlwg iawn, cytundebau masnach wedi Brexit. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn felly

[92] Llywodraeth Cymru: Busnes Cymru (2021).

gydag Adran dros Fasnach Ryngwladol Llywodraeth y DU (DIT) i geisio ac i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer busnesau gwyddorau bywyd Cymru. Yn wir, mae nifer o swyddfeydd tramor Cymru wedi'u cydleoli â'r DIT.

### Allforion

Mae gwyddorau bywyd yn un o chwe sector blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhai sydd â photensial mawr o safbwynt allforion, ac mae'r grŵp Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach yn gweithio gyda LSHW, MediWales ac eraill i adnabod busnesau a allai gael budd o dderbyn cefnogaeth. Mae Cynghorwyr Masnach Ryngwladol yn darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i gwmnïau. Mae'r rhaglen Cyfleoedd Masnach Rhyngwladol yn helpu i ganfod marchnadoedd newydd, ac mae rhagor o bwyslais nawr ar hwyluso hynny drwy swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Caiff sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys gwyddorau bywyd) eu trefnu yn "glystyrau allforio", sy'n hwyluso cefnogaeth wedi'i thargedu a chefnogaeth cymheiriaid. Mae cynrychiolwyr busnesau a rhwydweithiau yn cynnal ymweliadau tramor fel rhan o ddirprwyaethau Llywodraeth Cymru i ffeiriau masnach mawr, megis Medica yn yr Almaen: mae presenoldeb yn y digwyddiad hwn wedi cynyddu deirgwaith ers 2000, gyda 30 o gwmnïau yn ymuno yn 2019. Gall cwmnïau ymgeisio hefyd am grantiau i gefnogi ymweliadau tramor unigol. Y nod cyffredinol ydy gwella capasiti a gallu cwmnïau Cymreig y nodwyd eu bod, o safbwynt allforion, yn wannach nag mewn rhannau eraill o'r DU.[93]

### Mewnfuddsoddi

Caiff y gwaith hwn ei gyflawni gan is-adran wahanol o'r un tîm, sy'n gweithio'n agos gyda swyddfeydd tramor, DIT, LSHW a MediWales i ganfod cyfleoedd. Mae diddordeb rhyngwladol ym meysydd rhagoriaeth Cymru, megis Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru a genomeg. Mae medtech yn ne Cymru wedi'i ddewis, drwy broses gystadleuol, yn un o feysydd "Cyfle Potensial Uchel" DIT ar gyfer mewnfuddsoddi, sy'n golygu y bydd DIT nawr yn defnyddio'i rhwydwaith eang i roi llwyfan i'r gwaith hwn yn rhyngwladol a chysylltu â buddsoddwyr i hyrwyddo'r prosiectau.[94]

### Healthcare UK

Mae hon yn fenter ar y cyd gan adrannau Llywodraeth y DU dros Fasnach Ryngwladol (DIT) a Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), ac NHS England/Improvement, sydd â'r nod o gysylltu darparwr gofal iechyd y DU â marchnadoedd tramor a'u gwneud yn fwy cystadleuol. Er y caiff ei ariannu'n rhannol drwy adrannau Lloegr yn unig, mae'r ffaith bod DIT yn rhan o'r fenter yn golygu bod ganddi gyfrifoldebau tuag at bob un o bedair cenedl y DU. Mae cryfderau'r DU o safbwynt gofal iechyd y gellir ei fasnachu wedi'u nodi, mewn meysydd megis cryfhau systemau iechyd, iechyd digidol, medtech, ac addysg. Mae gorgyffwrdd gyda gweithgaredd nid-er-elw a datblygu rhyngwladol, drwy ymwneud â Rhaglen Iechyd Gwell Cronfa Ffyniant yr FCDO a chyfleoedd Busnes a Gyllidir â Chyllid Cymorth. Mae mewnfuddsoddi yn rhan o'u cylch gorchwyl hefyd, er nad yw hynny'n ffurfio rhan fawr o'u gwaith yn ymarferol.

Bu cyswllt rhwng Healthcare UK a Llywodraeth Cymru (GIGC yn hytrach na Masnach Ryngwladol) ynglŷn â'i "Export Collaborative" sy'n dwyn sefydliadau'r GIG a Chyrff Hyd Braich (CHB) ynghyd i weithio ar faterion mawr. Efallai nad yw'r syniad o fasnacheiddio gofal iechyd yn gweddu i fydolwg gwleidyddol gwahanol Cymru na'i model ar gyfer y GIG nad yw'n seiliedig ar gystadleuaeth. Ar y llaw arall, gallai'r system iechyd integredig fod yn ddeniadol i bartneriaid dramor, er enghraifft, yn y Dwyrain Canol, sy'n edrych ar ddatblygu eu gwasanaethau iechyd eu hunain. Mae manteision posib o ymgysylltu mewn meysydd eraill, a byddai llawer o'r rheiny yn gweddu'n dda i weithgareddau a chryfderau presennol Cymru, megis datblygu digidol a datblygiadau diweddar mewn seilwaith gofal iechyd.

---

93 Yr Adran dros Fasnach Ryngwladol. DIT National Survey of UK Registered Businesses' Exporting Behaviours, Attitudes and Needs (2018).

94 Stori newyddion Llywodraeth y DU (2020). Regional investment projects announced to boost local economies.

### Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW)

Caiff LHSW ei gyllido drwy Lywodraeth Cymru i gyflymu datblygiad a mabwysiadu datrysiadau arloesol ar gyfer gwell iechyd a lles. Yn ogystal â darparu cefnogaeth gyffredinol, cyfeirio at gyfleoedd a rhwydweithiau, mae'n cefnogi dwy raglen bwysig:

- Cyflymu, sy'n bartneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd (Cyflymu Arloesi Digidol - CIA), Prifysgol Abertawe (Technoleg Gofal Iechyd - HTC) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Canolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol - ATiC). Mae unedau'r prifysgolion wedi'u cysylltu â Byrddau Iechyd, diwydiant a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gyda'r nod o "droi syniadau yn ddatrysiadau". Mae cyllid y llywodraeth yn cefnogi'r unedau hyn, sydd yn eu tro, yn darparu arbenigedd, cefnogaeth busnes a chyfleusterau i'r arloeswyr, er nad yw hynny'n uniongyrchol drwy'r cyllid hwn.
- Ecosystem Iechyd Digidol Cymru (EIDC) sy'n cael ei chyllido fel rhan o raglen Effeithlonrwydd Drwy Dechnoleg y GIGC. Ei nod yw dod â phawb sydd eu hangen i gefnogi arloesi digidol mewn gofal iechyd yng Nghymru ynghyd, o glinigwyr i lunwyr polisi, er mwyn ei gwneud hi'n rhwyddach ac yn gyflymach i fabwysiadu technoleg gofal iechyd digidol yng Nghymru.

Er eu bod yn canolbwyntio ar y system iechyd a'r farchnad ddomestig, mae'r rhaglenni hyn yn hyrwyddo ymgysylltu rhyngwladol drwy gefnogi'r gwaith o greu cynnyrch a systemau sy'n ddefnyddiol ac y gellir eu marchnata mewn gwledydd eraill. MAE LSHW ei hun yn gweithio gyda hybiau arloesi yn rhyngwladol, adrannau masnach ryngwladol llywodraethau Cymru a'r DU a Twin's International MultiHelix (TIM), sy'n gonsortiwm o hybiau tebyg ledled y byd.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni cefnogol a drafodwyd yma wedi cael cymorth gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, nad oes modd i Gymru gael gafael arnynt bellach yn dilyn Brexit.


## 6.3 GWEITHGAREDD MASNACHOL AC ARLOESI GYDA CHYRHAEDDIAD RHYNGWLADOL

### Busnesau gwyddorau bywyd


Mae'r rhain yn gorwedd mewn dau gategori bras: cwmnïau byd-eang sydd â lleoliad yng Nghymru, a chwmnïau Cymreig sy'n masnachu neu'n ymgysylltu mewn rhyw fodd arall gyda gwledydd eraill. Mae'r grŵp cyntaf yn cynnwys enwau mawr fel Cytiva (adran gwyddorau bywyd GE Healthcare), Siemens, 3M a Wockhardt. Mae'r olaf o'r rhain wedi rhoi Wrecsam ar y map, fel lleoliad gwaith cwblhau brechlyn coronafeirws AstraZeneca yn y DU. Mae'r rhain oddi allan i gwmpas yr adolygiad hwn, ond rydym wedi cynnwys cwmnïau o'r fath lle maent wedi eu nodi yn rhai sy'n arbennig o bwysig i economi Cymru. Mae'r ail grŵp yn bennaf yn BBaChau ac maent yn cynhyrchu pob math o gynnyrch sy'n gysylltiedig ag iechyd, o gyfarpar llawfeddygol ac anaesthetig i ddyfeisiau diagnostig, gan gynnwys pecynnau profi pwynt gofal sydd eu hangen ar gyfer diagnosis COVID-19.

Canfuwyd y cwmnïau gwyddorau bywyd sy'n gweithredu fwyaf yn rhyngwladol drwy ein grŵp llywio a chysylltiadau eraill. Mae gan y 31 cwmni yma ganolfannau cynhyrchu neu ddosbarthu mewn 171 o wledydd (gweler Ffigwr 9) ac mae rhai yn dosbarthu ymhellach eto o'r canolfannau hyn. Er mai yn yr Unol Daleithiau mae'r crynhoad mwyaf, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd yn Ewrop: o gyfrif yr holl wledydd, mae gan y busnesau Cymreig a ddetholwyd gennym 70 o ganolfannau ledled Ewrop. Er mai yn yr Unol Daleithiau mae'r crynhoad mwyaf, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd yn Ewrop: o gyfrif yr holl wledydd, mae gan y busnesau Cymreig a ddetholwyd gennym 70 o ganolfannau ledled Ewrop.

Mae Ffigwr 10 yn crynhoi cynnyrch y cwmnïau hyn. Mae'r nifer fwyaf o gwmnïau yn ymwneud â chynhyrchu cyfarpar clinigol, gan gynnwys offer llawfeddygol, a chyfarpar anaesthetig a deintyddol, gyda chynnyrch ar gyfer labordai diagnostig yn dilyn. Mae llawer o gwmnïau yn ymwneud ag ymchwil i ddatblygu eu cynhyrchion hefyd, a hynny fel arfer mewn cydweithrediad â sefydliadau academaidd neu'r GIG. Mae rhai yn cynnig hyfforddiant i staff gofal iechyd, trwy weminarau, adnoddau e-ddysgu neu gefnogaeth glinigol wyneb-yn-wyneb.




**Ffigwr 9: Dosbarthiad byd-eang canolfannau'r 31 busnes gwyddorau bywyd Cymreig sy'n gweithredu fwyaf yn rhyngwladol (nifer y cwmnïau sy'n weithredol ym mhob gwlad).**




**Ffigwr 10: Cynnyrch y cwmnïau gwyddorau iechyd sy'n gweithredu'n rhyngwladol a ddetholwyd.**

Noder: mae gan rai gynnyrch mewn mwy nag un categori.

### Arloesi yn y GIG

Datblygiad cymharol ddiweddar ydy penodi Arweinwyr Arloesi ym mhob Bwrdd Iechyd, ond mae'r arweinwyr wedi ymffurfio'n gyflym yn grŵp gweithgar sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae LSHW yn cynnal cyfarfodydd chwarterol hefyd o'r Rhwydwaith Arloesi ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n dwyn arweinwyr ac eraill yn y GIG ynghyd gydag academyddion ac aelodau o Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o gefnogi a thyfu gweithgaredd arloesi. Ymhlith y prosiectau arloesol sy'n berthnasol i iechyd rhyngwladol, mae:

- Oncoleg: Mae Canolfan Canser De-orllewin Cymru yn ganolfan gyfeirio rhyngwladol ar gyfer ei model gwasanaeth newydd o ddarparu triniaeth cemotherapi datganoledig.
- Canser y colon a'r rhefr: Mae llawfeddyg yn Abertawe yn cydweithio ag ysbyty yn India i ddatblygu system sgrinio newydd, a chwmni yn yr Unol Daleithiau i ddatblygu triniaethau newydd.
- Diagnosteg: mae meddyg teulu yn datblygu peiriant ECG (i fonitro'r galon) sy'n seiliedig ar ffôn symudol, gan ddefnyddio ei gwmni ei hun sydd wedi'i leoli yn India.

### Meysydd o gryfder penodol

Ceir cryn orgyffwrdd rhwng gweithgaredd clinigol, ymchwil ac arloesi. Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o gryfderau penodol Cymru, sy'n bennaf yn y categori olaf.

- Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru ydy canolfan gwella clwyfau genedlaethol gyntaf y byd, ac mae'n darparu gofal clinigol yn ogystal â chefnogi arloesi sydd dan arweiniad busnesau ym maes gofal clwyfau drwy waith ymgynghorol a datblygu cynnyrch. Mae arbenigwyr o'r Iseldiroedd, Awstralia, y Ffindir a Chanada wedi troi at y ganolfan hon am gyngor wrth iddynt ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain. Mae'r Ganolfan yn cynnal cwrs dysgu o bell ar lefel meistr mewn gwella clwyfau, sydd â 190 o raddedigion, gyda bron i 40% ohonynt yn rhyngwladol, a hyfforddiant sy'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd. Mae ei chyfarwyddwr yn arwain sefydliad ymchwil yn Singapore hefyd ac mae wedi sicrhau cyllid ar gyfer datblygu gwaith rheoli clwyfau yn y trofannau.
- Mae Rhwydwaith Lymphoedema Cymru yn adnabyddus yn rhyngwladol am y gwasanaeth cenedlaethol cydlynus y mae'n ei ddarparu, gan gynnwys un o wasanaethau cyntaf y byd i blant. Ymhlith ei arloeseddau, mae offer cipio data, triniaethau llawfeddygol newydd, rhaglenni hyfforddi arloesol a datblygiad Mesur Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ar gyfer Lymphoedema. Mae'r rhwydwaith yn cefnogi nifer o gydweithrediadau rhyngwladol gan gynnwys, ar hyn o bryd, tair astudiaeth ymchwil ryngwladol, y Radd Meistr Ryngwladol gyntaf mewn Lymphoedema a fideos addysgol sydd ar gael yn rhyngwladol.
- Y Ganolfan ar gyfer Nanoiechyd, a leolir yn Athrofa Gwyddor Bywyd Prifysgol Abertawe. Ceir cydweithio yma gyda phrifysgolion yn Tsieina, yr Almaen a'r Unol Daleithiau, aelodau rhwydwaith CALIN, a diwydiant. Mae'n fenter ryngddisgyblaethol, sy'n cynnwys aelodau o golegau peirianneg a gwyddoniaeth y brifysgol, ei hysgol feddygol, a'r Bwrdd Iechyd lleol. Mae'n gweithio gyda BBaChau i hwyluso datblygiad technolegau newydd sydd wedi'u galluogi gan nano-wyddor.
- Mae'r Ganolfan ar gyfer Technolegau Ailadeiladol Cymhwysol mewn Llawfeddygaeth (CARTIS) yn fenter gydweithredol rhwng Byrddau Iechyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a PDR International (gweler yr astudiaeth achos), sy'n cynnal gwaith ymchwil ac arloesi ym maes llawfeddygaeth y pen, yr wyneb a'r ên a phrostheteg. Caiff datblygiadau eu rhannu â chynulleidfa ryngwladol drwy'r Sefydliad Technolegau Digidol Uwch mewn Adlunio'r Pen a'r Wddf - llywydd y sefydliad ydy cyfarwyddwr y ganolfan ac mae aelodau'r Bwrdd wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r byd. Mae cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi yn denu cynulleidfa ryngwladol.

## 6.4 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR MASNACHOL I IECHYD RHYNGWLADOL

### Pandemig y coronafeirws

Mae'r sector masnachol, wrth gwrs, wedi cael ei effeithio gan yr argyfwng economaidd a sbardunwyd gan y pandemig. Mae allforion a mewnforion wedi gostwng, gyda thua 80% o fusnesau'r DU sy'n gysylltiedig ag iechyd yn adrodd am ostyngiadau.[95] Yn gyson â hynny, adroddodd 83% o'r ymatebwyr i'r arolygon bod effaith. Mae llawer o fusnesau wedi addasu'n dda, â hynny wedi'i hwyluso gan weithgaredd ar-lein a oedd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau teithio wedi cael effaith ar ymweliadau yn y cnawd a ffeiriau masnach, sy'n bwysig ar gyfer perthnasoedd a gwerthiant yn y tymor hirach, ac yn hollbwysig pan fydd gweithgareddau'n canolbwyntio ar wrthrychau ffisegol, y mae angen i bartneriaid eu gweld a'u trin a'u trafod. Mae gwaith datblygu cynnyrch wedi cael ei effeithio hefyd yn sgil cyfnodau o gyfyngiadau ar fynediad i gyfleusterau ar gyfer ymchwil, dylunio a chynhyrchu. Mae'r galw am gynhyrchion penodol wedi newid: er enghraifft, bu llai o lawdriniaethau wedi'u cynllunio, ond mwy o weithgaredd gofal critigol.

Ar y llaw arall, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, "Mae'r byd wedi mynd yn llai". Mae adran masnach ryngwladol Llywodraeth Cymru wedi addasu'n llwyr i weithio ar-lein ac wedi canfod bod hyn yn hwyluso darpariaeth hyfforddiant a "chyfarfod" partneriaid mewn nifer o wledydd. Mae hyn wedi galluogi gwell rhwydweithio gyda swyddfeydd rhyngwladol a chysylltiadau tramor eraill mewn perthynas a chyfleoedd masnach. Yn fwy diweddar, mae'r rhwydweithiau hyn wedi helpu i gydlynu galwad i gefnogi India yn ystod ton ddinistriol y pandemig yno (gweler yr astudiaeth achos). Ond mae

[95] Llywodraeth Cymru Diweddariad yr Hydref: Dadansoddiad Economaidd-gymdeithasol Cymru 2020.

canfyddiad yn parhau y bydd angen dull hybrid ar gyfer gweithgaredd yn y dyfodol, ac nad oes modd cynnal perthnasoedd personol yn gyfan gwbl yn rhithiol.

Yn ystod ton gyntaf y pandemig yng Nghymru, gwnaeth y strwythurau sy'n gysylltiedig ag arloesi a'r sector masnachol helpu i gefnogi'r GIG. Roedd LSHW wedi gall cydlynu cynigion, er enghraifft, i gynhyrchu PPE, gan alluogi Cymru i gynnal cyflenwadau yn fwy llwyddiannus a chost-effeithiol nag mewn rhai gwledydd eraill. Mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector wedi gweld mwy o waith cydweithredol yn gyffredinol, gyda newid mewn galluoedd gweithgynhyrchu ac ymchwil, yn gyflym, er mwyn diwallu anghenion brys. Cafodd hyn ei hwyluso gan yr ethos gymunedol yng Nghymru: "Cyhoeddwyd galwad, ac fe wnaeth pobl ymateb", gyda chwmnïau yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r hyn yr oedd ei angen.

Yn y GIG ei hun, mae'r pandemig wedi arwain at lawer mwy o arloesi, yn enwedig o safbwynt rhoi dulliau newydd o weithio ac opsiynau newydd ar gyfer triniaethau ar waith. Soniodd un rhanddeiliad ei fod wedi gweld "mwy o arloesi yn chwe mis cyntaf y pandemig nag yn y 15 mlynedd diwethaf". Cafodd hyn ei hwyluso gan symudiad i ffwrdd oddi wrth nodweddion traddodiadol y GIG o fod yn gyndyn i gymryd risgiau ac yn fiwrocrataidd.

### Brexit

Mae ofn wedi bod y byddai marchnadoedd a chysylltiadau hollbwysig yn yr UE yn cael eu colli: Mae prif bartneriaid masnach Cymru yn yr UE. Mae pethau wedi gwella nawr bod y rheolau a'r rheoliadau yn eglur, ond mae costau, amserlenni a beichiau eraill wedi cynyddu, gyda'r cyfan yn effeithio ar bob busnes. Yn ein harolygon, adroddodd 83% bod effaith, gan gynnwys partneriaid yn yr UE yn colli diddordeb mewn cydweithio mewn rhaglenni a gyllidwyd gan yr UE, a phroblemau gyda recriwtio.

Mae'r diwydiant fferyllol, sydd yn gymharol fach, ond yn bresennol yng Nghymru, wedi cael ei effeithio wrth i rai agweddau ar bolisi fferyllol y DU wahanu oddi wrth ddeddfwriaeth yr UE. Mae hyn wedi effeithio ar reoleiddio'r diwydiant a symudiad staff talentog.

**PDR International**

Mae PDR yn gwmni peirianneg a dylunio sydd wedi ennill gwobrau, a sefydlwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae ei waith yn amrywiol: mae tua 70% yn gysylltiedig â'r gwyddorau bywyd, gyda thua 70% o hwnnw'n cynnwys elfen o gydweithio neu fasnach rhyngwladol. Mae'r busnes rhyngwladol wedi tyfu dros nifer o flynyddoedd ac mae wedi cynyddu'r trosiant, dod â heriau newydd diddorol a gwella safonau. Mae PDR wedi'u gosod yn gyntaf yn y DU gan Fynegai Dylunio'r Byd IF ac maent yn y 25 uchaf o gwmnïau Ewropeaidd. Yn groes i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl, chwaraeodd Brexit rôl yn yr ehangu hwn drwy ysgogi gwerthusiad manwl o'r gweithgaredd presennol a'r cyfleoedd. Chwaraeodd cefnogaeth Llywodraeth Cymru ran, trwy gefnogaeth i allforio a chyfleoedd i ymweld â ffeiriau masnach fel rhan o ddirprwyaeth ar y cyd.

Mae incwm yn cael ei gynhyrchu drwy waith ymgynghorol, er enghraifft ar gyfer troi syniadau yn gynnyrch, a chyllid ymchwil cystadleuol. Yn hanesyddol, roedd y cyllid ymchwil hwnnw'n dod yn bennaf o gronfeydd yr UE, ond mae Ymchwil ac Arloesi yn y DU yn ffynhonnell fwy erbyn hyn. Mae ymchwil a datblygu yn digwydd yng Nghaerdydd ac ar draws y byd, gan ddibynnu ar anghenion y cleient. Ceir cysylltiadau cryf gyda San Francisco a'r Almaen, a gweithgaredd ledled Ewrop, Asia a'r Unol Daleithiau. Mae'r ymchwil yn cynnwys gwaith i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid, ac mae'r dyfeisiau a ddatblygwyd yn amrywio o ran eu natur a'u cymhlethdod.

Er eu bod wedi addasu'n dda eisoes ar gyfer gweithio ar-lein, mae pandemig y coronafeirws yn creu heriau o ran cynnal perthnasoedd o bell, yn enwedig pan fo angen y cleient i weld a theimlo gwrthrych ffisegol yn greiddiol i'r prosiect. Mae denu staff sydd â'r sgiliau a'r talentau addas wedi bod yn her, ond newidiodd hyn wrth i drefniadau gweithio o bell gael eu mabwysiadu'n ehangach, ac mae nifer o aelodau staff newydd wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn y DU erbyn hyn. Ceir cysylltiadau da gyda'r GIG trwy LSHW. Yn rhyngwladol, gallai mynediad at y system integredig hon ar gyfer asesu angen a pheilota dyfeisiau fod yn fantais. Fodd bynnag, nid yw proffil anarferol GIG Cymru yn adnabyddus yn eang, a gallai hwn fod yn faes lle mae cyfle i ddatblygu yn y dyfodol.

**Argyfwng y coronafeirws yn India: cefnogaeth o Gymru**

Ym mis Ebrill 2021, cafwyd twf dramatig yn niferoedd yr achosion o'r coronafeirws yn India, gan olygu bod ei gwasanaeth iechyd yn cael trafferth ymdopi. Roedd GIG Cymru wedi bod mewn brwydr debyg i ymdopi yn ystod cyfnod gwaethaf yr argyfwng, a chafodd systemau a oedd wedi'u datblygu ar y pryd eu hailysgogi er mwyn cydlynu cymorth o Gymru i India.

Derbyniodd y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach yn Llywodraeth Cymru, sydd â chysylltiadau agos ag India drwy Swyddfa Dramor Llywodraeth Cymru, alwad am gymorth gan eu cyswllt yng Nghydffederasiwn Diwydiant India. Gwnaethant gais am gymorth brys, trwy gyfrannu neu werthu cyfarpar a meddyginiaeth penodol yr oedd eu hangen er mwyn achub bywydau. Cafodd y cais hwn ei gylchredeg i gydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru, ac i LSHW a MediWales. Roedd LSHW wedi bod yn allweddol yn cydlynu ymateb y diwydiant i gefnogi GIG Cymru flwyddyn ynghynt a chyhoeddodd alwad debyg am gymorth gan fusnesau Cymreig. Ar yr un pryd, roedd Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd (BAPIO) yn trefnu nifer o fentrau cefnogol ac mewn sefyllfa ddelfrydol i allu cyfeirio cynigion cymorth.

Gan weithio gyda BAPIO a llywodraethau'r DU ac India, cafodd cyfarpar dros ben yn GIG Cymru – a oedd wedi'u caffael i gefnogi'r ymateb i'r coronafeirws yng Nghymru ac nad oedd eu hangen mwyach – eu hanfon i India. Gwnaeth cwmni oedd â chyfarpar cynorthwyo anadlu a oedd wedi'u prynu'n wreiddiol ar gyfer GIG Cymru yn 2020, ond nad oedd eu hangen yn y pen draw, gynnig y cyfarpar hwn i India. Gan weithio gyda BAPIO a sefydliadau Cymreig eraill, roedd modd iddyn nhw ddarparu llwyth sylweddol yn gyflym iawn. Cynigiodd busnesau eraill eitemau hanfodol megis mygydau wyneb a phecynnau profi, ac mae tîm Swyddfa Dramor Cymru wedi bod yn cefnogi'r ymdrech yn y fan a'r lle.

Mae hyn yn dangos sut mae datblygu a chynnal cysylltiadau rhyngwladol, ynghyd â rhwydweithiau cryf a gwaith tîm yng Nghymru, yn gallu cefnogi ymateb cyflym ac effeithiol i anghenion iechyd byd-eang brys. Mae'r gallu hwn i gyfrannu yn gystal ag i ennill y sgil cysylltiadau byd-eang yn gweddu'n dda i nod Cymru o dyfu ei chyfrifoldeb byd-eang, ac yn dangos sut y gall pob sector chwarae rhan yn hyn.

### Newidiadau i wariant y DU ar gymorth rhyngwladol

Nid yw'r rhain wedi cael effaith arwyddocaol ar y sector masnachol, ac ni nodwyd unrhyw effaith gan unrhyw ymatebwyr i'r arolygon nac unrhyw rai a gyfwelwyd.

## 6.5 DADANSODDIAD: Y SECTOR MASNACHOL

### Cryfderau

Yn yr un modd â'r sector academaidd, mae gan sector masnachol Cymru rwydweithiau cryf a diwylliant o gydweithredu. Gwnaeth hynny hwyluso ymateb y sector i bandemig y coronafeirws, fel y disgrifir uchod. Mae maint cymharol fach y wlad a'r sector yn chwarae rhan yn hyn, gan alluogi newidiadau cyflymach a chefnogi mentrau newydd: mae busnesau a grwpiau angen "cael llai o bobl yn yr ystafell" er mwyn sefydlu mentrau newydd.

Mae'r system ofal integredig yn gallu bod yn ddeniadol i 'r rhai dramor sy'n awyddus i ddatblygu eu systemau iechyd, neu ar gyfer datblygu neu ymgorffori arloesedd. Mae cysylltiadau da rhwng diwydiant a phartneriaid academaidd/ Y GIG, sy'n hwyluso cyd-ddatblygu a threialu datblygiadau newydd yn genedlaethol.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei werthfawrogi, gydag ymatebwyr yn cyfeirio'n benodol at y cyfle i ymweld â ffeiriau masnach fel rhan o ddirprwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn hwyluso mynediad at farchnadoedd newydd ac yn gwella rhwydweithio domestig.

### Gwendidau

Bu dibyniaeth gref ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd i gefnogi cwmnïau arloesol. Derbyniodd rhwydweithiau cefnogol, gan gynnwys AgorIP, CALIN ac ArloesiAber a Cyflymu oll gyllid o'r UE trwy Lywodraeth Cymru. Mae llawer o waith wedi'i wneud i liniaru hyn, ond mae'n anorfod y bydd bwlch yn cael ei adael. Ar yr un pryd, mae hyn yn amlygu'r casgliad dryslyd bron o rwydweithiau a systemau cefnogi sy'n bodoli ar gyfer arloesi, gyda llawer ohonynt yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Gall fod yn anodd canfod y ffordd trwy'r rhain, a soniodd rhai ymatebwyr am y fantais bosib o naill ai roi canllawiau amlycach ynglŷn â ble i fynd i gael help, neu bod angen symleiddio'r strwythurau. Ar yr un pryd, gallai gwell cysylltiadau gyda rhwydweithiau mewn rhannau eraill o'r DU – er enghraifft, Rhwydweithiau Gwyddor Iechyd Academaidd NHS England – gefnogi datblygiad prosiectau cydweithredol cryf a fyddai'n denu gwell cyllid.

Ymhellach, mae llawer o'r trefniadau cefnogi a'r cyfleoedd hyn wedi'u hanelu at gwmnïau newydd, er enghraifft, cyllid hadu a chymorth gyda datblygiad cynnar cynnyrch. Mae hyn yn ddefnyddiol, ond ni cheir cymorth cyfatebol sydd wedi'i anelu at fusnesau sydd wedi sefydlu eu hunain. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd busnesau hyfyw yn hunan-gynhaliol, ond er mwyn tyfu arloeseddau ac ehangu rhwydweithiau masnach, mae angen adnoddau ac arbenigedd, a gall gymryd amser i ddatblygu enillion. Gallai rhagor o fusnesau ffynnu yn yr hirdymor gyda chronfeydd camu i fyny neu fynediad at fwy o gyngor wedi'i deilwra. Byddai angen i gynghorwyr (llywodraeth neu rai eraill) fod ag arbenigedd mewn marchnadoedd eraill ac yn gallu symud yn gyflym.

Mae'r sector masnachol yn cael ei effeithio fwy, o bosib, gan y gwahanol rannau o lywodraethau Cymru a'r DU sy'n ymwneud â'i reoleiddio a'i gefnogi. Er eu bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, mae gwahanol unigolion yn gweithio ar allforion a mewnfuddsoddi. Mae'r tîm masnach ryngwladol yn cyd-drafod â DIT, ond cysylltodd Healthcare UK (sy'n rhan o DIT) â Llywodraeth Cymru drwy'r GIGC i drafod cyfleoedd mewn busnes gofal iechyd. Yn aml, nid yw busnesau traws-sectoraidd yn aml yn disgyn yn eglur dan naill ai iechyd neu fasnach: soniodd un ymatebydd am "gael eu pasio o un lle i'r llall fel taten boeth".

Yn olaf, ac yn unol â sectorau eraill, clywsom gan randdeiliaid am ganfyddiad nad yw Llywodraeth Cymru yn "seinio'r utgyrn" dros lwyddiannau. Ceir synnwyr o gyndynrwydd gwleidyddol i roi gormod o gefnogaeth i lwyddiant masnachol, er gwaethaf y budd posib i'r economi ac i broffil y wlad.

### Cyfleoedd

Mae gan Gymru sector gwyddorau bywyd cryf, a chaiff hyn ei gydnabod gan Lywodraeth y DU. Mae nifer o feysydd rhagoriaeth, sy'n dechrau denu mewnfuddsoddiad. Gellir manteisio arnynt gyda'i gilydd, yn enwedig nawr, gan fod cymaint o wledydd tramor yn datblygu eu systemau gofal iechyd eu hunain yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gall cefnogaeth Lywodraeth y DU, gan gynnwys cefnogaeth a roddir drwy Healthcare UK ategu'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a bydd hyn yn cael ei hwyluso gan gysylltiadau rhyng-lywodraethol cryf, y mae rhai ohonynt eisoes yn bodoli.

Mae arloesi yn y GIG yn barod i ddatblygu, gydag arweinwyr brwdfrydig a chysylltiadau da ar draws y GIG ac oddi allan. Mae'r pandemig wedi newid yr ethos mewn perthynas ag arloesi, gyda chlinigwyr a rheolwyr yn fwy medrus o ran rhoi newid ar waith. Ar yr un pryd, mae'r Byrddau Iechyd yn gweithio'n amlach mewn partneriaeth gyda phrifysgolion a chanolfannau arloesi. Gallai'r sector cyfan elwa o gael mynediad at arbenigedd y rhai sydd wedi ymsefydlu yn y GIG. Mae cryn botensial ar gyfer datblygiadau diogel a fydd yn gwella canlyniadau i gleifion a boddhad staff, er bod risg y gallai diwylliant y GIG lithro'n ôl, gan lesteirio hyn gyda chyndynrwydd i gymryd risgiau a thâp coch. Bydd ymgysylltu rhyngwladol yn hwyluso'r gwaith hwn, drwy hadu syniadau drwy rwydweithiau newydd, potensial ar gyfer cydweithredu i gryfhau prosiectau a cheisiadau cyllido, a hyrwyddo GIG Cymru o safbwynt treialu arloeseddau.

Yn olaf, mae meysydd cryfder presennol wedi rhoi mynediad i rwydweithiau rhyngwladol dylanwadol, yn nodedig GISW a WEF. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnig cyfleoedd newydd i Gymru ddylanwadu, dysgu a hyrwyddo ei hun yn fyd-eang, a dylai Llywodraeth Cymru geisio manteisio arnynt.

# 7 Y SECTOR NID-ER-ELW

*Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyfraniad y mae sector nid-er-elw Cymru yn ei wneud i iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn bennaf trwy Fudiadau Cymdeithas Sifil (MCSau) a thrwy bartneriaethau iechyd sydd wedi'u lleoli yn y GIG a chysylltiadau unigol (a drafodwyd yn adran 4.3.3). Caiff elusennau a leolir yng Nghymru sy'n cyllido gweithgaredd partneriaeth rhyngwladol ac ymchwil eu hystyried hefyd.*

*Dyma adran fyrraf yr adolygiad, ond nid yw hyn yn adlewyrchu canfyddiad bod y sector nid-er-elw yn llai pwysig. I'r gwrthwyneb: rydym newydd gwblhau adolygiad ar wahân yn canolbwyntio ar y sector hwnnw.[96] Mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys disgrifiad manwl o weithgaredd, polisïau a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Cyrff Hyd Braich ac o fewn y GIG, ynghyd ag ystyriaeth o gryfderau a gwendidau, ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu i'r dyfodol. Cyflwynir rhywfaint o hynny yma mewn crynodeb byr, ynghyd â gweithgaredd ychwanegol a ganfuwyd wrth ehangu'r cwmpas. Ni chaiff y dadansoddiad ei ailadrodd, ond mae'r pwyntiau allweddol yn cael eu crynhoi a gwybodaeth ddiweddaraf wedi'i chynnwys.*

## 7.1 STRWYTHUR A CHEFNOGAETH I SECTOR IECHYD RHYNGWLADOL NID-ER-ELW CYMRU

Mae gweithgaredd rhyngwladol nid-er-elw yng Nghymru, ar y cyfan, yn canolbwyntio ar Affrica, yn sgil penderfyniad gan Lywodraeth Cymru yn 2006 i ganolbwyntio'i hymdrechion a'i chyllid cyfyngedig yno. Dyna oedd dechrau rhaglen Cymru ac Affrica (a elwid yn Cymru dros Affrica ar y pryd) sydd wedi cefnogi cannoedd o MCSau sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau yn Affrica.[97] Fel y trafodwyd y adran 4, nid oes gan Gymru rymoedd wedi'u datganoli dros wariant ODA, felly mae'r cyllid a neilltuwyd i raglen Cymru ac Affrica (oddeutu £1.3m y flwyddyn, gyda £50,000 ohono'n dod o'r gyllideb iechyd) yn dod o gyllideb Cymru a rhaid iddo ddod â budd i Gymru. Mae hyn wedi annog sylw ar wir bartneriaeth a budd i'r ddwy ochr. Y meysydd a gefnogir gan raglen Cymru ac Affrica ydy:

- Cyllid grant: grantiau bach o hyd at £20,000 yr un a ddosberthir mewn cylch blynyddol, gyda chyllid ychwanegol eleni a'r llynedd i gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- Cyllid ar gyfer Hub Cymru Africa (HCA), sy'n darparu hyfforddiant, digwyddiadau rhwydweithio a chymorth ymarferol ar gyfer gweithgaredd ym mhob maes, gan gynnwys iechyd.[98] Mae HCA yn derbyn cyllid grantiau cystadleuol hefyd, y mwyaf diweddar oedd cyllid ODA drwy 'r Gronfa Her Elusennau Bach, i ganiatáu iddo ymgymryd a gweithgareddau eraill.
- Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol: mae'r rhain yn galluogi unrhyw weithiwr yn y sector cyhoeddus i ymgymryd â lleoliad gwaith wyth wythnos yn Affrica, yn cefnogi prosiect penodol. Maent wedi'u gohirio ar hyn o bryd oherwydd y pandemig.

Caiff gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag iechyd gefnogaeth bellach gan ddau sefydliad:

- Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (RhCICA), elusen sy'n eirioli dros ac yn darparu cefnogaeth i sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn enwedig rhai o fewn y GIG, gan gynnwys hyfforddiant a digwyddiadau rhwydweithio.[99] Mae'n bartner i HCA ac yn derbyn cymorth gweinyddol trwyddo.
- Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, a gartrefir gan ICC.[100] Yn y lle cyntaf, roedd y ganolfan hon yn derbyn cyllid wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n cael ei chefnogi bellach trwy gyllideb graidd ICC. Datblygodd y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol y mae sefydliadau'r GIG wedi ei harwyddo, ac sy'n gosod

---

[96] THET (2021). Partneriaethau Iechyd Cymru Gydag Affrica: Gwneud y gorau o'r potensial er lles y ddwy ochr. [I'w gyhoeddi.]

[97] Llywodraeth Cymru (2020). Cymru ac Affrica.

[98] Hub Cymru Africa (2021). Croeso i Hub Cymru Africa Cefnogi partneriaethau yng Nghymru ac Affrica.

[99] Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (2021). Croeso i Rwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica

[100] Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2021). Croeso i'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd.

safonau arferion gorau ar gyfer y gweithgaredd hwn. Mae'n cydlynu Grŵp Gweithredu'r Siarter, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob corff GIG a rhai llofnodwyr cysylltiol, megis Comisiwn Bevan.

Er nad yw'n benodol ym maes iechyd, mae sector datblygu/cydsefyll rhyngwladol Cymru hefyd yn cynnwys Panel Cynghori Is-Sahara.[101] Mae hwn yn bartner i HCA a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac sydd â'r nod o gefnogi ymwneud diaspora mewn datblygu lleol a rhyngwladol, ac sy'n rhoi mentrau ar waith yng Nghymru a ledled Affrica is-Sahara.

Fe nodon ni nifer o sefydliadau eraill a allai gyfrannu at weithgaredd iechyd rhyngwladol yn y sector nid-er-elw, a thrafodir y rhan fwyaf ohonynt mewn adrannau blaenorol yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys Comisiwn Bevan a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth, sy'n llofnodwyr cysylltiol i'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, prifysgolion, a LSHW. Mae THET yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan sydd â chysylltiadau ym mhob un o'r gwledydd datganoledig ac sydd â'r potensial i gyfrannu trwy, er enghraifft, ddatblygu capasiti Partneriaethau Iechyd a darparu cefnogaeth ar gyfer lleoliadau gwaith dramor i staff y GIG, ac mae ganddo weithgaredd arwyddocaol yn y maes diwethaf hwnnw gyda Health Education England.

## 7.2 GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR NID-ER-ELW

Nododd ein hadolygiad blaenorol 38 corff gweithredol: 10 sy'n gysylltiedig â sefydliadau'r GIG, dau sy'n gysylltiedig â phrifysgolion, a 26 MCS. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ddim mwy na chanolig o ran maint, yn ôl incwm blynyddol, gyda dros 50% yn fach (<£100,000yf) neu'n feicro (<£10,000yf). Eu prif ffynonellau cyllido ydy cyfraniadau uniongyrchol (er enghraifft, drwy eu gwefannau), grantiau rhaglen Cymru ac Affrica, a gweithgareddau codi arian.


O chwilio'n ehangach gyda meini prawf newydd, rydym wedi canfod 56 corff neu fenter arall a leolir yng Nghymru sy'n weithredol ym maes iechyd rhyngwladol, gan ddod â'r cyfanswm i 94. Noder bod y cyfanswm hwn yn cynnwys Partneriaethau Iechyd a leolir yn y GIG: trafodir y rhain yn adran 4.3.3, ond fe'u cyflwynir yma er cysondeb gyda'n hadolygiad blaenorol. Dangosir dosbarthiad y 94 corff yma yn fyd-eang yn Ffigwr 11 isod. Mae gweithgaredd ar ei fwyaf yn India, Kenya ac Uganda.

Mae gweithgareddau'r cyrff hyn yn cynnwys:

- Hyfforddi gweithwyr gofal iechyd (gyda manteision y ddwy ffordd).
- Prosiectau iechyd mamolaeth a'r newydd-anedig.
- Datblygu seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd a chludiant argyfwng.
- Darparu cyfarpar meddygol, lle nad oes modd eu cael o ffynhonnell o fewn y wlad.
- Cynnyrch dŵr, glanweithdra a hylendid.
- Prosiectau iechyd rhyw a'r mislif.
- Addysg sy'n rhoi sylw penodol i iechyd.

Mae rhai Partneriaethau Iechyd yn y GIG (megis y rhai yn BIPBC – gweler yr astudiaeth achos yn adran 4.3) yn cael eu cefnogi gan gorff elusennol eu Bwrdd Iechyd, sy'n cadw cronfeydd cyllid ac yn cynorthwyo gyda llywodraethiant mewn perthynas â hyn. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth bod gweithgaredd o'r fath yn dod â manteision i'w gwasanaethau iechyd a'u poblogaeth lleol, trwy ddatblygiad yr aelodau staff sy'n cymryd rhan, ac felly yn dod o fewn cwmpas eu cylch gorchwyl er bod ffocws byd-eang i'r gweithgaredd. Fodd bynnag, mae'r dehongliad hwn yn anghyson, ac mae rhai partneriaethau'n cael eu llesteirio oherwydd nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth hon.

[101] Panel Cynghori Is-Sahara: About us (2021).




**Ffigwr 11: Nifer y sefydliadau nid-er-elw a leolir yng Nghymru sy'n weithredol ym maes iechyd rhyngwladol ym mhob gwlad.**

Mewn perthynas ag iechyd rhyngwladol yn gyffredinol, mae gan Gymru nifer fach o elusennau ac ymddiriedolaethau hefyd sy'n darparu cyllid ar gyfer gweithgareddau ymarferol neu ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys Sefydliad Waterloo, Sefydliad Moondance, Ymchwil Canser Cymru a Gofal Canser Tenovus. O safbwynt cyfanswm y cyllid i weithgaredd iechyd rhyngwladol, cyfraniad cymharol fach a wneir gan y rhain o gymharu â grantiau ymchwil mawr a chyllid craidd i brifysgolion a'r GIG, ond canfu ein hadolygiad blaenorol eu bod yn ffurfio rhan bwysig o'r cyllido ar gyfer MCSau.

**Interburns, a'r Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang**

Mae Interburns yn Fudiad Cymdeithas Sifil a sefydlwyd yn 2006 gyda'r nod o drawsffurfio gofal llosgiadau mewn GIICh, lle ceir 95% o anafiadau llosgi'r byd, y rhan fwyaf mewn plant. O ddolen a oedd yn ariannu ei hun rhwng llawfeddygon llosgiadau yng Nghymru ac India, mae wedi datblygu i fod yn sefydliad byd-eang sydd a rhaglenni yn Bangladesh, Ethiopia, Ghana, India, Malawi, Nepal, y Lan Orllewinol a mwy. Caiff y gweithgaredd ei gefnogi gan ddau aelod staff ymroddedig yn unig, a rhwydwaith o glinigwyr sy'n ymwneud â'r rhaglen ledled y byd, sy'n rhannu hyfforddiant ac ymarfer da rhwng sefydliadau a gwledydd. Mae hwn yn fodel arfer gorau o ddefnydd effeithlon o adnoddau ac ymgysylltiad mewn partneriaeth ystyrlon.

Mae Interburns wedi'i gysylltu trwy ei arweinwyr â'r Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang (CGBIPR) ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n gweithio i ddatblygu strategaethau a fydd yn lleihau achosion o anafiadau llosgi ac yn gwella canlyniadau i gleifion. Ynghyd ag Interburns, yn 2017, enillodd CGBIPR grant NIHR sylweddol a chafodd ei dynodi yn Grŵp Ymchwil Byd-eang NIHR ar Drawma Llosgiadau, sy'n gweithio i gryfhau capasiti ymchwil yn y GIICh sy'n bartneriaid iddi. Mae cyfres o adnoddau mynediad-am-ddim wedi'i datblygu i wella canlyniadau anafiadau llosgi, gan gynnwys cyrsiau ar-lein, safonau gweithredu i sefydliadau, canllaw i wella ansawdd gofal, a llawlyfr cymorth cyntaf sydd wedi'i gyfieithu i 10 iaith. Mae nifer dirifedi o fywydau wedi'u hachub neu eu gwella drwy roi'r ymarfer sy'n cael ei hyrwyddo gan y sefydliadau ar waith, ac mae'r rhai sydd ynghlwm â'r gwaith wedi ennill gwobrau a chanmoliaeth.

Rhyngddynt, mae Interburns a'r CGBIPR wedi dangos grym cydweithio rhwng academia a'r sector nid-er-elw yn trawsnewid gofal iechyd, ac maent wedi rhoi Cymru ar y map fel arweinydd byd-eang ar ofal llosgiadau. Mae'r CGBIPR wedi croesawu digwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru, gan ddenu cynrychiolwyr uchel eu proffil o bob rhan o'r byd, ac mae Interburns wedi rhannu ei adnoddau gyda sefydliadau pwysig fel yr WHO, Pwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch, a Médecins Sans Frontiers. Ond mae "storm berffaith" o newidiadau, gan gynnwys effaith pandemig y coronafeirws, Brexit a chyfleoedd newydd i staff, yn fygythiad i Interburns nawr, ac mae'r CGBIPR yn cau. Bydd hyn yn golled i Gymru ac i'r byd, ac mae'n galw am ennyd i feddwl sut gellid cefnogi adnodd mor werthfawr, er lles dwy-ffordd, yn y dyfodol.

## 7.3 EFFAITH DIGWYDDIADAU DIWEDDAR AR GYFRANIAD Y SECTOR NID-ER-ELW I IECHYD RHYNGWLADOL

### Pandemig y coronafeirws

Mae hyn wedi cael effaith fawr, trwy dynnu staff gofal iechyd yng Nghymru a dramor oddi wrth eu gwaith partneriaeth, a rhwystro'r teithio yr oedd prosiectau'n ddibynnol arno. Heb gynnwys Partneriaethau Iechyd y GIG, adroddodd 83% o'r ymatebwyr i'n harolygon yn y sector nid-er-elw broblemau o'r fath. Mae llawer o gyrff bach Cymru yn dibynnu ar weithgareddau codi arian, a bu'n amhosib trefnu rhai o'r rhain oherwydd cyfyngiadau. Ar yr un pryd, mae gwell cysylltiadau digidol wedi datblygu, ac mae'r perthnasoedd sy'n bodoli wedi galluogi pobl i gynnig cefnogaeth i'w gilydd yn ystod y gwaethaf o'r argyfyngau mewn gwledydd amrywiol. Mae hyn yn parhau, wrth i'r pandemig effeithio'n wael ar is-gyfandir India.

Mae manteision posib yn y ffyrdd newydd o weithio, a fydd yn cefnogi lleihau ôl-troed carbon mewn gweithgaredd iechyd rhyngwladol. Mae'r symudiad at weithgareddau ar-lein wedi hwyluso ail-gydbwyso'r grym mewn partneriaethau hefyd, gyda'r rhai sydd dramor yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar sail cyfartal yn haws. Fodd bynnag, yn yr un modd â sectorau eraill, mae'r rhan fwyaf o'r farn y bydd angen teithio rhyngwladol o hyd er mwyn cefnogi datblygiad a chynhaliaeth perthnasoedd da, o fewn Cymru ac hefyd gyda phartneriaid byd-eang.

### Brexit

Bu llai o effaith ar y sector nid-er-elw hyd yn hyn, ac ni adroddodd unrhyw ymatebwyr i'r arolygon effeithiau. Fodd bynnag, bydd yn effeithio ar fynediad at rai ffynonellau cyllid, ac rydym yn gwybod am un sefydliad sydd wedi cofrestru yn yr UE er mwyn sicrhau cytundeb a ariennir gan yr UE. Mae hwn yn gysylltiedig â hyfforddiant a fyddai wedi cael ei ddarparu yng Nghymru o'r blaen ac sydd bellach yn llai tebygol o gynnwys staff yng Nghymru.

### Newidiadau i wariant y DU ar gymorth rhyngwladol

Caiff effaith gyffredinol y newidiadau hyn ei ddisgrifio yn adran 4.2, ac er mai cyfran fach o'r cyllid i gyrff yng Nghymru y mae ODA yn ei chyfrannu, adroddodd 83% o'r ymatebwyr i'r arolygon am effaith. Mae hyn yn cynrychioli colli cyfleoedd yn ogystal â cholli cyllid yn uniongyrchol, a niwed i enw da. Nododd ymatebwyr i'r arolygon y croes-ddweud rhwng y toriadau hyn ar lefel y DU a bwriad Llywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu'n fyd-eang.

## 7.4 DADANSODDIAD: Y SECTOR NID-ER-ELW

Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau o'n hadroddiad blaenorol ar weithgaredd Cymru ac Affrica, wedi'i ategu gan wybodaeth a safbwyntiau ychwanegol sydd wedi dod i'r golwg drwy'r adolygiad hwn.

### Cryfderau

Mae'r nifer o gyrff gweithredol y gwnaethom eu canfod yn dyst i sector iechyd rhyngwladol nid-er-elw bywiog yng Nghymru. Yn yr un modd â sectorau eraill, efallai mai pobl ydy ased fwyaf y sector hwn. Mae gan Gymru lawer o unigolion sydd ag angerdd, cymhelliant a phrofiad, sy'n golygu ei bod yn cefnogi gwaith sy'n cael mwy o effaith nag y gellid ei ddisgwyl o'i lefel gyfredol o gyllido. Mae'r gefnogaeth, yn ariannol ac yn ymarferol, drwy raglen Cymru ac Affrica yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae Hub Cymru Africa yn dwyn grwpiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a grwpiau eraill ynghyd a gall hynny fod yn fanteisiol, gan ei fod yn creu fforwm ble mae materion sy'n berthnasol i bawb (er enghraifft, hiliaeth a choloneiddio) yn gallu cael eu hystyried, a dull cyffredin o ddelio a phethau'n gallu cael ei ddatblygu.

Mae'r gwaith hwn, hefyd, yn elwa o faint bach y wlad a'r gymuned, a'r rhwydweithiau da a alluogir gan hynny, gan gynnwys gydag aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru. Mae'r arwydd cadarnhaol cryf o fwriad a roddir gan y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhaglen Cymru ac Affrica, yn cael ei weld , o fewn Cymru ac oddi allan, fel cryfder arwyddocaol.

O fewn y GIG, mae darpariaethau'r Siarter yn cael eu gwerthfawrogi, yn enwedig y ddarpariaeth ar gyfer Absenoldeb Arbennig i ymgymryd â gweithgareddau rhyngwladol, a chefnogaeth drwy Grŵp Gweithredu'r Siarter. Mae'r rhan fwyaf yn gweld manteision mawr o ymgysylltu'n fyd-eang: boddhad staff, datblygiad sgiliau diwylliannol, ymarferol ac arweinyddiaeth, a gwell rhwydweithiau oddi mewn i'r gweithle.

### Gwendidau

Un gwendid sylfaenol ydy cydlynu, a synnwyr bod peth gweithgaredd iechyd rhyngwladol nid-er-elw yn "cwympo rhwng dwy stôl" y GIG a'r sector datblygu/cyd-sefyll rhyngwladol yn gyffredinol. Fel y disgrifiwyd uchod, mae HCA yn ffurfio canolfan dda ar gyfer gweithgaredd rhyngwladol yn gyffredinol, ond yn cynnig llai o gefnogaeth benodol ar gyfer grwpiau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae RhCICA yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer iechyd yn benodol, ond ychydig o gapasiti sydd ganddo, heb unrhyw swyddog wedi'i neilltuo'n benodol o fewn HCA a gyda'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd mewn swyddi llawn-amser eraill. Mae hyn yn cyfyngu ar ei allu i ddarparu'r gefnogaeth a fyddai'n galluogi Partneriaethau Iechyd bach i dyfu o safbwynt eu capasiti a'u heffaith. Mae'r rhanddeiliaid 'r farn bod yr IHCC yn weithredol yn bennaf o safbwynt y Siarter a'i Grŵp Gweithredu, ac ychydig sy'n gweld unrhyw weithgaredd cydlynu defnyddiol y tu hwnt i hynny. Nid oes canolbwynt ble gall MCSau, sefydliadau yn y GIG, academia a sefydliadau eraill a allai fod yn gefnogol ddod ynghyd.

Mae diffyg strategaeth iechyd rhyngwladol drosfwaol yn cael ei weld fel gwendid arwyddocaol gan randdeiliaid hefyd. Roeddent yn aml yn trafod yr angen am arweinyddiaeth o safbwynt nodau cyffredinol gwaith ymgysylltu Cymru ym maes iechyd rhyngwladol. Cymysg yw'r farn ynglŷn â chyfyngu ffocws i Affrica, gyda rhai yn teimlo bod hynny'n rhy gul ac eraill o'r farn y dylid cyfyngu'r ffocws ymhellach, er mwyn canolbwyntio adnoddau prin i gael yr effaith fwyaf posib.

Mae lefelau ariannu yn isel, ac er y byddai llawer o sefydliadau yn hapus i gydweithio mewn ceisiadau consortia, nid yw'r trefniadau cydlynu presennol yn cefnogi'r cysylltiadau hyn. Mae rhwydweithio y tu allan i Gymru yn gallu bod yn anodd, a hyd yn oed o fewn Cymru, mae grwpiau yn y gogledd yn teimlo'n bell iawn oddi wrth gysylltiadau pwysig yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Yn aml, nid oes gan gyrff bach niferus Cymru y capasiti na'r profiad i gael gafael ar ffrydiau incwm mawr megis grantiau ODA y DU, ac ychydig o gyfleoedd sydd rhwng y lefel honno a grantiau llawer llai Cymru ac Affrica, i alluogi'r profiad a'r capasiti hwnnw i dyfu. Mae'r cyllid ar gyfer rhaglen Cymru ac Affrica wedi aros yn yr unfan ers rhai blynyddoedd, gan gynnwys y cyfraniad o'r gyllideb iechyd, y bwriedir iddo gydnabod cyfraniad gwledydd eraill at staffio'r GIG. Mae llawer o randdeiliaid yn adrodd am gyfyngiadau ar eu gweithgaredd oherwydd natur "llewyrch a llymder" cyllido trwy grantiau, gyda diffyg incwm cynaliadwy yn golygu nad ydynt yn gallu rhoi prosiectau hirdymor ar waith. Fodd bynnag, nid yw pob corff eisiau cael gafael ar ragor o gyllid, yn enwedig ble mae hynny'n golygu mynd trwy brosesau ymgeisio cymhleth sydd â meini prawf cymhwystra cyfyngedig. Mae'n well gan rai ddatblygu ar ddulliau codi arian cymunedol ac ati, ac maent yn gweld, gydag ymdrech, y gall hyn fod yn ffynhonnell mwy cynaliadwy na grantiau.

Yn olaf, ond nid leiaf pwysig ar unrhyw gyfrif, mae angen annog ymgysylltu gan ddiaspora, yn y GIG ac yn y gymuned, i chwarae rôl weithredol yn y gwaith hwn. Heb hynny, mae'r sector yn colli arbenigedd gwerthfawr ac mae risg y bydd yn cadarnhau'r dulliau gwladychol y ceir ymdrech i symud oddi wrthynt nawr.

### Cyfleoedd

Mae hwn yn gyfnod sy'n rhoi cyfle gwirioneddol i Gymru amlygu ei dull cadarnhaol o ymwneud ag ymgysylltu rhyngwladol ac i gryfhau hynny, yn wyneb newidiadau ar lefel y DU sy'n cael eu gweld gan lawer fel rhai sy'n symud i'r cyfeiriad arall. Mae pandemig y coronafeirws yn darparu pwynt naturiol ar gyfer "ailosod", gan ei fod wedi amlygu natur fyd-eang iechyd a gallwn ailgodi ohono gyda hynny mewn cof, ac mae'r adroddiad hwn a'r un diwethaf yn cryfhau'r cyfleoedd i drosi bwriad yn effaith. Mae'r cyfle hwn yn berthnasol i bob sector, ond mae'n arbennig o bwysig ei werthfawrogi yma, ble mae'r risg mwyaf y caiff gweithgaredd ei weld fel rhywbeth "nad yw'n hanfodol", er ei fod mewn gwirionedd wrth galon ymdrechion Cymru sy'n canolbwyntio ar iechyd byd-eang ac yn llawn potensial ar gyfer dysgu y gellir ei rannu a datblygu cyfrifoldeb byd-eang.

Ar lefel sefydliadau unigol, mae cyfle i ddatblygu ar sylfeini'r newidiadau a achoswyd gan bandemig y coronafeirws, er mwyn cadarnhau a datblygu ymhellach ar y modd y mae cydbwysedd grym wedi newid. Ceir y gorau o ddysgu a rennir a budd dwy-ffordd drwy bartneriaeth wirioneddol gyfartal. Mae hyn yn berthnasol hefyd i "ochr Cymru" y partneriaethau: mae ysgogiad o'r newydd i sicrhau cynrychiolaeth briodol a pharch i bob aelod o'n cymunedau, a hynny'n deillio'n rhannol o'r anghyfartaleddau a amlygwyd gan bandemig y coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ei Gynllun Gweithredu ar Hil a Chydraddoldeb drafft.[102] Mae hon yn adeg ddelfrydol i gydnabod y gweithgaredd iechyd rhyngwladol y mae llawer o bobl ddiaspora eisoes yn ymwneud ag ef fel unigolion neu'n anffurfiol, er mwyn ymgorffori mwy o'r arbenigedd a'r profiad hwn yng ngweithgaredd Cymru yn gyffredinol.

[102] Llywodraeth Cymru (2021). Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.

# 8 CASGLIADAU

Mae'r wybodaeth a gasglwyd yma yn ein galluogi i ddod i gasgliadau eglur. Rydym yn argymell y dylid ystyried casgliadau ein hadroddiad blaenorol ar Bartneriaethau Iechyd Cymru gydag Affrica hefyd, gyda llawer o'r rheiny'n parhau'n berthnasol yma ac yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth newydd. Caiff y casgliadau hynny, a'r argymhellion sy'n dod yn eu sgil, eu cyflwyno yn Atodiad 3.

## 8.1 MAE GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU YN AMRYWIOL AC WEDI'I WASGARU'N EANG, GAN GREU RISG Y COLLIR Y MANTEISION.

Mae'n amlwg bod Cymru yn cefnogi cryn weithgaredd rhyngwladol ym maes eang iechyd, a bod hwn yn weithgaredd hwn i'r ddau gyfeiriad. Ceir gweithgareddau ledled y wlad ar sawl ffurf wahanol: gwaith gwirfoddol, addysg a hyfforddiant, ymchwil ac arloesi, a masnach. Mae rhai o'r rhain yn raglenni sylweddol â chyllidebau o filiynau o bunnau, a rhai eraill yn ddibynnol ar roddion elusennol a chyfraniadau gan unigolion. Ym mhob sector, rydym wedi clywed y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith yn amlinellu'r manteision: denu a chadw aelodau staff a myfyrwyr o ansawdd uchel i brifysgolion, y GIG a busnesau; cyfoethogi diwylliannau sefydliadau a chymunedau; dysgu a rennir, gyda syniadau ac arferion newydd yn cael eu cyflwyno gan bartneriaid tramor; safonau uwch yn rhoi mantais gystadleuol i fusnesau; a synnwyr cynyddol o ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol, yn arbennig yn sgil gwaith sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd byd-eang. Ond mae'r gweithgareddau'n digwydd mewn pocedi bychain ac, heb sylw systematig, ni wneir y gorau o'r manteision. Nid oes man cyswllt nu wybodaeth canolog mewn perthynas â gweithgaredd iechyd rhyngwladol, ac o fewn llywodraeth, mae'r amrywiaeth yn golygu bod angen i wahanol grwpiau ymwneud â'r gwaith. Er bod lefel y gweithgaredd ac effeithiau peth o'r gwaith yn dangos gwir gryfder, mae risg bod ymdrechion yn cael eu dyblygu a'r manteision yn cael eu colli drwy ddiffyg strategaeth integredig, cydlynu neu drosolwg unedig.

## 8.2 MAE UNIGOLION YN ASED, AC MAE ANGEN CYSYLLTIADAU A CHEFNOGAETH ARNYNT.

Mae Cymru'n elwa o fod â pholisïau cryf, cefnogol o safbwynt ymgysylltu rhyngwladol ym maes iechyd, er eon bod wedi nodi gwendidau o safbwynt eu rhoi ar waith, yn enwedig yn ein hadolygiad blaenorol. Mewn gwirionedd, rydym yn gweld bod llawer o weithgaredd Cymru yn y maes yn ddibynnol ar unigolion brwdfrydig a thalentog, sy'n gwneud camau breision ymlaen yn eu meysydd penodol. Mae'r unigolion hyn i'w cael ar bob lefel ac ym mhob sector, gan gynnwys o fewn y llywodraeth. Mae eu hymdrechion yn amrywio o ddolenni unigol ar raddfa fach i brosiectau partneriaeth uchel eu proffil, gyda'r cyfan yn gwneud cyfraniad at iechyd yn fyd-eang. Ond yn aml, maent wedi'u datgysylltu oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn llesteirio croes-ffrwythloni syniadau a threfniadau cydweithio amlddisgyblaethol a thraws-sectoraidd a allai esgor ar brosiectau uchelgeisiol a denu'r cyllid i'w cefnogi. Mae'n cyfyngu ar allu Cymru i wneud cyfraniad yn fyd-eang ac i godi ei phroffil wrth wneud hynny, ac mae'n creu risg y bydd gwaith sy'n cael effaith yn cael ei golli os collir unigolion neu eu cyllid. Os yw pŵer y gwaith eang sy'n digwydd i gael ei harneisio, mae angen i unigolion effeithiol gael eu cefnogi gan well strwythurau, fydd yn eu cysylltu â'i gilydd ac â chyfleoedd i dyfu.

## 8.3 MAE CAPASITI'N LLESTEIRIO TWF, YM MHOB MAES AC AR BOB LEFEL

Un canfyddiad cyson iawn ydy bod unigolion allweddol yn brin o amser i gyflawni eu gweithgareddau mewn perthynas ag iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn berthnasol yn y GIG, ar gyfer ymchwilwyr, rheolwyr a gwirfoddolwyr; yn academia, ble mae staff wedi'u taenu'n deneuach fyth yn dilyn y pandemig; ac mewn diwydiant ac yn y trydydd sector, ble nad yw'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen er mwyn ymgeisio am gyllid a chefnogaeth yn rhoi cydbwysedd cadarnhaol gyda'r enillion bob amser. Mae hyn yn tueddu i gadw ymdrechion ar lefel gymharol isel, neu ar lefel sy'n uwch ond yn ddisymud, gyda grwpiau'n methu â chanfod y capasiti i gydio mewn cyfleoedd a fyddai'n eu galluogi i dyfu. Mae rhai cyrff yn fodlon â hyn, ac yn gweld eu gweithgareddau yn rhai sy'n dwyn ffrwyth ac yn rhoi boddhad. Ond mae llawer mwy yn rhwystredig nad ydyn nhw'n gallu cryfhau eu partneriaethau, cynllunio prosiectau mwy uchelgeisiol, a gweld y manteision yn dwyn ffrwyth ar y ddwy ochr drwy gynnwys a chael effaith ar fwy o bobl. Er mwyn datblygu rhagoriaeth, y gall Cymru ei ddefnyddio i dyfu ei phroffil a'i chyfraniad byd-eang, mae angen adnoddau. Bydd buddsoddiadau bach yn cael eu lluosogi, wrth i'r capasiti cynyddol y byddant yn ei gefnogi alluogi grwpiau i fanteisio'n well ar gyfleoedd cyllido a datblygu.

## 8.4 MAE GAN GYMRU GRYFDERAU SY'N ARWAIN Y BYD

Mae Cymru'n arwain y byd mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys:

- Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys genomeg pathogenau.
- Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar werth.
- Hyfforddiant ac ymchwil bydwreigiaeth.
- Llosgiadau.
- Gwella clwyfau.
- Gwybodeg feddygol.

Mae gan lawer o'r unigolion sy'n ymwneud â'r meysydd hyn gysylltiadau rhyngwladol cryf eisoes, gan gynnwys cysylltiadau â sefydliadau allweddol megis yr WHO ac WEF, yn ogystal â grwpiau a chymdeithasau proffesiynol. Mae eu proffil o fewn eu meysydd eu hunain eisoes wedi'i sefydlu ac yn uchel. Gyda rhywfaint o gydlynu, gallai Cymru elwa ar hyn yn fwy cyffredinol, gan godi proffil y genedl gyfan a chyfrannu arbenigedd yn eang er budd eraill, a dod â dysgu yn ôl i Gymru er mwyn cyflymu datblygiad sefydliadau a gwasanaethau.

## 8.5 NID YW CYMRU'N TYNNU DIGON O SYLW AT EI LLWYDDIANNAU

Er gwaethaf y cryfderau hyn, gwelwn nad oes gan Gymru broffil rhyngwladol cryf a gallai hynny fod, yn rhannol, yn gysylltiedig â pheidio â "seinio'r utgorn" ar ei llwyddiannau. Mae'r rhesymau dros hyn yn sicr yn gymhleth a thu hwnt i gwmpas ein gwaith, ond ceir synnwyr cyffredinol nad yw'r uchelgais a'r balchder cenedlaethol a fynegir ar bapur yn trosi'n weithredu. Mae'n dilyn bod y rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a rhai sydd y tu allan yn teimlo nad oes ganddi broffil rhyngwladol arwyddocaol, yn wahanol i'r Deyrnas Unedig. Efallai bod yr unigolion sy'n gysylltiedig, a'u meysydd gwaith penodol weithiau, yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel cryfderau, ond nid yw hynny'n wir am Gymru yn gyffredinol. Rydym yn cyflwyno llwyddiannau cadarn iawn y gall ac y dylai Cymru fod yn falch ohonynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru ganfod ffordd o gyfathrebu'r rhain yn gryf ac yn groyw, o fewn ac oddi allan i Gymru, er mwyn datblygu'r synnwyr hwnnw o falchder yn ymarferol yn ogystal â'r proffil a ddylai ddod gyda hynny.

## 8.6 MAE'R FFAITH BOD CYMRU MOR FACH YN ASED

Ar draws pob sector, gwelsom ganfyddiad cryf bod Cymru'n elwa o fod yn wlad fach. Mae hyn yn hwyluso rhwydweithio, gan gynnwys gydag aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru, ac agwedd gydweithredol tuag at waith ym mhob maes. Gall gefnogi newid cyflym hefyd pan fo angen. Er nad yw hynny wedi digwydd bob amser yn hanesyddol, mae pandemig y coronafeirws wedi dangos bod hyn yn bosib, ac yn gryfder arwyddocaol. Symudodd busnesau i gefnogi'r GIG ac addasodd rhwydweithiau presennol yn gyflym i gefnogi hynny; darparodd y GIG integredig, ac ICC yn benodol, ymateb cydlynus a chost-effeithiol; a ffurfiodd rhwydweithiau newydd yn gyflym o fewn y llywodraeth, gan dynnu arbenigwyr i mewn o sectorau eraill, i ddylanwadu ar gynllunio strategol. Mae hyn yn dangos beth gellir ei wneud pan fo angen, a gellid defnyddio'r math hwn o hyblygrwydd mewn amgylchiadau llai eithafol. Mae cydweithredu wrth galon Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cael ei gydnabod mewn nifer o gyhoeddiadau fel yr allwedd i lwyddiant o safbwynt cael gafael ar gyllid cystadleuol. Bydd gwthio i gael mwy o hyn, fel mater o arfer, yn helpu gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru i gyrraedd ei wir botensial gan ddod â manteision dwy-ffordd a dangos cyfrifoldeb byd-eang.

# 9 ARGYMHELLION

Gall ymgysylltu rhyngwladol ym maes iechyd ddod â manteision sylweddol i'r genedl, ond yng Nghymru, ydym wedi canfod gwendidau sydd yn cyfyngu ar hynny ar hyn o bryd. Yn y GIG, mae ymgysylltu rhyngwladol yn hybu recriwtio, cadw a lles, ac yn dod â chyllid trwy ymchwil a noddir yn fasnachol. Yn academia, mae'n denu staff a myfyrwyr talentog, sy'n cyfrannu at ddiwylliant y sefydliad a'r genedl, a'r economi, ac sy'n gallu gweithredu fel llysgenhadon dros Gymru dramor. Yn fasnachol, mae ehangu rhwydweithiau allforio a denu mewnfuddsoddiad yn dod â manteision economaidd, ac mae syniadau newydd yn cael eu hysgogi a safonau'n cael eu codi drwy gydweithio. Mae gweithgaredd nid-er-elw yn cynnwys cymunedau, gan ddod â phobl ynghyd i weithio tuag at nodau cyffredin, creu cysylltiadau byd-eang a chyfoethogi diwylliant. Mae polisïau allweddol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Strategaeth Ryngwladol, yn hynod berthnasol i weithgaredd iechyd rhyngwladol: er mwyn cael yr effaith a'r budd gorau posib o hyn, mae angen cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau, wedi'i gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. O'i wneud yn dda, mae gan hyn botensial aruthrol i godi proffil Cymru, tyfu'r economi, a sefydlu enw da Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Nid yw gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru wedi cyrraedd y potensial hwnnw eto, a bwriad yr argymhellion hyn ydy cryfhau'r meysydd sy'n ei ddal yn ôl.

Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cefnogi argymhellion ein hadroddiad diweddar a oedd yn ystyried Partneriaethau Iechyd Cymru gydag Affrica, ac fe'u cyflwynir yn atodiad 3 er mwyn hwyluso croes-gyfeirio. Mae'r deg argymhelliad yma yn gorwedd mewn tair thema fras ac mae rhai yn berthnasol i fwy nag un corff neu sector. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am gyd-gynhyrchu ac integreiddio wrth ddatblygu gweithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae llawer yn argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru, ac mae pob un yn galw am arweinyddiaeth gref ganddi, yn ysgogi newid er budd y genedl gyfan.

## 9.1 DATBLYGU STRWYTHURAU CRAIDD

### 1. Cywain gwybodaeth am weithgaredd iechyd rhyngwladol yn gyson.

Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi fawr mwy na chiplun o'r gweithgaredd presennol. Nid yw wedi bod yn hawdd i'w baratoi ac rydym y cydnabod ei fod yn anghyflawn. Os yw Llywodraeth Cymru yn gweld hwn yn faes i'w werthfawrogi a'i dyfu, rhaid i ddatblygu cronfa wybodaeth lawn a chyfredol am weithgaredd rhyngwladol ar draws sectorau fod yn flaenoriaeth, er mwyn galluogi cryfderau, gwendidau a chyfleoedd i gael eu nodi'n barhaus, ac i dracio cynnydd wedi i newidiadau gael eu cyflwyno. I'r perwyl hwn:

- Dylid gofyn i sefydliadau'r GIG yng Nghymru baratoi "Adroddiad Gweithgaredd Rhyngwladol" blynyddol, a chynnwys crynodeb o'r adroddiad hwnnw yn eu Cynlluniau Tymor Canol Integredig. Dylai gynnwys gweithgaredd gwirfoddol ac ymchwil, a gwybodaeth am y gweithlu sy'n benodol i'r sefydliad (ar wahân i AaGIC).
- Mae adrannau rhyngwladol prifysgolion yn casglu gwybodaeth am eu gweithgaredd; gellid rhannu'r arfer gorau ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon a chael adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi gan bob SAU.
- Gallai Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyfrannu gwybodaeth ynglŷn ag astudiaethau rhyngwladol sy'n digwydd, neu grantiau a ddyfarnwyd.
- Gallai MediWales a LSHW adrodd am weithgaredd rhyngwladol cwmnïau gwyddorau bywyd.
- Gellid darparu gwybodaeth am y trydydd sector gan Rwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, os caiff adnoddau digonol, neu Hub Cymru Africa – er bod ffocws yr olaf o'r rhain yn ehangach nag iechyd. Byddai angen ystyried y ffordd orau o gynnwys gweithgaredd gyda gwledydd nad ydynt yn Affrica sydd, fel y dangoswyd gennym, yn sylweddol.

Byddai'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth i'r Grŵp Strategaeth Rhyngwladol traws-lywodraethol (gweler isod). I ddechrau, mae'n debygol y bydd yr adroddiadau yn anghyflawn, ond gydag amser a phroffil uwch i'r gweithgaredd, bydd y data'n gwella'n gyflym. Bydd darlun eglur, cyfredol o raddfa a chwmpas llawn y gweithgaredd yn allweddol o safbwynt targedu cefnogaeth ac amlygu llwyddiant, gan alluogi twf cyson a gwell manteision.

## 2. Datblygu perthnasoedd cryf ar draws a rhwng llywodraethau.

Mae’r adolygiad hwn yn bwrw goleuni ar y nifer o wahanol adrannau a grwpiau o fewn Llywodraeth Cymru sy’n berthnasol i weithgaredd iechyd rhyngwladol. Mae adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar weithredu’r Ddeddf yn argymell yn gryf y dylid gochel rhag weithio “mewn seilos” ac mae cyllido mewn seilos a thros dymor byr hefyd yn cael ei weld fel rhwystr rhag gweithredu’r Ddeddf yn effeithiol. Mae’n hanfodol bod pob asiantaeth yn gweithio mewn modd cydlynus ac yn dilyn strategaeth a gytunwyd mewn perthynas ag iechyd rhyngwladol. Ar yr un pryd, mae perthnasoedd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn allweddol mewn meysydd sydd wedi’u hamlygu drwy gydol yr adroddiad hwn.

Felly, rydym yn ailadrodd dau o’n hargymhellion o’n adolygiad diwethaf yma:

- Cynnull Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol (GSIRh) trawslywodraethol.
- Cryfhau’r berthynas strategol gydag adrannau a Llywodraeth a rhwydweithiau’r DU, gan gynnwys yr FCDO, DHSC a DIT.

Ers cyflwyno’r adroddiad hwnnw, mae digwyddiadau wedi symud ymlaen o safbwynt eglurder ynglŷn â thoriadau’r FCDO a datblygiadau yn Public Health England. Mewn perthynas â’r pwynt diwethaf, mae PHW wedi gosod ei hun mewn sefyllfa ble mae am fod yn arweinydd dylanwadol ym maes Diogelu Iechyd. Gall fod rolau newydd i’w chwarae hefyd yn Asiantaeth Diogelwch Iechyd newydd y DU, sydd â chylch gorchwyl sy’n cynnwys y pedair cenedl, a gellid ceisio cyfleoedd yma drwy Brif Swyddog Meddygol Cymru.

Byddai creu Strategaeth Iechyd Rhyngwladol ar gyfer Cymru yn darparu cyfeiriad mewn sawl maes. Ymhlith yr enghreifftiau cyfredol, mae potensial iddi lywio agweddau rhyngwladol ar strategaeth tair-blynedd YGIC, sydd wrthi’n cael ei datblygu, ac i hwyluso ceisiadau cydlynus, strategol am gronfeydd yr UE.

## 3. Adolygu ymwneud y Llywodraeth â rhwydweithiau rhyngwladol.

Roedd bwriad yn wreiddiol y byddai’r adolygiad hwn yn ystyried y rhwydweithiau allweddol ar gyfer ymwneud Llywodraeth Cymru, o safbwynt iechyd rhyngwladol. Cafodd hyn ei roi o’r neilltu, gan ein bod wedi cael gwybod bod y broses hon wedi cael ei chwblhau yn fewnol yn ystod datblygiad y Strategaeth Ryngwladol, ac yn mynd i gael ei hailadrodd nawr bod telerau ymadawiad y Deyrnas Unedig o’r Undeb Ewropeaidd yn wybyddus. Rydym yn argymell y dylid cynnal y broses hon cyn gynted ag y bo modd, er mwyn i aelodau Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i allu dylanwadu ar gyfeiriad yn ystod cyfnod cynnar datblygiad y berthynas newydd rhwng y DU a’r UE. Rydym yn gobeithio y bydd canfyddiadau’r adolygiad hwn yn cyfrannu at y broses honno.

## 4. Datblygu capasiti ar gyfer gweithgaredd iechyd rhyngwladol.

Heb gapasiti digonol, mae’n amhosib datblygu’r gweithgaredd hwn a bydd ymdrechion yn gyffredinol yn parhau ar lefel isel. Bydd datrysiadau posib yma yn amrywio fesul sector:

- Efallai mai dros gyfleoedd yn y GIG y mae gan Lywodraeth Cymru fwyaf o ddylanwad, lle gellir rhoi canllawiau eglur ynglŷn â darparu amser wedi’i neilltuo o fewn cytundebau neu gynlluniau gwaith ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys hyfforddiant, ymchwil a gweithgareddau eraill yn unol â safonau’r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol.
- Gallai’r llywodraeth a phrifysgolion ystyried ffyrdd o symleiddio gweithgareddau sy’n mynd â llawer o amser megis ceisiadau grant, er enghraifft trwy ddarparu cymorth canolog. Dylid gweithredu argymhellion Adolygiad Reid ynglŷn â chyllid ymchwil, sy’n is ar hyn o bryd nag yng ngwledydd eraill y DU a chyfartaledd yr OECD.[103]
- Gallai LSHW arwain ar hyn ar gyfer y sector gwyddorau bywyd, gan geisio darparu cymorth canolog, ymarferol unwaith eto.

[103] Llywodraeth Cymru (2018). Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru.

- Mae Hub Cymru Africa yn cyflawni gwaith datblygu capasiti gyda mudiadau cymdeithas sifil a Phartneriaethau Iechyd, ond gallen nhw, ynghyd â Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, a'r IHCC, ystyried y ffordd orau o ddarparu cefnogaeth bellach.

Mae'n debygol y bydd angen rhagor o gyllid llywodraeth ar gyfer hyn a dylid ei ystyried yn fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld enillion yn deillio ohono o safbwynt boddhad a lles staff yn y GIG, prifysgolion sy'n ddeniadol yn rhyngwladol, economi sy'n tyfu, a phoblogaeth o ddinasyddion sy'n ymgysylltu'n fyd-eang.

## 9.2 HYRWYDDO RHAGORIAETH

### 5. Creu Sefydliad Iechyd Byd-eang yng Nghymru

Byddai hwn yn sefydliad traws-sectoraidd a fyddai'n dwyn ynghyd y gwaith sylweddol ond amrywiol a gwasgaredig yn ddaearyddol sy'n berthnasol i faterion iechyd byd-eang. Byddai angen o leiaf un canolfan arno, ond gellid ei sefydlu fel sefydliad rhwydwaith, gan ganiatáu i bob sefydliad sy'n gysylltiedig gadw ei arbenigedd penodol ac elwa o gymryd rhan. Mae gan Gymru enghreifftiau o strwythur o'r fath eisoes yn ei Hacademïau Dysgu Dwys: mae'r rhain yn gweithio ar fodel darparu trwy bartneriaeth ble mae prifysgolion yn bartner arweiniol ar gonsortiwm sy'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol, diwydiant, y trydydd sector, a phartneriaid rhyngwladol sydd â hygrededd.

Prif nod y Sefydliad hwn fyddai datblygu gwir ragoriaeth mewn iechyd rhyngwladol, gan greu proffil uchel i Gymru yn y maes hwn a denu unigolion talentog ym mhob sector i gyfrannu. Byddai'n gwneud hyn drwy:

- Gefnogi a thyfu arbenigedd sy'n bodoli eisoes.
- Ysgogi syniadau newydd , drwy greu cysylltiadau.
- Hwyluso cydweithio, gan alluogi prosiectau cryf  a cheisiadau llwyddiannus am gyllid i gael eu datblygu.
- Cysylltu gweithgaredd sy'n draddodiadol gysylltiedig ag iechyd â gwaith nad yw mor amlwg felly, gan ehangu gorwelion "iechyd" a'r sylfaen gyllidol sy'n ei gefnogi.

Byddai angen adnodd ariannol ar gyfer hyn, a gellid darparu hynny ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau cysylltiol, a dylai fod yn seiliedig ar gefnogi datblygiad hirdymor. Byddai hyn yn cynnal staff craidd a fyddai'n cydlynu ac yn cyfathrebu ynglŷn â gwaith y Sefydliad, yn amlygu a chefnogi mynediad at geisiadau cyllido, ac yn darparu arweinyddiaeth o broffil uchel drwy benodi i un neu ddwy Gadair wedi'u hariannu. Ymhen amser, gellid ystyried system "paru cadeiriau", gyda sefydliadau partner ledled y byd yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer swyddi tebyg. Manteision eilaidd Sefydliad o'r fath fyddai:

- Creu canolbwynt ar gyfer gweithgaredd iechyd byd-eang yng Nghymru, gan gefnogi mentrau newydd a denu grwpiau sefydlog i gyfrannu.
- Creu canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â phoblogaeth Cymru, gan hwyluso sgyrsiau ynglŷn â manteision gweithgaredd o'r fath yn lleol ac yn fyd-eang, a thrwy hynny, symud agenda dinasyddiaeth fyd-eang yn ei blaen.
- Creu corff â phroffil uchel y gall Cymru fod yn falch ohono a'i ddefnyddio i godi ei phroffil rhyngwladol.
- Datblygu partneriaethau byd-eang cryf sy'n sicrhau'r manteision gorau posib yn y ddau gyfeiriad.

O wneud hyn, byddai sefydliad o'r fath yn hyrwyddo amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Strategaeth Ryngwladol a chael effaith gadarnhaol ar iechyd yn fyd-eang.

## 6. Dathlu llwyddiannau.

Mae gan Gymru broffil byd-eang mewn nifer o feysydd, a gallai'r wlad gyfan elwa o ymdrechion unedig i ddatblygu ar y rhain a'u hyrwyddo. Yn eu plith, mae:

- Iechyd y Cyhoedd, yn arbennig atal, cyfartaledd a genomeg pathogenau, sydd wedi arwain at gysylltiadau cryf gyda'r WHO a chyrff rhyngwladol eraill ym maes iechyd y cyhoedd.
- Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth, sydd wedi'i gysylltu nawr â chyrff a rhwydweithiau byd-eang pwysig, a gall Cymru elwa'n ehangach o hyn.
- Hyfforddiant ac ymchwil bydwreigiaeth, gyda Phrifysgol Caerdydd yn gartref i un o ddwy WHOCC byd-eang, a thrwy hyn yn cynnal cysylltiadau dylanwadol gyda'r WHO a rhwydweithiau rhyngwladol eraill.
- Llosgiadau, gyda phobl yn rhyngwladol yn troi at y Ganolfan Polisi ac Ymchwil Anafiadau Llosgi Byd-eang ac Interburns am arweiniad. Yn yr achos hwn, gall fod yn rhy hwyr i gadw gafael ar yr arbenigedd, ond dylai Llywodraeth Cymru a'r prifysgolion ystyried beth sy'n dal yn bosib.
- Gwella clwyfau, gyda'r ganolfan gyntaf o'i math nid yn unig yn darparu gofal clinigol rhagorol yng Nghymru, ond yn rhoi arweiniad hefyd i wledydd eraill sy'n datblygu gwasanaethau tebyg.
- Gwybodeg feddygol, gyda banc data SAIL yn adnodd anarferol o gyfoethog ar gyfer ymchwil iechyd ar lefel poblogaethau ac yn denu sylw byd-eang.

Mae proffil y cryfderau hyn yn syndod o isel, hyd yn oed o fewn Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru ddod yn fwy abl i "seinio'r utgyrn" ar gyfer llwyddiannau o'r fath, gan eu defnyddio i ddatblygu proffil y wlad, ei rhwydweithiau a'i photensial i ddylanwadu. O wneud hynny, dylai gydnabod bod y meysydd hyn wedi'u datblygu drwy gymhelliant a thalent unigolion a grwpiau, ond y bydd cymorth (boed hynny'n gymorth ariannol, ymarferol neu o ran hyrwyddo) yn eu helpu i fynd ymhellach. Mae gan hyn botensial i ddenu staff a myfyrwyr o ansawdd uchel ar draws sectorau, gan greu cylch cadarnhaol o safonau sy'n codi a phroffil cynyddol, a chyfrannu at wybodaeth ac arbenigedd yn fyd-eang.

## 7. Datblygu busnesau presennol sy'n gysylltiedig ag iechyd ymhellach

Mae gan Gymru ystod dda o gefnogaeth i gwmnïau newydd arloesol ym maes iechyd a'r gwyddorau bywyd, o ariannu i gynghori, a chydleoli gweithgaredd traws-sectoraidd. Ceir llai o gefnogaeth i fusnesau sydd wedi sefydlu, ac sydd wedi profi eu bod yn llwyddiannus ond a allai elwa o fentrau i ehangu o safbwynt eu cwmpas neu eu cyrhaeddiad. I gael llwyddiant rhyngwladol, mae angen safonau uchel a mantais gystadleuol, ac mae busnesau sefydlog mewn sefyllfa ble gallant ddatblygu hynny ymhellach, gan arwain at gyfleoedd gwaith newydd, gweithgaredd allforio a buddsoddi cryfach a phroffil uchel i Gymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnig rhagor o wasanaethau i helpu busnesau gwyddorau bywyd sefydlog i dyfu fel hyn, megis:

- Darparu grantiau neu fenthyciadau llog isel i gefnogi datblygiadau penodol.
- Sicrhau bod cynghorwyr profiadol ar gael, sy'n deall yr angen i symud yn gyflym mewn busnes.
- Datblygu rhwydweithiau mewn gwledydd allweddol, fel bod modd cael mewnwelediad clir i farchnadoedd newydd.

Bydd gwell cysylltiadau a phroffil rhyngwladol o fudd hefyd i ofal iechyd yng Nghymru, drwy ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd uchel yn gost-effeithiol. Gellir cysylltu ymdrechion â 'r Strategaeth Ryngwladol (o safbwynt gwledydd targed) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o safbwynt ymwneud cymunedau a chynaliadwyedd.

## 9.3 CYDIO MEWN CYFLEOEDD SY'N BODOLI

### 8. Datblygu a hyrwyddo "Brand Cymru"

Wrth i'r datblygiadau uchod ddod yn eu blaenau, ac o ddatblygu ar y wybodaeth yn yr adolygiad hwn ynghyd â pholisïau cenedlaethol allweddol Cymru, mae cyfnod o gyfle i ddwyn cryfderau Cymru sy'n gysylltiedig ag iechyd rhyngwladol ynghyd a'u hyrwyddo'n eang. Yn ogystal â'r meysydd penodol a drafodwyd uchod, mae gan Gymru gryfderau cyffredinol i'w hyrwyddo, o safbwynt gofal iechyd ac ymchwil a datblygu sy'n gysylltiedig ag iechyd:

- Ei system iechyd integredig.
- Ei maint cymharol fach a'i hethos o gydweithio, sydd wedi esgor ar rwydweithiau cryf o fewn a rhwng sectorau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
- Ei ffocws ar ansawdd a gwella.
- Ei chymunedau cryf a'r ymdrech i'w cynnwys i gyd ym mhob datblygiad.

Mae'r rhain yn cyfuno i greu amgylchedd sy'n anarferol o gyfoethog ar gyfer ymchwil cadarn ac eang ei gwmpas, gyda'r potensial i ychwanegu gwybodaeth ac arwain at therapïau, systemau gofal iechyd a chynnyrch newydd. Bydd hyrwyddo hyn yn rhyngwladol yn helpu i ddenu cyllid ar gyfer ymchwil rhagorol a mewnfuddsoddiad masnachol, ac yn hyrwyddo masnach tuag allan. Byddai'r gweithgaredd ymchwil cynyddol a'i ansawdd yn denu staff i brifysgolion a'r GIG ac yn codi proffil cyffredinol Cymru. Gallai hyn ddechrau gydag ymdrech gyfathrebu unedig ar lefel y llywodraeth, gydag iechyd yn ffurfio un golofn gref mewn strategaeth ehangach i hyrwyddo cryfderau Cymru'n fyd-eang.

### 9. Cyflymu gwaith arloesi a mabwysiadu datrysiadau newydd yn y GIG.

Mae arloesi yn faes cymharol newydd yn y GIG ac mae ar gyfnod yn ei ddatblygiad ble byddai cefnogaeth a chyfeiriad yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol o safbwynt ei effeithiolrwydd. Mae ymwneud rhyngwladol yn allweddol i rannu dysgu a syniadau sy'n hwyluso arloesi, fel y cydnabyddir gan gyrff sy'n ymwneud yn rhyngwladol megis Comisiwn Bevan. Mae'n gyfnod ble ceir cryn gyfle yn y maes hwn, gan fod pandemig y coronafeirws wedi gorfodi'r GIG i newid yn gyflym, gan fabwysiadu triniaethau a ffyrdd o weithio newydd yn gyflym lle byddai newidiadau o'r fath wedi cymryd blynyddoedd i'w sefydlu yn flaenorol. Mae'r angen am newid yn parhau, hyd yn oed wrth i'r pandemig gilio, oherwydd yr ôl-groniadau o achosion gofal cleifion sy'n wynebu'r GIG. Mae angen manteisio ar hyn tra pery'r diwylliant newydd o newid yn y GIG trwy:

- Annog parhad camau i fabwysiadu systemau, technolegau a therapïau newydd yn gyflym, ond yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys cael gwared mewn da bryd ar y rhai sy'n profi'n aneffeithiol.
- Cyflwyno canllawiau eglur i arweinwyr arloesi ynglŷn â sut a ble i ymgysylltu ag academia a diwydiant, gan gynnwys yn rhyngwladol. Gellid ystyried symleiddio'r rhwydweithiau a'r cyfleoedd niferus.
- Defnyddio mewnwelediad arweinwyr arloesi i ganfod y materion mawr y gellid mynd i'r afael a nhw drwy ymdrechion arloesol traws-sectoraidd, gyda manteision i gleifion yng Nghymru a dramor. Gallai Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru chwarae rôl arweiniol yn dwyn y syniadau hyn allan ac yn datblygu cysylltiadau priodol, a gellid disgwyl y byddai busnesau Cymreig yn elwa o weithgaredd newydd ac allforion posib.
- Cynnwys arweinwyr arloesi'r GIG yn nirprwyaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, er mwyn hwyluso'r rhwydweithio a fydd yn arwain at syniadau newydd a dysgu a rennir.

Mae potensial mawr yma i sicrhau bod y system iechyd a gofal yng Nghymru yn elwa, yn enwedig wrth iddi adfer yn dilyn y pandemig. Bydd ymgysylltu rhyngwladol yn hwyluso datblygiadau ac yn galluogi Cymru i dyfu ei phroffil yn y maes hwn, gyda manteision eraill i'r economi yn bosib.

### 10. Ystyried opsiynau sy'n cysylltu gofal iechyd a masnach.

Caiff y GIG ei ystyried yn un o asedau mwyaf gwerthfawr y Deyrnas Unedig ac mae'n iawn bod ei egwyddorion cydraddol yn cael eu diogelu, a hynny'n gryfach fyth yng Nghymru nag yn rhannau eraill y DU, o bosib. Mae gan Gymru hanes balch o weithio'n allgarol ac yn gydweithredol gyda GIICh i ddatblygu eu systemau gofal iechyd, a bydd yn parhau yn weithredol yn hyn o beth. Ond does dim angen i hynny eithrio Cymru rhag elwa'n fasnachol o ddatblygiadau mewn gofal iechyd, a chynnyrch a gwasanaethau cysylltiedig, yn rhyngwladol. Mae llawer o wledydd o incwm canolig a hyd yn oed o incwm uchel, er enghraifft, yn y Dwyrain Canol, yn gweithio i ddatblygu eu systemau iechyd eu hunain yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac mae gan Gymru gryfderau arbennig a allai fod o ddiddordeb wrth iddynt wneud hyn.

I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddatblygu cysylltiadau gyda Healthcare UK er mwyn ymchwilio i opsiynau ar gyfer bod yn rhan o'u rhaglenni masnach, gan gynnwys y rhai a gyllidir drwy ODA.
- Defnyddio ei swyddfeydd gwladol mewn ardaloedd addas, megis y Dwyrain Canol, i ymchwilio i'r opsiynau hyn.

Gellid cyfarwyddo unrhyw weithgaredd i weddu a gwerthoedd Cymru, gan gofio bod cynnig ystod eang o gyfleoedd anghlinigol yn y GIG yn denu staff, gan fod o fudd i boblogaeth Cymru, a bod cyfrannu arbenigedd mewn meysydd megis iechyd sy'n seiliedig ar werth, a systemau iechyd integredig yn gallu bod o fudd i boblogaethau'n fyd-eang.

## 10 SYLWADAU CLOI

Mae Cymru'n ymroddedig, drwy ddeddfwriaeth, polisïau a'i hagwedd, i fod yn genedl sy'n edrych tuag allan ac yn gyfrifol yn fyd-eang. Rhaid rhoi cefnogaeth gadarn i hynny drwy allu i newid fel ymateb i'r hyn a welir y tu hwnt i'n ffiniau, ac i ddylanwadu ble byddwn yn credu y gall ein syniadau a'n harbenigedd fod o fudd i eraill. Gall hyn ddechrau nawr, drwy fuddsoddi mewn ymdrech unedig i fanteisio ar gryfderau presennol ble mae Cymru'n arwain y byd, gan ysgogi ymgysylltu byd-eang ym maes iechyd a gwireddu ei manteision posib yn llawn, gartref a thramor. Wrth i Lywodraeth y DU newid ffocws ei gwaith ymgysylltu rhyngwladol, gall Llywodraeth Cymru gryfhau ei ddull penodol ei hun o weithio, gan greu'r proffil y mae'n ei ddeisyfu a'i haeddu. Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i argymhellion yn ddefnyddiol wrth iddi wneud hynny.

## *ATODIAD 1: DIOLCHIADAU*

| **Aelodau'r Grŵp Llywio** | |
|---|---|
| **Enw** | **Rolau** |
| Dr Gillian Richardson (Cadeirydd) | Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Brechlynnau) Cymru; Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd. |
| Dr Mariana Dyakova | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd; Arweinydd Iechyd Rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Gydweithredu'r WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| Dr Dafydd Evans | Llywodraeth Cymru, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran yr UE a Rhyngwladol. |
| Nicola Evans | Llywodraeth Cymru, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Is-adran Iechyd y Cyhoedd. |
| Rhodri Griffiths | Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru, Cyfarwyddwr Arloesi a Mabwysiadu. |
| Yr Athro Judith Hall | Prifysgol Caerdydd, Athro Anaestheteg, Meddygaeth Gofal Dwys a Phoen, ac Arweinydd Prosiect Phoenix; Meddyg Ymgynghorol mewn Anaesthesia, Ysbyty Prifysgol Cymru. |
| Claire O'Shea | Hub Cymru Africa, Pennaeth Partneriaethau. |
| Yr Athro Tom Potokar | Pwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch, Prif Lawfeddyg; Cyfarwyddwr, Interburns; Meddyg Ymgynghorol mewn Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig. |
| Jonty Roland | Ymgynghorydd annibynnol ar ddiwygio systemau iechyd a darpariaeth iechyd gynhwysol; Ymddiriedolwr THET. |
| Ben Simms | THET, Prif Swyddog Gweithredol. |
| Carys Thomas | Llywodraeth Cymru, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Polisi Ymchwil a Datblygu iechyd a gofal cymdeithasol.. |

| **Hysbyswyr Allweddol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Rolau** |
| Yr Athro Judith Hall | • Athro Anaestheteg, Gofal Meddygol Dwys a Phoen, Phrifysgol Caerdydd.<br>• Arweinydd Prosiect Phoenix, Phrifysgol Caerdydd.<br>• Sefydlydd a Chadeirydd, Mothers of Africa.<br>• Meddyg Ymgynghorol mewn Anaesthesia, Ysbyty Prifysgol Cymru. |
| Yr Athro Hamish Laing | • Athro Arloesi, Ymgysylltu a Chanlyniadau Gwell, Ysgol Reolaeth (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol), Prifysgol Abertawe.<br>• Cyfarwyddwr, Yr Academi Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth, Prifysgol Abertawe.<br>• Cyfarwyddwr Anweithredol, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.<br>• Is-gadeirydd, Gwasanaethau Digidol Llywodraeth Cymru i Gleifion a'r Rhaglen Gyhoeddus.<br>• Cyn-feddyg Ymgynghorol mewn Llawfeddygaeth Blastig ac Ailadeiladol a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. |

Diolch arbennig i:

- Caroline Coleman, Prifysgol Abertawe, am chwilio a chywain gwybodaeth o Gronfa Ddata Scopus.
- Audrey Arbaud, THET, am gywain gwybodaeth am gyllid grant ODA i SAUau Cymru.
- Yr unigolion lu a gyfrannodd amser a gwybodaeth drwy ddulliau cyfathrebu llai ffurfiol.

## *ATODIAD 2: RHANDDEILIAID A GYFWELWYD*

| Sector | Sefydliad |
|---|---|
| Cyhoeddus | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (YaD, Arloesi) |
| | Comisiwn Bevan |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | Grŵp Arweinwyr Arloesi GIG Cymru |
| Academaidd | Prifysgol Aberystwyth |
| | Prifysgol Bangor |
| | Prifysgol Caerdydd, WHOCC ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth |
| | Prifysgol Abertawe a Chronfa Ddata SAIL |
| | Prifysgol Abertawe a Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth y GIG |
| Masnachol. | Flexicare |
| | PDR International |
| | Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru |
| Nid-er-elw | Interburns |
| Allanol | Tŷ'r Arglwyddi |
| | Public Health England |
| | Llywodraeth yr Alban |
| | Prifysgol Iowa |
| | Prifysgol Namibia |

## *ATODIAD 3: CASGLIADAU AC ARGYMHELLION O "PARTNERIAETHAU IECHYD CYMRU GYDAG AFFRICA"*

### Casgliadau

1. Bydd gwaith iechyd rhyngwladol yn elwa o well cydlynu.

2. Mae angen i gyrff iechyd rhyngwladol ddatblygu er mwyn cael gafael ar well cyllido.

3. Mae gan Gymru opsiynau ar gyfer cynyddu cyllid ODA, ond dylai edrych mewn mannau eraill hefyd.

4. Mae angen i'r GIG fuddsoddi er mwyn elwa o waith iechyd rhyngwladol.

5. Mae angen mynd ati'n rhagweithiol i ddenu grwpiau diaspora i mewn i waith iechyd rhyngwladol.

6. Byddai Cymru'n elwa o strategaeth sy'n yn ymwneud yn benodol ag iechyd rhyngwladol.

### Argymhellion

**Argymhellion i Lywodraeth Cymru**

1. Ymrwymo i gynnal cyllid a chefnogaeth i waith rhyngwladol.

2. Cynnull Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol (GSIRh) trawslywodraethol.

3. Cryfhau'r berthynas strategol gydag adrannau Llywodraeth y DU a rhwydweithiau, gan gynnwys yr FCDO.

4. Adolygu ac ail-fuddsoddi mewn cydlynu ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol.

5. Cysoni'r defnydd o gyrff elusennol y GIG ar gyfer cadw cronfeydd Partneriaethau Iechyd.

6. Datblygu capasiti a chynaliadwyedd cyrff sy'n bodoli.

**Argymhellion i GIG Cymru**

1. Gwreiddio gwaith rhyngwladol ym musnes craidd y GIG trwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn llawn.

3. Datblygu gwaith ymgysylltu byd-eang Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

**Argymhellion i gyrff eraill**

RhCICA: cadarnhau ei bwrpas a'i weledigaeth, i greu rhwydwaith cryf.

Mae THET yn gweithio i greu byd lle mae gan bawb, ym mhobman fynediad at ofal iechyd o ansawdd. Rydym yn cyflawni hyn trwy hyfforddi ac addysgu gweithwyr iechyd mewn gwledydd incwm isel a chanolig, mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr o bob rhan o gymuned iechyd y Deyrnas Unedig. Wedi'n sefydlu ym 1988 gan Yr Athro Syr Eldryd Parry, ni yw'r unig elusen yn y DU sy'n canolbwyntio ar hyn.

THET
PARTNERSHIPS FOR GLOBAL HEALTH